

Gwrando'n Astud

Gwrando'n Astud

Ceir copiâu o'r darnau sain ynghyd â
chynnwys y llyfr ar wefan
bbc.co.uk/cymru/tiwtoriaid



Engreifftau llafar lluosog ac amrywiol o Gymraeg cyfoes

NODYN I'R TIWTOR

Gellir dadlau mai gwrando a deall yw'r sgil mwyaf anodd y disgwylir i ddysgwyr unrhyw iaith ei feistroli. Tra bod modd rheoli'n ofalus yr hyn rydych chi eich hun yn ei ddweud, ni ellir gwneud hynny pan fydd rhywun arall yn siarad. Ar ben hynny, mae'r iaith lafar yn gallu amrywio mewn cymaint o wahanol ffyrdd gan gynnwys geirfa, cystrawen, priod-ddull, tafodiaith, ynganiad, sain, rhythm, eglurder a chyflymder, i enwi rhai elfennau'n unig. Nod y cryno-ddisgiau hyn yw rhoi cyfle i ddysgwyr da ymgyfarwyddo ag amrywiadau'r iaith lafar. Rhaid ymarfer y sgil yn gyson a rhaid gwerthfawrogi nad dros nos y daw unrhyw un i ddeall pob peth a glywir. Dyfal donc a dyrr y garreg yw'r arwyddair yn y cyswllt hwn. Gobeithir y bydd yr enghreifftiau lluosog ac amrywiol o Gymraeg cyfoes a geir yn y casgliad hwn yn adnodd gwerthfawr yn y dosbarth.

Bydd gan bob tiwtor ei ddull a'i arddull ei hun o ddysgu a bydd yn addasu'r darnau at ei ddibenion unigryw personol. Serch hynny, teimlwyd ei bod yn werth cynnig rhai canllawiau ac awgrymiadau ynghyd â syniadau am yr hyn y gellir ei wneud yn y dosbarth. Hefyd bydd safon dosbarthiadau, a hyd y oed safon aelodau o fewn yr un dosbarth, yn amrywio'n fawr a rhaid i'r tiwtor fod yn effro i hynny. Yr unig ffordd i feithrin a datblygu unrhyw sgil yw trwy ei ddefnyddio, ac nid yw sgiliau llafar yn eithriad i'r rheol hon. Gobeithir felly y bydd y darnau llafar a ddewiswyd yn esgor ar drafodaeth yn y dosbarth ac yn fan cychwyn i gyfoethogi geirfa, deall patrymau ac yn y diwedd i gaffael yr iaith yn ei chyfanrwydd cyfoethog.

Bydd pob uned yn dilyn yr un drefn ond gobeithir y bydd tiwtoriaid yn ddigon hyblyg i ddethol yr adrannau a'r drefn cyflwyno sy'n ateb gofynion y dysgwyr o dan eu gofal:

DISGRIFIAD O'R DARN

O dan y prif bennawd, ceir disgrifiad cryno o gynnwys y darn. Dylai'r tiwtor ymhelaethu ar hyn yn ôl y galw a thynnu sylw ymlaen llaw at rai pwyntiau iaith a safbwyntiau sy'n mynd i godi.

GEIRFA

Bydd adnoddau geirfaol grwpiau, yn ogystal ag unigolion o fewn y grŵp, yn amrywio'n fawr iawn. Yr hyn a wneir yn yr adran hon yw rhestru'r geiriau allweddol yn y darn fel y gall tiwtoriaid ddethol y rhai y dylid eu hesbonio cyn dechrau gwrando.

GWRANDO A DEALL

Unig bwrpas yr adran hon yw sicrhau bod y gwrandawr wedi deall y neges a drosglwyddir. Gwneir hyn trwy ofyn cwestiynau ffeithiol am gynnwys y darn. Ni cheisir trafod y syniadau a fynegir. Awgrymir bod y dosbarth yn gwrando ar y darn ar ei hyd i ddechrau, heb gymryd nodiadau ac wedyn gweld faint o'r cwestiynau y gallant eu hateb. Ar ôl gwneud hyn, gellir gwrando arno sawl gwaith eto hyd nes bo pawb yn deall y cynnwys.

IAITH

Seilir yr adran hon ar nodweddion ieithyddol sydd wedi codi yn y darn. Bydd yn cynnwys nifer o ymarferion i'w hateb yn ysgrifenedig neu ar lafar. Gall yr ymarferion ganolbwyntio ar eirfa neu batrwm arbennig, dro arall ar dreigladau neu briod-ddulliau. Nod yr adran fydd cyfoethogi a gloywi iaith gan adeiladu ar yr hyn a glywyd. Penderfynwyd cynnwys yr atebion i'r ymarferion mewn atodiad yn arbennig ar gyfer y rheiny fydd yn defnyddio'r pecyn ar eu pennau eu hunain.

TAFODIAITH

Rhan o gyfoeth y Gymraeg yw ei thafodieithoedd ac un o amcanion y casgliad hwn o ddarnau llafar yw rhoi i'r dysgwr gyfle i ymgyfarwyddo â'r amrywiadau diddorol a geir o ran geirfa, cystrawen ac ynganiad. Daw'r enghreifftiau o iaith lafar sawl rhan o'r wlad gyda'r siaradwyr yn amrywio o ran oed, addysg a chefnidir. Fel arfer, gofynnir i'r dysgwr sylwi ar brif nodweddion yr iaith lafar dan sylw drwy ateb cwestiynau penodol. Mewn rhai darnau ceir siaradwyr o'r de a'r gogledd yn sgwrsio a chyfle felly i gyferbynnu nodweddion y ddau brif raniad

NODYN I'R TIWTOR

tafodieithol. Os digwydd i siaradwr hanu o ardal y dosbarth, dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr wrando ar ynganiad arbennig geiriau unigol sy'n nodweddiadol o'r dafodiaith leol.

TRAFOD

Yn yr adran hon canolbwyntir ar gynnwys y darn yn hytrach na'i nodweddion ieithyddol. Codir cwestiynau wedi eu seilio ar farn neu safbwynt a fynegwyd a gobeithir y bydd grwpiau yn trafod y syniadau hyn gan ddefnyddio'r iaith a godwyd yn yr adrannau uchod.

Prif ddiben dysgu iaith yw er mwyn ei siarad a dyna'r gweithgarwch y gobeithir ei symbylu dan y pennawd hwn. Cwmpasir nifer fawr o bynciau a gobeithir bod yn y detholiad rywbeth at ddant pawb. Os oes pwnc y teimlwch y bydd yn esgor ar ddrwgdeimlad yn y dosbarth, dylid ei osgoi ar bob cyfrif. Chi sy'n nabod eich dosbarth. Gall y trafod ddigwydd mewn parau, mewn grwpiau bach neu ar sail y dosbarth cyfan.

Mae gwrthwynebu a mynegi safbwyntiau gwrthgyferbyniol yn gallu esgor ar drafodaeth fywiog. Yn aml, gwelir sgiliau mynegiant dysgwyr yn gwella pan fydd y pwyslais ar bwnc sydd o ddiddordeb iddynt yn hytrach nag ar yr iaith. Gobeithir, yn wir, y bydd rhai o'r pynciau a godir yma yn gwneud hynny.

YMADRODDION

Tynnir sylw at unrhyw briod-ddull, ymadrodd neu gymhariaeth a glywyd ac sy'n werth eu nodi yn yr adran hon. Yn araf, a dros gyfnod o amser, y bydd dysgwyr yn ymglyfarwyddo â'r rhain, ond gan bwyll mae mynd ymhell a'r nod yw cyflwyno un neu ddau o ymadroddion newydd yn sgil pob darn.

YSGRIFENNU

Bydd y rhan fwyaf o diwtoriaid yn gosod gwaith cartref fydd yn cadarnhau pwyntiau a godwyd yn y dosbarth. Ym mhob adran awgrymir pynciau y

gellir ysgrifennu arnynt gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau a gododd yn sgil y gwrandao a'r trafod. Dyna yn fras yw cynnwys y pecyn hwn. Rwy'n drwm yn nyled Eurof Williams am grynhoi amrywiaeth o ddarnau i'w dethol ac i Helen Prosser am fwrw llygad graff ar yr unedau a chynnig nifer o syniadau a sylwadau gwerthfawr. Diolch i'r ddau. Afraid dweud taw fi sy'n gyfrifol am unrhyw wendidau a welir yn y gwaith terfynol. Mawr obeithiaf, fodd bynnag, y bydd tiwtoriaid a dysgwyr yn cael budd a phleser wrth wrando ar y darnau a'u trafod.

Cennard Davies
Treorci, Ionawr 2007

CDI:

TRAC 1	ARFON HAINES DAVIES YN SIARAD Â BETI GEORGE AM DDYDDIAU YSGOL - 2.35
TRAC 2	ADRODDIAD FFYRDD - 1.00
TRAC 3	PENAWDAU'R NEWYDDION - 1.00
TRAC 4	EITEM NEWYDDION – CODI TAI YN LLANELWY - 0.40
TRAC 5	POBL IFAINC GWENT YN SŌN AM Y GYMRAEG - 1.35
TRAC 6	CYFLWYNO CAIS - 2.20
TRAC 7	DYFALU'R FLWYDDYN - 1.03
TRAC 8	CYMRAEG YN Y GOFOD - 0.50
TRAC 9	ADRODDIAD TYWYDD A FFYRDD - 1.03
TRAC 10	DARN O BREGETH - 3.56
TRAC 11	TWM ELIAS YN SIARAD AM BRYFED COP - 2.05
TRAC 12	HANES CATH DEW - 1.24
TRAC 13	CÂN WERIN - 1.42
TRAC 14	HANES LLYWELYN EIN LLYW OLAF - 3.50
TRAC 15	PONTYPRIDD AC UGANDA - 5.50
TRAC 16	TRAFOD Y NEWID YN YR HINSAWDD - 5.50
TRAC 17	DAL SADDAM HUSSEIN - 3.30
TRAC 18	BARDD YN TRAFOD EI BYWYD - 2.33
TRAC 19	TRAFOD PROBLEM - 6.12
TRAC 20	SYLWEBAETH AR GÊM RYGBI - 2.44
TRAC 21	DYSGU PLANT GARTREF - 4.08

CD2:

- TRAC 1 **TRAFOD Y FFILM 'WIZARD OF OZ' - 3.44**
- TRAC 2 **TRAFOD CYNLLUN STAMPIAU'R NADOLIG - 5.58**
- TRAC 3 **COFIO TEULU SYLVIA PANKHURST - 4.45**
- TRAC 4 **IOLO WILLIAMS YN SÔN AM ADAR - 2.06**
- TRAC 5 **SGWRS Â RAY GRAVELL AM ACTIO - 4.40**
- TRAC 6 **TRAFOD Y DEFNYDD O 'TI' A 'CHI' YN GYMRAEG - 4.07**
- TRAC 7 **SGWRS RHWNG TOMOS MORSE A'R ACTOR IOAN GRUFFYDD - 5.36**
- TRAC 8 **BETI GEORGE YN CYFWELD Â'R DR GWYNFOR EVANS - 4.32**
- TRAC 9 **SYLWEBAETH PÊL-DROED - 2.55**
- TRAC 10 **DAFYDD IWAN YN SÔN AM DDECHRAU EI YRFA - 3.15**
- TRAC 11 **DYFAN ROBERTS YN DARLLEN STORI ARSWYD - 2.11**
- TRAC 12 **GUTO ROBERTS YN SÔN AM GYMERIAD GWREIDDIOL - 2.44**
- TRAC 13 **ATGOFION DR DEREK LLWYD MORGAN AM GEFN-BRYN-BRAIN - 1.08**
- TRAC 14 **GOLYGU'R 'CYMRO' – ATGOFION JOHN ROBERTS WILLIAMS - 2.34**
- TRAC 15 **JONSI'N SGWRSIO Â MIRIAM JAMES AM EI GWAITH MEWN
SIOP LYFRAU - 3.30**
- TRAC 16 **BETH SYDD MEWN ENW? - 4.03**
- TRAC 17 **HUNANGOFIANT VICTOR SPINETTI - 3.04**

CDI: TRAC I

ARFON HAINES DAVIES YN SIARAD Â BETI GEORGE AM DDYDDIAU YSGOL

[Y darlledwr, Arfon Haines Davies yn adrodd ei brofiadau yn ddisgybl mewn dwy ysgol wahanol iawn i'w gilydd]

GEIRFA

unlle pumdegau stori(straeon) disgybl rhyfedd gwyrth canlyniadau eilradd bwllian disgyblaeth lem Treffynnon

GWRANDO A DEALL

- i) Ym mha gyfnod o'i fywyd oedd Arfon yn byw yn Aberystwyth?
- ii) Pa mor hapus oedd e yn yr ysgol gynradd yno?
- iii) Beth oedd Mary Vaughan-Jones yn gallu ei wneud yn dda?
- iv) Pam nad oedd Arfon yn hapus yn Ysgol Ardwyn?
- v) Pwy oedd yn cael mynd i Ysgol Ardwyn?
- vi) Ble roedd y lleill yn mynd?
- vii) Sut roedd y prifathro'n darllen canlyniadau'r I I-plus?
- viii) I ble symudodd y teulu o Aberystwyth?
- ix) Sut roedd e'n hoffi Ysgol Glan Clwyd?
- x) Pam roedd e'n sôn am wersylloedd Colditz a Butlins?

IAITH

a) Cwblhewch y rhestr hon o enwau lleoedd:

Holywell	Treffynnon
St Davids	
Brecon	
Holyhead	
Fishguard	
Denbigh	
Welshpool	
Newport	
Chepstow	

b) Mae'r siaradwr yn sôn am "un o flynyddoedd 'hapus' fy mywyd".

Gradd eithaf 'hapus' yw 'hapusaf'. Beth yw gradd eithaf y canlynol?

hapus	hapusaf
da	
drwg	
bach	
hawdd	
agos	
llydan	
tlawd	
caredig	

c) Ysgrifennwch frawddegau i ddangos y gwahaniaeth rhwng y parau hyn o eiriau: bae/bai; caledi/caledu; côr/cor; crud/cryd; chwaith/chwaeth.

TAFODIAITH

Er iddo gael ei fagu yn Aberystwyth, pa dystiolaeth sydd bod dylanwad y gogledd yn drwm ar iaith lafar y siaradwr?

TRAFOD

- i) Soniwch wrth aelodau eraill y grŵp am
 - a) y peth gwaethaf
 - b) y peth mwyaf doniolddigwyddodd ichi yn yr ysgol.
- ii) Disgrifiwch athro a ddylanwadodd arnoch.
- iii) Ar wahân i waith ysgol, beth fwyneuo chi ei wneud?
- iv) Cael sgwrs â rhywun sy'n siarad Cymraeg yn eich ardal am ddyddiau ysgol a dod ag adroddiad yn ôl i'r dosbarth.

YMADRODDION

trwy ryw ryfedd wyrth y pumdegau

YSGRIFENNU

Taswn i'n cael dechrau fy mywyd unwaith eto... Fy atgof cyntaf o'r ysgol. Ysgol profiad yw'r ysgol orau?

ADRODDIAD FFYRDD

[Wil Morgan yn cyflwyno adroddiad ar gyflwr y ffyrdd]

GEIRFA

tagfa (tagfeydd)	parhau	yn gyfangwbl	
ailgyfeirio	oedi	tarmacio	ar amser

GWRANDO A DEALL

- i) Ble roedd y ddamwain ar ffordd M4?
- ii) Pa mor bell yn ôl mae'r ciw yn ymestyn?
- iii) Beth sydd wedi achosi i ffordd A470 gael ei chau?
- iv) Trwy ba dref mae'r traffig wedi ei ailgyfeirio?
- v) Ble mae car wedi torri i lawr ar ffordd A470?
- vi) Beth sy'n digwydd ar ffordd A40 yng Nghaerfyrddin?
- vii) Ar ba ffordd does dim trafferthion o gwbl?
- viii) Faint o broblemau sy'n gysylltiedig â'r fferis a'r trenau i lwerddon?
- ix) Am faint o'r gloch bydd yr awyren o Sharm el Sheikh yn glanio?
- x) Beth yw'r rhif ffôn?

IAITH

- a) Pa eiriau o'r ddwy golofn sy'n gyfystyr?
- | | |
|----------|--------------|
| traffig | dal i |
| ciw | yn brydlon |
| oedi | trafnidiaeth |
| ar amser | gohirio |
| parhau | cwt |

b) Dysgwch y termau hyn yn ymwneud â'r ffyrdd a darganfod eu hystyr (Sylwch eu bod i gyd yn fenywaidd):

ffordd (ffyrdd); cyffordd; traffordd; ffordd ddeuol; pontffordd; croesffordd; priffordd; heol (hewl) fawr.

c) Gwrandewch ar yr adroddiad eto. Pa enw o bob pâr glywsoch chi?

Aberteifi / Abertawe;
Baglan / Bangor;
Pentre-bach / Pentyrch;
Abercynon / Aberaman;
Caerfyrddin / Caernarfon;
Ceinewydd / Cei Connah

TRAFOD

- i) Pam mae'n anghywir cyfeirio at Ffordd M4 fel 'yr M4'? Pam, yn eich barn chi, mae pobl yn mynnu dweud hyn?
Oes enghrefftau eraill tebyg?
- ii) Disgrifiwch yn fanwl eich taith i'r dosbarth neu o'ch cartref i'r dref fawr agosaf.
- iii) Trafodwch sut y byddech yn datrys problemau trafndiaeth Cymru.
- iv) 'Dylid codi'r dreth ar betrol yn sylweddol'. *Trafodwch.*

YSGRIFENNU

Taith gar / fws gofiadwy.
Gyrru.
Gyrwyr ifanc.
Damwain.

PENAWDAU'R NEWYDDION

[Cyhoeddwr yn rhestru penawdau'r newyddion]

GEIRFA

ymchwil awgrymu gwneud drygau gwaethaf
euog cyfaddef llofruddio Llys y Goron
cipio treisio cynlluniau pryderon
gwyliadwriaeth carcharor

GWRANDO A DEALL

Gwir neu anwir?

- i) Mae pobl ifainc Prydain gyda'r gorau yn Ewrop.
- ii) Roedd y baban a laddwyd yn fis oed.
- iii) Cafodd merch ei chipio yn Wrecsam.
- iv) Dyma'r tro cyntaf i unrhyw un awgrymu ehangu'r marina.
- v) Mae cynghorwyr Dinbych am geisio gwella bwyd ysgol.
- vi) Roedd sôn am gael carcharor trwy'r post!

IAITH

a) Gwrandewch ar y penawdau eto a chwblhewch y brawddegau hyn:

- i) Ieuenctid Prydain ydy'r yn Ewrop.
- ii) Mam ifanc o Abertawe yn euog o marwolaeth ei babi.
- iii) Dyn wedi ei gyhuddo o gipio a merch ifanc yn Wrecsam.
- iv) Cynlluniau ar y i ddatblygu marina Pwllheli.
- v) Cynghorwyr yn gofyn am arian i wneud yn siwr y bydd ar gael yn y sir.
- vi) Byddwch ar eich rhag ofn y cewch chi garcharor yn y post!

b) Diffiniwch yn eich geiriau eich hun:

ymchwil; carcharor; llofruddio; awgrymu; Llys y Goron; cipio

c) Ailysgrifennwch y brawddegau hyn gan ddefnyddio ffurf gryno amhersonol y ferf:

- | | |
|--|---|
| Cafodd lleidr ei ddal. | Daliwyd y lleidr. |
| Bydd y ffair yn cael ei hagor gan y Maer. | Cafodd y bachgen ei garcharu. |
| Mae'r gyngerdd yn cael ei threfnu gan Gyngor y Dref. | Cafodd y baban ei ladd gan ei fam. |
| Roedd Cymraeg yn cael ei siarad yno unwaith. | Bydd y tŷ'n cael ei werthu yfory. |
| Roedd dillad yn cael eu gwerthu yno flynyddoedd yn ôl. | Mae Dewi'n cymryd y brif ran yn y ddrama. |

TAFODIAITH

Beth yn eich barn chi yw prif nodweddion iaith bwletin newyddion? Pa bynciau sy'n ymddangos yn gyson?

TRAFOD

- i) Lluniwch benawdau'r newyddion yng Nghymru / Prydain yr wythnos hon a thrafodwch rai ohonynt yn y grŵp.
- ii) Lluniwch rai o benawdau'r byd eleni / y llynedd a'u trafod yn yr un modd.
- iii) Trafodwch yr eitemau sydd yn y newyddion yn eich ardal ar y pryd.

YMADRODDION

Byddwch ar eich gwyliadwriaeth!

YSGRIFENNU

Lluniwch un eitem lawn o newyddion cyfredol. Ar y cyd, lluniwch fwletin o eitemau newyddion y dosbarth – pen-blwyddi; ymweliadau; absenolion; afiechyd etc. Lluniwch fwletin newyddion ar gyfer 2100.

EITEM NEWYDDION – CODI TAI YN LLANELWY

[Eitem yn trafod problemau ehangu tref fach yng ngogledd-ddwyrain Cymru]

GEIRFA

ymgynghoriad	cynlluniau	datblygu	lleol
gwrthwynebiad	trigolion	dyblu	adnoddau
ymdopi	datganiad	pendant	argymhellion

GWRANDO A DEALL

- i) Beth mae Cyngor Sir Dinbych yn ei wneud ar hyn o bryd?
- ii) Faint o dai fydd, o bosib, yn cael eu codi?
- iii) Ble yn union maen nhw'n bwriadu codi'r tai?
- iv) Beth yw teimlad y bobl leol?
- v) Beth maen nhw'n ei ofni?
- vi) Pa mor bendant yw'r cynlluniau?
- vii) Tan pryd gall pobl ddweud eu barn?

IAITH

a) Cysylltwch bob gair ar y chwith â'r diffiniad agosaf ohono:

gwrthwynebiad	sicr
ymgyngoriad	llwyddo i
trigolion	bwriadau
ymdopi	bod yn erbyn
pendant	holi barn pobl
cynlluniau	preswylwyr

b) Gwir neu Anwir

Dydy Cyngor Dinbych ddim yn trafod eu cynlluniau â phobl leol.
Mae 800 o dai wedi cael eu codi yn y dre yn barod.
Mae pobl yn pryderu y bydd maint y dref yn tyfu.
Mae digon o adnoddau yn y dre i ganiatáu'r datblygiad.
Mae'r cynlluniau yn bendant nawr.
Gall pobl ddatgan eu barn tan Ragfyr y cyntaf.

c) Lluniwch frawddegau i ddangos y gwahaniaeth rhwng y parau hyn o eiriau:

ewin / ewyn;
ffraeo / ffrio;
glân / glan;
hael / haul;
hud / hyd (enw)

TAFODIAITH

Trafodwch beth yn eich barn chi yw hanfodion iaith bwletin newyddion da. Oes lle i dafodiaith o gwbl mewn bwletin o'r fath?

TRAFOD

- i) Fel grŵp, lluniwch restr o bethau sydd yn newyddion naill ai yn lleol neu yn genedlaethol. Gan gymryd un pwnc yr un, paratowch eitem ar gyfer y bwletin.
- ii) Codi tai neu gadw'r caeau? *Trafodwch.*
- iii) Y sefyllfa dai yn eich ardal.
- iv) "Dim ond newyddion drwg sydd o ddiddordeb i'r cyfryngau". *Trafodwch.*

YSGRIFENNU

Prynu fy nhŷ cyntaf.
Sut yr hoffwn weld fy ardal yn datblygu.

POBL IFAINC GWENT YN SÔN AM Y GYMRAEG

[Disgyblion Ysgol Gwynlliw, Gwent yn esbonio eu hagwedd iach at y Gymraeg]

GEIRFA

yn bennu lan	o arfer	arferiad	ymateb
cwestiynu			

GWRANDO A DEALL

- Oedd y merched yn yr un ysgol gynradd cyn mynd i Ysgol Gwynlliw?
- Beth maen nhw'n ei wneud sy'n anarferol?
- Beth fyddai'n annaturiol iddyn nhw ei wneud?
- Ble dechreuodd un o'r merched a'i dwy chwaer ddysgu Cymraeg?
- Faint o Gymraeg sydd gan eu tad?
- Beth maen nhw'n gobeithio y bydd ymateb pobl i'w penderfyniad?
- Beth yw gobaith un o'r merched?
- Sut mae pobl y gogledd yn eu gweld, yn ôl un ferch?

IAITH

a) Mae cenedl rhai enwau yn amrywio yn ôl ardal. Beth mae pobl yn ei ddweud yn eich ardal chi?

dau funud	dwyr funud
y dafarn	y tafarn
y cyngerdd	y gyngerdd
y gornel	y cornel
dwyr emyn	dau emyn
nifer mawr	nifer fawr
angladd mawr	angladd fawr
y dudalen	y tudalen

b) Mae acenion yn gallu bod yn bwysig. P'un o'r rhain sy'n gywir?

glân y mor	glan y môr
caniatâd	caniatad
caniatáu	caniatau
glöwr	glöwr
glöwyr	glöwyr
coffáu	coffâu

c) Cwblhewch y frawddeg drwy ddewis y gair cywir:

- Doedd e wedi ymweld â Rwsia.
a) byth b) gynt c) erioed ch) o flaen
- Aeth Twm a Mari i'r sinema
a) gyda'u gilydd b) i'w gilydd c) gyda'i gilydd
- Colli wnaethoch chi, mae'n siwr: , wrth gwrs.
a) Ie b) Do c) Ydy
- Pryd cyrhaeddodd y bws?
a) Caerdydd b) yng Nghaerdydd c) Gaerdydd
- Dof i adref cyn naw o'r gloch
a) neithiwr b) heno c) echnos

TAFODIAITH

Mae rhai yn mynnu bod plant ysgolion Cymraeg y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain yn datblygu eu tafodiaith eu hunain. O wrando ar y darn hwn, pa sylwadau byddech chi'n eu gwneud o dan y penawdau GEIRFA, CYSTRAWEN, TREIGLADAU, DEFNYDD O'R SAESNEG?

POBL IFAINC GWENT YN SÔN AM Y GYMRAEG

TRAFOD

- i) Oes disgwyl i blant o gartrefi di-Gymraeg sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg siarad yr iaith â'i gilydd y tu allan i'r ysgol? *Trafodwch.*
- ii) Gwnewch restr o'r pethau sy'n anodd i ddysgwyr mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn brin.
- iii) Oes rhaid siarad yn berffaith er mwyn cyfathrebu?

YSGRIFENNU

Lluniwch restr o 10 o bethau fyddai'n helpu dysgwyr Cymraeg yn eich ardal chi.

Y tro cyntaf i mi gael sgwrs yn Gymraeg oedd

.....

CDI: TRAC 6 CYFLWYNO CAIS

[Dai Jones yn cyflwyno cais gan wrandawr ar y rhaglen 'Ar Eich Cais']

GEIRFA

wyddoch chi be? yn prysur fynd braint
agoriadol cewri godidocaf cyfarchion
wyr (wyrion) Eryr Pengwern

GWRANDO A DEALL

- i) Sut mae'r tywydd, yn ôl Dai?
- ii) Ble mae e wedi treulio'r penwythnos?
- iii) Pwy welodd e yng Nghaerdydd?
- iv) Beth sy'n digwydd yn y siopau?
- v) Beth sy'n bwysicach na dim, yn ôl Dai?
- vi) Ers faint o amser mae e wedi cyflwyno 'Ar eich Cais'?
- vii) Oddi wrth bwy mae'r llythyr?
- viii) Am beth mae awdur y llythyr yn adnabyddus?
- ix) Faint yw oed Eirwen Jones?
- x) Sut mae Dai yn ei chanmol?

IAITH

a) Weithiau mae'r Gymraeg yn defnyddio mwy nag un berfenw i gyfleu cysyniad tra bo Saesneg yn defnyddio un. Er enghraifft, gwybod / adnabod yn Gymraeg, ond yn Saesneg, 'to know' yn unig. Rhestrir tair enghraifft o hyn yn y golofn ar y chwith. Lluniwch 8 brawddeg trwy ddefnyddio'r berfenwau hyn mewn perthynas â'r enwau yn y golofn ar y dde:

gwario / treulio esgidiau / arian / amser

achub / arbed / cynilo traed / person / arian

tebyg / tebygol troi'n wlyb / i'w fam

b) Gwrandewch ar y darn eto gan sylwi ar y tagiau / ychwanegiadau a ganlyn:

Caerdydd 'na chi; a wyddoch chi be'; alla i ddim gofyn am fwy, 'na alla?'; yn wir i chi; chi'n mbod; ddylwn i ddeud; 'dych chi ddim yn edrych hynny, 'na dach?; na Dafydd, o ran hynny; â chroeso calon.

c) Ychwanegwch y cynffoneiriau (tagiau) cywir:

- i) Dw i'n edrych yn iawn,?
- ii) Dydy e ddim wedi mynd, ?
- iii) Roedden nhw yn y tŷ,?
- iv) Fyddi di ddim yn y gêm,?
- v) Doedd e ddim yn chwerthin,?
- vi) Fe enillon nhw yn y diwedd,?
- vii) Tom yw dy enw di,?
- viii) Mae ganddi gar,?

TAFODIAITH

Brodor o Geredigion yw Dai Jones. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar nodweddion ei iaith lafar?

TRAFOD

- i) Rydych yn mynd i wneud cais am record i Dai Jones. Penderfynwch i bwy a pham gan sôn rhywbeth am wrthrych y cais a'r rheswm dros y dewis.
- ii) "Mae rhaglenni fel 'Ar eich Cais' ond yn ffordd hawdd o arbed arian i'r cwmnïau darlledu". *Trafodwch.*

YMADRODDION

am yn ail; wythnos fach go lew; y fath fraint.

YSGRIFENNU

Ysgrifennwch gerdyn post at Dai Jones yn gwneud cais (i) uchod.

DYFALU'R FLWYDDYN

[Hywel Gwynfryn yn cofio rhai o ddigwyddiadau blwyddyn arbennig]

GEIRFA

cynteddau arlywydd herio uchafbwyntiau
mynd yn angof procio ymddiswyddo
chwalu

GWRANDO A DEALL

- i) Beth ddigwyddodd ym Mae Caerdydd?
- ii) Pa wleidydd aeth i drafferth?
- iii) Beth wnaeth David Beckham i dynnu sylw?
- iv) Pa fath o siop newydd agorodd yng Nghaerdydd?
- v) Pwy oedd wedi sarhau'r Cymry?
- vi) Pa wleidydd aeth i drafferth?
- vii) Pa grŵp ganodd am Gymru?
- viii) Pa ferch o America oedd yn y newyddion?

IAITH

a) Gan ddilyn y patrwm, cwrtais > anghwrtais, beth yw'r gair cyferbyniol i'r canlynol? Lluniwch frawddeg i ddangos ystyr y gair cyferbyniol.

credadwy > Cristnogol > cyfartal >
cyfreithlon > cyfleus > cyffredin >
cywir > cyson > cyfarwydd >

b) Pa genedl yw'r geiriau hyn – gwrywaidd neu fenywaidd?

priodas; hiraeth; undeb; swyddfa; emyn;
wythnos; nos Lun; coron.

c) Rhoi mewn trefn:

- i) P'un oedd y?
(3 / eitem)
- ii) Hon yw'r
(11 / awr)
- iii) Sbaen oedd y i mi
ymweld â hi.
(5 / gwlad)

- iv) Roedd e'n byw yn y
(18 / canrif)
- v) Dw i'n gofyn iti am yr
.....
(2 / gwaith)
- vi) Roedd y yn rhy hir
o lawer.
(4 / act)

TRAFOD

- i) Ar ôl rhannu'n grwpiau, trafodwch y ffeithiau a glywsoch a cheisio dyfalu'r flwyddyn dan sylw.
- ii) Dyfeisiwch gwis tebyg gan ddewis gwahanol flynyddoedd ac wedyn profi eich gilydd.
- iii) Grwpiau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd i weld pwy all gofio'r nifer fwyaf o ddigwyddiadau a grybwyllwyd gan Hywel Gwynfryn.
- iv) Lluniwch restr o ddigwyddiadau mewn annus mirabilis neu annus horribilis yn eich hanes personol a'ch partner neu weddill y grŵp i geisio dyfalu'r flwyddyn.

YMADRODDION

Wrth ddyfalu mae patrwm MAI / TAW yn bwysig:

Dw i'n meddwl mai / taw...;
Dw i'n siwr/ sicr taw...;
Mae'n bosib mai...;
Dw i'n credu mai X oedd y dyn.

YSGRIFENNU

Blwyddyn i'w chofio yn fy hanes.
"Fyddwn i ddim am ail-fyw'r flwyddyn honno".
'Taswn i'n gallu ail-fyw blwyddyn baswn i'n dewis.....
Blwyddyn fawr yn hanes Cymru / Prydain / y byd.

CDI: TRAC 8 CYMRAEG YN Y GOFOD

[Hanes y Gymraeg yn cael ei siarad yn y gofod am y tro cyntaf]

GEIRFA

iaith y nefoedd gofod amser maith
hanesyddol llong ofod wedi hen arfer hanu
dychwelyd mentro uchelgais cyfweliad

GWRANDO A DEALL

- i) Beth ddigwyddodd am y tro cyntaf erioed yn 1998?
- ii) Ers faint o amser roedd Dafydd Rhys Roberts wedi bod yn paratoi?
- iii) Beth oedd enw'r llong ofod?
- iv) Dyma'r tro cyntaf i long ofod adael y ddaear?
- v) Ble mae Dafydd Rhys Roberts yn byw?
- vi) Beth yw ei gysylltiad â Chymru?
- vii) At beth roedd e'n edrych ymlaen?
- viii) Pwy ddychwelodd i'r gofod yn 1998?
- ix) Pa ddwy record sydd ganddo?
- x) Faint oedd ei oed yn cyflawni'r ail gamp?

IAITH

a) Pa eiriau ac ymadroddion sy'n perthyn i'w gilydd yn y ddwy golofn yng nghyd-destun yr eitem hon?

hanesyddol	ceisio
iaith y nefoedd	mynd yn ôl
y gofod	yn digwydd am y tro cyntaf
mentro	yn dod o
dychwelyd	awydd i gyflawni rhywbeth
hanu	Cymraeg
uchelgais	y tu hwnt i'r byd

b) Rhwch 2 (dau / dwy) o flaen y geiriau hyn;

iaith; llong; tro; pennill; pennod;
awr; gwlad; gofodwr.

- c) Cywirwch y brawddegau hyn:
Siarada o'r ofod, Ddafydd!
Roedd y long ofod yn lawn.
Roedd gweld y byd o'r long yn ryfedd.
Fe'i alwyd yn Rhys.
Roedd e'n siarad milltiroedd uwchben y ddaear.
Roedden nhw'n gallu gweld sawl wlad.

TAFODIAITH

Yn eich barn chi, faint o Gymraeg mae Dafydd Rhys Roberts yn gallu ei siarad mewn gwirionedd? Ar ôl gwrando'n ofalus ar yr hyn mae'n ei ddweud, nodwch y rhesymau dros eich penderfyniad.

TRAFOD

- i) Tasech chi wedi cael y cyfle i siarad Cymraeg yn y gofod am y tro cyntaf, beth fasech chi wedi ei ddweud?
- ii) Ydy teithio i'r gofod yn wastraff arian? *Trafodwch.*
- iii) Ym mha sefyllfaoedd unigryw eraill y basai'n werth siarad Cymraeg? Rhestrwch eich awgrymiadau.

YMADRODDION

ers amser maith; wedi hen arfer; iaith y nefoedd.

YSGRIFENNU

Casglwch wybodaeth am John Glenn a Lluniwch bortread ohono.

Lluniwch bortread o unrhyw anturiaethwr(-wraig) rydych yn ei (h)edmygu.

ADRODDIAD TYWYDD A FFYRDD

[Enghraifft o ragolygon y twydd ac adroddiad ffyrdd]

GEIRFA

glaw mân cawod(-ydd) mwyn selsiws
tymheredd gostwng diflannu nosi
ffordd (ffyrdd) atgyweiriadau rhwystrau
cyffordd lôn

GWRANDO A DEALL

- i) Sut mae'r tywydd, yn ôl y bwletin?
- ii) Sut roedd y tywydd cyn heddiw?
- iii) Pa fath o law ddisgwylir yn ystod y prynhawn?
- iv) Fydd y tywydd yn oer iawn?
- v) Ble bydd llawer o law dros nos?
- vi) Pa fath o dywydd ddisgwylir yfory?
- vii) Sut mae'r tywydd yn debygol o fod erbyn nos Wener?
- viii) Beth ddigwyddodd ar ffordd A4107?
- ix) Pam mae'r ffyrdd ar gau yng nghanol tref Aberhonddu?
- x) Pam bydd un lôn ar gau ar ffordd yn Wrecsam?

IAITH

- a) Beth yw ffurf luosog yr enwau a ganlyn?

ffordd lôn traffordd croesfan lori

cwmwl gwynt storm awel cawod

taran

- b) Os mai south-west (S-W) yw 'de-orllewin', beth yw

S-E; N; N-W; E; S-W; W; N-E; S?

- c) Lluniwch frawddegau am y tywydd yn cynnwys y canlynol:

Disgwylir; cafwyd; lledu; ysbeidiol;
trymion; y tymheredd; gostwng; cyfnewidiol.

ch) Oes angen defnyddio'r fannod (y, yr, 'r) yn y brawddegau hyn ai peidio? Ydy'r defnydd ohoni yn gywir? Cywirwch lle bo angen:

Hwylodd y llong i'r lwerddon.

Mae'n well gen i haf.

Ydy Parch Tom Jones yn byw yma?

Daliodd y gath y lygoden.

Dw i'n hoffi cerdded ar lan y Tywi.

Ydych chi'n nabod y dau ddyn?

Chi biau rhain?

Roedd e'n eistedd yn y haul.

TRAFOD

- i) Disgrifiwch y tywydd yn eich ardal chi
 - a) heddiw
 - b) yn ystod yr wythnos
 - c) yfory.
- ii) Disgrifiwch unrhyw broblemau trafnidiaeth sy'n blino trigolion eich ardal chi.
- iii) Soniwch am eich atgofion am y tywydd yng nghyfnod eich plentyndod.

YMADRODDION

glaw mân; arllwys y glaw; tywallt y glaw; hindda neu ddrycin

YSGRIFENNU

Cadwch record ddyddiol o'r tywydd yn ystod yr wythnos.

Ysgrifennwch lythyr at eich cyngor lleol yn cwyno am broblem ar y ffyrdd yn eich ardal.

Gyrru.

Tywydd Cymru ddoe a heddiw.

CDI: TRAC 10
DARN O BREGETH

[Dyma enghraifft o arddull hamddenol pregethwr yn trin ei destun wrth ei bwysau. Mae'r darn yn cynnwys nifer o dermau crefyddol a diwinyddol]

GEIRFA

tyrfa mentyll palmwydd bendigedig
goruchaf marchogaeth march concwerwr
milwrol cyflawni'r broffwydoliaeth brenhiniaeth
gwyrthiau dwyfol dynol trugaredd
maddeuant tosturiol torcalon
balm o ryfedd rin cofnod nis mynnech
anghyfanedd cadernid gwendid cyfnewidwyr
halogi sanctaidd pallu

GWRANDO A DEALL

- i) At ba ddinas mae'r pregethwr yn cyfeirio?
- ii) Beth fydd thema'r bregeth?
- iii) Sut roedd Iesu'n wahanol i goncwerwr milwrol?
- iv) Enwch ddwy o'r ffenestri mae'r pregethwr yn eu nodi?
- v) Beth welwn ni yn nagrau Iesu, yn ôl y pregethwr?
- vi) Yn ôl y pregethwr, ydy Iesu'n wylo am ei fod yn wan?
- vii) Beth wnaeth Iesu yn y Deml?
- viii) Pryd mae dagrau'n llifo, ym marn y pregethwr?

IAITH

a) Sicrhewch eich bod yn gwybod ystyr y geiriau hyn. Wedyn, gwrandewch ar y darn a phan glywch chi'r geiriau, ticiwch nhw.

goruchaf; brenhiniaeth; dwyfol; trugaredd;
maddeuant; tosturiol; balm o ryfedd rin;
anghyfanedd; halogi; sanctaidd.

b) Datgelwch y gair:

YFDWLO LONDY FYRAT
CERDINAD MOLIRWL

c) Pa eiriau o blith y rhain fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio arddull y pregethwr?

cyffrous; hamddenol; ysgafn; dwys;
o ddifrif; trist; pwylllog; brwd.

TAFODIAITH

Ym mha ffordd mae iaith y pregethwr yn wahanol i iaith bob dydd? Beth yw prif nodweddion y cywair (register) hwn? Pa gyweiriau eraill gallwch chi feddwl amdanynt?

TRAFOD

- i) Adroddwch unrhyw stori o'r Beibl rydych yn ei gwybod i'ch partner.
- ii) Beth yw'r rhesymau bod crefydd ar drai? *Trafodwch.*
- iii) Mae llawer o eglwysi a chapeli gwag yn ein cymunedau. Beth ddylen ni ei wneud â nhw? Lluniwch restr o awgrymiadau.
- iv) Ydy hi'n dderbyniol i ddyn wylo? *Trafodwch.*
- v) *Y Cristion Pedair Olwyn*
Mewn pram aeth i'w fedyddio.
Pan briododd cafodd limo
Ac y tro nesa' gwelwn Dai
Bydd eisiau hers i'w gario.
Ydy hwn yn ddarlun cywir o'r Cymro cyffredin heddiw yn eich barn chi?

YMADRODDION

Mae'r pregethwr yn sôn am "y galon a fu ar dorri". Edrychwch ar yr ymadroddion hyn sy'n ymwneud ag amser:

Mae'r trê'n ar fynd.
Mae'r trê'n ar fin mynd.
Mae'r trê'n newydd fynd.
Mae'r trê'n wedi hen fynd.

CDI: TRAC 10

DARN O BREGETH

YSGRIFENNU

'Y tro diwethaf es i i gapel / eglwys'.

'Eglwysi / capeli ein hardal ni'.

Priodi – capel / eglwys / swyddfa gofrestru /
gwesty / unrhyw le arall?

TWM ELIAS YN SIARAD AM BRYFED COP

[Yma mae'r Dr Twm Elias yn sôn am rai o'r traddodiadau a chwedlau sy'n gysylltiedig â phryfed cop / corynnod]

rhagddo i	rhagddon ni
rhagddot	rhagddoch chi
rhagddo fo/fe	rhagddyn nhw
rhagddi hi	

GEIRFA

corrwn (corynnod) rhigwm dropyn buddiol
 erchyll stofi gwe cysylltiadau gwerthfawrogi
 achub cuddio rhag annibyniaeth ffoi
 crafangau llochesu ysbrydoliaeth

GWRANDO A DEALL

- i) Cyfeithiad o ba rigwm Saesneg yw'r un ar ddechau'r sgwrs?
- ii) Pam mae Twm Elias yn galw'r pry' cop yn "wir grefftwr"?
- iii) Tua faint o gysylltiadau sydd mewn gwe corrwn?
- iv) Faint o amser mae corrwn yn ei gymryd i stofi gwe?
- v) Sut mae rhai pobl yn ystyried pryfed cop?
- vi) Bywydau pa bobl enwog mae corynnod wedi eu hachub?
- vii) Ble roedd Mair a Joseff a'r baban Iesu yn cuddio?
- viii) Pam nad aeth y milwyr i mewn i'r ogof i chwilio amdanynt?
- ix) Pryd roedd Robert the Bruce yn brwydro yn erbyn y Saeson?
- x) Sawl cynnig gafodd y corrwn cyn llwyddo?

IAITH

a) Pa eiriau cyfystyr â'r canlynol glywsoch chi yn y darn?

cerdd; ofnadwy; adeiladu; cysgodi; symbyliad.

b) Mae Twm Elias yn dweud bod Mair, Joseff a'r Iesu wedi "cuddio rhag" y milwyr.

Dyma ragor o ferfenwau a ddilynir gan 'rhag':
 amddiffyn rhag; atal rhag; cadw rhag; dianc rhag;
 ffoi rhag; cysgodi rhag; cuddio rhag;
 achub rhag.

Lluniwch frawddegau yn cynnwys y berfenwau hyn gan amrywio person yr arddodiaid.

c) Ar wahân i'r pry' cop / corrwn, sawl pryfetyn ydych chi'n gallu ei enwi yn Gymraeg? Gwnewch restr.

TAFODIAITH

Dyma rai o'r ffurfiau a ddefnyddiodd Twm Elias: yfad; efo; gorffan; pryfed cop; bywyda; ogo'. Beth yw eich sylwadau?

TRAFOD

- i) Mae Twm yn gwneud fel y gwna llawer o Gymry, a Saeson o ran hynny, sef dyfynnu hanner dihareb! Mae e'n dweud, "Dyfal donc amdani...." Y ddihareb yn llawn yw "Dyfal donc a dyr y garreg". Beth yw diwedd y diarhebion cyffredin a ganlyn?

Cyntaf i'r felin.....

A fo ben

I'r pant

Gorau Cymro

Gwyn y gwêl.....

Angel pen ffordd

- ii) Ailadroddwch naill ai stori'r corrwn yn achub Mair a Joseff neu stori Robert the Bruce yn eich geiriau eich hun.

- iii) Gan weithio mewn parau, soniwch wrth eich gilydd naill ai am eich hoff neu gas anifail, aderyn neu bryfetyn.

YMADRODDION

Mewn ebychiad, mae'r gair 'druan' yn cael ei dreiglo beth bynnag yw rhif a chenedl y person y cyfeirir ato:

CDI: TRAC II

TWM ELIAS YN SIARAD AM BRYFED COP

Unigol gwrywaidd: Druan bach!
Unigol benywaidd: Druan fach!
Lluosog: Druan â nhw!

Mae "Druan bach ohoni" yn amrywiad lleol diddorol mewn ardaloedd yn y gogledd lle na threiglir y gair 'bach' cf. Eglwys-fach (Ceredigion) ac Eglwys-bach (Clwyd).

YSGRIFENNU

Unrhyw stori am anifail, aderyn neu bryfetyr.
Pethau dw i'n eu hofni.
'Dyfal donc.....!'

CD1: TRAC 12 HANES CATH DEW

[*Hanes Guto Siôn, cath o Lanberis, sydd wedi tyfu'n rhy dew*]

GEIRFA

anifeiliaid anwes	cyw iâr	medru symud
sbriws	prydau bwyd	llusgo

GWRANDO A DEALL

- i) Beth yw enw cath Mair Ffowcs?
- ii) Beth sy'n bod ar y gath?
- iii) Pa enwau sydd gan y pentrefwyr arno?
- iv) Pryd mae e'n bwyta cyw iâr?
- v) Beth arall mae e'n ei fwyta yn ystod y dydd?
- vi) Sut mae e'n symud?
- vii) Ble mae'r gath yn hoffi mynd?
- viii) Sut rydyn ni'n gwybod ei fod yn fawr?

IAITH

a) Beth yw'r enw gwrywaidd / benywaidd cyfatebol?

cath	cwrcyn / gwrcath
.....	ci
llewes
caseg
.....	mochyn
iâr
.....	clacwydd
buwch

b) Dywedir am y gath ei bod 'yn bwyta fel ceffyl benthyg'. Pa rai, yn eich barn chi, sy'n cyfateb?

Yn yfed fel	paun
Yn rhegi fel	mochyn
Yn siarad fel	lladd nadroedd
Yn rhochian fel	pwll y môr
Yn gweithio fel	ych

c) Mae ystyr rhai geiriau yn amrywio yn y de a'r gogledd. Enghraifft o hyn yw pan yw Jonsi yn dweud "Brwnt, 'te?"

Ystyr 'brwnt' yma yw 'creulon / cas'. Yn y de, yr ystyr yw 'aflan'. Ceisiwch weld beth yw gwahanol ystyron y geiriau hyn:

allt; diniwed; llofft; blin.

TAFODIAITH

Mae'r ddau siaradwr o Wynedd. Faint o ôl tafodiaith sydd ar eu sgwrs o ran: GEIRFA; TERFYNIADAU GEIRIAU; YMADRODDION; TONYDDIAETH?

Ystyriwch y sgwrs o dan y penawdau hyn.

TRAFOD

- i) Anifeiliaid anwes – mantais neu rwystr? *Trafodwch.*
- ii) Cymharwch gathod a chŵn fel anifeiliaid anwes.

YMADRODDION

bwyta fel ceffyl benthyg; yn ôl y sôn.

Pan nad yw Mair Ffowcs yn gallu cofio gair, mae hi'n defnyddio 'pethma' (thingamy). Y gair yn y de yw 'bechingalw'. Maen nhw hefyd yn cyfleu 'whatsit' a 'whatyocall'!

YSGRIFENNU

Portread o anifail anwes.

Anifeiliaid mewn chwedlau, ffilmiau neu nofelau. Mae anifeiliaid anwes yn cael gormod o sylw. *Trafodwch.*

CDI: TRAC 13
CÂN WERIN

[*Meredydd Evans yn canu cân ychen draddodiadol o Forgannwg*]

GEIRFA

marsiandiaeth porthmon (porthmyn) cwyd
 tiwnio llwyn brefu rhodio

GWRANDO A DEALL

Mae deall iaith caneuon yn gallu bod yn anodd. Fodd bynnag, y rhai hawsaf eu deall yw caneuon gwerin digyfeiliant. Cyn edrych ar y geiriau ysgrifenedig, gwrandewch ar y gân a cheisiwch ateb y cwestiynau yma:

- i) Sut mae'r tywydd ar ddechrau'r gân?
- ii) Beth mae'r bardd yn gallu ei glywed?
- iii) Beth mae rhaid iddo ei wneud am un o'r gloch?
- iv) Pryd mae'r da am gael eu godro?
- v) Pa sŵn mae'r da yn ei wneud?
- vi) Pa dymor yw hi yn y pennill olaf?
- vii) Beth mae'r bachgen am ei wneud?

IAITH

a) Yn y gân mae sôn am y da yn brefu a'r gwcw'n tiwnio. Pa sŵn mae'r anifeiliaid hyn yn ei wneud? Pa 3 sy'n brefu?

- | | |
|----------|----------|
| tarw | gwichian |
| dafad | mewian |
| ceffyl | brefu |
| mochyn | cyfarth |
| buwch | clwcian |
| llygoden | brefu |
| ci | rhuo |
| cath | brefu |
| gafr | gveryru |
| iâr | rhochian |

b) Sylwch ar y llinell, 'Fe ddaeth y da i'w godro gan frefu dros y lle'.

Rydyn ni'n defnyddio 'gan' i gyfeirio at rywbeth sy'n cyd-ddigwydd â'r ferf yn y prif gymal.

Cysylltwch y rhain:

- | | |
|-----------------------------------|--|
| Cerddodd Dewi i'r ysgol. | Canodd yn uchel. |
| Neidiodd y plant i mewn i'r llyn. | Gweiddon nhw'n gyffrous. |
| Aeth Mari i'r gwely. | Roedd hi'n crio yn ei thymor. |
| Yfodd y dyn ei de. | Roedd e'n darllen y papur. |
| Mae Elwyn yn cerdded i'r ysgol. | Mae e'n chwibanu. |
| Aethon nhw heibio. | Roedden nhw'n gweiddi ar y plant eraill. |

c) Mae'r ymadroddion canlynol i gyd yn gywir: Dysgwch nhw! Ond beth sy'n rhyfedd amdany'n nhw?

noson braf; nos da; wythnos diwethaf; am byth.

ch) Mae rhai amrywiadau rhwng de a gogledd yn yr eirfa. Pa eiriau sy'n cyfateb yn y ddwy golofn?

- | | |
|-------|---------|
| De | Gogledd |
| cadno | mai |
| cer | dwad |
| dere | isio |
| hogyn | llwynog |
| gyda | tyrd |
| mo'yn | dos |
| dod | efo |
| taw | bachgen |

CDI: TRAC 13

CÂN WERIN

TAFODIAITH

Pa nodweddion sy'n awgrymu bod y gân yn perthyn i Forgannwg? Ar ôl gwneud yr ymarfer uchod, oes un gair rydych yn synnu ei glywed yn y fersiwn hwn o gofio mai cân o dde Cymru yw hon?

*O! Mari, Mari cwyd, mae heddiw'n fore mwyn,
Mae'r adar bach yn tiwnio a'r gwcw yn y llwyn.
Hw mla'n! Hw mla'n! Hw!*

*O! Mari lân dy foch, mae nawr yn un o'r gloch,
Mae'n bryd i mi gael cinio ac amser bwydo'r moch.
Hw mla'n! Hw mla'n! Hw!*

*O! Mari tyrd sha thre, mae wedi amser te,
Fe ddaeth y da i'w godro gan frefu dros y lle.
Hw mla'n! Hw mla'n! Hw!*

*O! Mari, daeth yr haf, mae heno'n noson braf,
Addoi di ma's i rodio oddi yma i Ffynnon Taf?
Hw mla'n! Hw mla'n! Hw!*

YMADRODDION

mae'n bryd i mi; mae'n hen bryd iddo fo; mae'n well i ni.

YSGRIFENNU

Fy hoff gân.

Cymru – Gwlad y gân? *Trafodwch.*

HANES LLYWELYN EIN LLYW OLAF

[Rhan o feirniadaeth y Dr Geraint Bowen ar gystadleuaeth y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r Cylch, 1982]

GEIRFA

dirprwy archdderwydd haneswyr ymosod
gosgordd bwystflaidd gwaywffon galargerdd
cymen cyngori ymwarded dychrynfeydd
sofraniaeth nawdd y gyfundrefn farddol
noddwr cofleidio cyflafan dilys ymaddasu
diwydrwydd gwiw dinoethi gwâr

GWRANDO A DEALL

- i) Beth oedd testun yr awdl?
- ii) Ble mae Cilmeri?
- iii) Beth ddigwyddodd yno?
- iv) Ble claddwyd corff Llywelyn?
- v) Beth ddigwyddodd i'w ben?
- vi) Sut teimlai'r bardd, Gruffudd ab Yr Ynad Coch pan fu farw Llywelyn?
- vii) Beth gollodd Cymru pan fu farw Llywelyn?
- viii) Oedd Edward I wedi lladd yr holl feirdd?
- ix) Pa fardd Saesneg oedd wedi ysgrifennu am y digwyddiad?
- x) Pam roedd gosod 'Cilmeri' yn destun yn 1982 mor addas?

IAITH

a) Cysylltwch y gair ar y chwith â'r un cyfatebol ar y dde:

cymen	treisgar
dilys	anwesu
cyflafan	ofnau
cofleidio	gwir
ymwarded	trefnus
bwystflaidd	gwarchodlu
gwiw	brwydr
dychrynfeydd	addas
gosgordd	achub

b) Diffiniwch ystyr y geiriau hyn yn Gymraeg: cyflafan; gosgordd; noddwr; dinoethi; dilys.

c) P'un o'r diffiniadau sy'n briodol i'r geiriau hyn?

dirprwy; gwaywffon; cyflafan; noddwr; sofraniaeth; diwydrwydd

- i) Hawl gwlad i reoli ei hun.
- ii) Arf rhyfel a deflid.
- iii) Gweithgarwch cyson.
- iv) Brwydr waedlyd.
- v) Person sy'n cymryd lle un arall.
- vi) Rhywun sy'n helpu person arall drwy roi arian iddo.

TAFODIAITH

Mae'r Dr Geraint Bowen yn traddodi beirniadaeth ffurfiol o lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol. Wrth wrando arno, nodwch rai o nodweddion ei iaith sy'n adlewyrchu'r sefyllfa arbennig honno. Pa air o'r parau hyn fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio arddull y siaradwr?

hamddenol	brwd
ymosodol	tawel
heriol	difater
diduedd	cenhadol

TRAFOD

- i) Pwy yw eich hoff gymeriad hanesyddol? Esboniwch eich dewis a nodi rhai o'r nodweddion sy'n apelio atoch yn ei gymeriad.
- ii) Ydy hi'n bwysig bod ein hysgolion yn dysgu hanes Cymru? Trafodwch mewn grwpiau a chyflwynwch eich casgliadau i weddill y dosbarth.
- iii) Gwnewch restr o'r ffeithiau rydych chi wedi eu dysgu am Llywelyn Ein Llyw Olaf wrth wrando ar Geraint Bowen.

YMADRODDION

y fath gyflafan; er gwaethaf; gan hynny / canys; fel y mae'n wiw i genedl wâr.

CDI: TRAC 14

HANES LLYWELYN EIN LLYW OLAF

YSGRIFENNU

Ysgrifennwch am unrhyw gymeriad yn hanes
Cymru neu yn hanes eich ardal.

“Dwli yw hanes.” *Trafodwch.*

PONTYPRIDD AC UGANDA

[Alun Thomas yn cyfweled ag aelodau ‘Pont’ – y grŵp sydd wrthi’n datblygu partneriaeth rhwng Pontypridd a Mbale, tref yn Uganda]

GEIRFA

cysylltiad partneriaeth unigryw cyffwrdd â
 tlodi argyhoeddiad Cristionogol adnoddau
 effeithio swyddogion blaenoriaid efeillio
 gweledigaeth meddygaeth cyfrifiaduron
 rhwydweithio cyffrous peirianwyr
 gwleidyddion cefnogi asiantaethau
 hyfforddi

GWRANDO A DEALL

- i) Beth sydd wedi symbylu sefydlu ‘Pont’?
- ii) Beth mae'r wraig o Ferthyr Tudful am ei wneud?
- iii) Beth oedd ymateb y person o'r Cymoedd i'r ymwelydd o Uganda?
- iv) Pa fath o gysylltiad sydd rhwng eglwysi'r ddwy dref?
- v) Syniad pwy oedd sefydlu ‘Pont’?
- vi) Sut mae ardal Pontypridd yn gallu helpu pobl Mbale?
- vii) Beth welodd rhai o bobl Uganda am y tro cyntaf?
- viii) Pwy ar wahân i'r eglwysi sy'n cydweithio yn y ddwy wlad?

IAITH

a) Gwrandewch ar y darn a phenderfynwch pa eiriau sy'n perthyn yn agos i'r geiriau hyn. [Mae'r geiriau yn yr un drefn ag yn y recordiad]

- | | |
|---------|----------|
| partner | tlawd |
| Crist | swydd |
| gweld | meddyg |
| cyfrif | peiriant |
| gwlad | |

b) Cysylltwch y gair / ymadrodd yn y golofn ar y chwith â'r diffiniad ohono ar y dde.

- | | |
|--------------|------------------------------------|
| bwrw golwg | helpu; cynorthwyo |
| partneriaeth | cred sicr |
| argyhoeddiad | edrych dros |
| cysylltiad | gwyddor gwella
iechyd |
| awydd | bod heb arian |
| cefnogi | eisiau gwneud neu
gael rhywbeth |
| tlodi | cydweithio |
| meddygaeth | y berthynas rhwng
dau beth |

c) Gwrandewch ar y recordiad i ddarganfod ffurf luosog yr enwau hyn:

swyddog; blaenor; cyfrifiadur; peiriannydd; gwleidydd; asiantaeth.

TAFODIAITH

Yn eich barn chi, ydy Dewi Arwel Hughes yn frodor o Bontypridd? Ydy Alun Thomas o dde-ddwyrain Cymru? Nodwch eich rhesymau.

TRAFOD

- i) Ar ôl gwrando ar yr eitem, trafodwch mewn grwpiau bach sut, yn eich barn chi, y gallai Pontypridd helpu Mbale.
- ii) Fasai'n well tasai Pontypridd yn efeillio â thref yn Ewrop? *Trafodwch.*
- iii) Ai busnes eglwysi yn hytrach na llywodraethau yw'r gwaith a ddisgrifir?

CDI: TRAC 15

PONTYPRIDD AC UGANDA

YMADRODDION

bwrw golwg ar; trwy gyfrwng; y fath dlodi;
i ryw raddau; fan hyn.

YSGRIFENNU

Ysgifennwch

- a) lythyr at rywun yn Mbale yn disgrifio eich ardal chi.
- b) gylchlythyr yn gofyn am gyfraniad i elusen sy'n helpu pobl dlawd yn Affrica.

TRAFOD Y NEWID YN YR HINSAWDD

[Tri o bobl yn trafod beth sydd gan y papurau i'w ddweud am y newid yn yr hinsawdd]

GEIRFA

cyn-aelod cyfieithwraig adolygwraig
colofnydd hinsawdd thema
papurau trymion terfysgaeth duwies
Y Cenhedloedd Unedig tanbrizio effaith
anwybyddu effaith tŷ gwydr cynhesrwydd
dilys tymheredd ŵyn bywoliaeth ystadegau
newidiadau hinsoddol daeargryn gwleidyddol
proffwydo dwyn perswâd ar cydbwysedd

GWRANDO A DEALL

- i) Yn ôl Simon Jenkins, beth yw'r pwnc pwysicaf yn y byd?
- ii) Sut roedd y ferch yn yr Independent wedi ei gwisgo?
- iii) Yn ôl y papur, beth sy'n mynd i ddigwydd yn 2030?
- iv) Effaith beth mae pobl yn tueddu i'w danbrizio?
- v) Pa ddigwyddiad anarferol sydd yn Swydd Warwick?
- vi) Beth yw consensws barn gwyddonwyr am yr hinsawdd?
- vii) Pam nad yw Rod Richards y barod i wrando ar economegwyr?
- viii) Pa rybudd a gawn ynglŷn ag ailadrodd ystadegau anghywir?

IAITH

a) Pa barau sy'n perthyn?

proffwydo	argyhoeddi
ystadegau	gwres
dychryn	gweld i'r dyfodol
dwyn perswâd ar	braw
cynhesrwydd	tywydd
sir	ffigrau
hinsawdd	swydd

b) Pa ddau air sydd wedi eu cyfuno i wneud y geiriau cyfansawdd hyn?

darlledwraig	daeargryn
tanbrizio	adolygwraig
cyfieithwraig	

c) Mae gan rai enwau ffurf luosog afreolaidd. Beth yw lluosog y canlynol?

bisgïen; chwaer; brawd; gŵr; llaw; sipsi; rhiant; ci.

ch) Esboniwch y gwahaniaeth rhwng y parau hyn:

hinsawdd / tywydd; papurau trymion / papurau bro; terfysgaeth / rhyfel; anwybyddu / casáu; bywyd / bywoliaeth

TAFODIAITH

Faint o ôl tafodiaith sydd ar iaith lafar y tri siaradwr? Ddylid caniatáu defnyddio tafodiaith mewn rhaglenni o'r math hwn?

TRAFOD

- i) Oes arwyddion yn eich ardal chi bod yr hinsawdd yn newid. *Trafodwch*.
- ii) Yr hinsawdd yn newid? Beth ddylem ni ei wneud?
- iii) Meddylwch am ddadleuon o blaid ac yn erbyn melinau gwynt a'u trafod naill ai mewn parau neu grwpiau.

YSGRIFENNU

Byw heb gar.
Codi tai ar gyfer 2050.
Effaith tŷ gwydr: Myth ynteu realiti?

DAL SADDAM HUSSEIN

[Ymateb pobl i'r newyddion bod Saddam Hussein wedi ei ddal]

GEIRFA

cyhoeddiad gweinyddwr hyderus ffoi
cuddio croesholi cydweithio dathlu
Cwrdaid erlidigaeth darostyngedig
gorfoledd penbleth cynghreiriaid diffuant
anos cyfundrefn arbenigedd barnwyr
amgylchiadau cefnogaeth achos safon
cyfiawnder rhyngwladol anhysbys honedig
cyfrinachau annhebygol uniongyrchol offer
cyfathrebu cyntefig delweddau trawiadol
crwydryn ysgogi chwyrn cyrch milwrol
tyddyn cell

GWRANDO A DEALL

- i) Pwy wnaeth y cyhoeddiad?
- ii) Ble ffeindion nhw Saddam?
- iii) I ba raddau roedd Saddam yn cydweithredu?
- iv) Pwy oedd yn dathlu yng Nghaerdydd?
- v) Sut roedd Saddam yn edrych?
- vi) Beth oedd ofnau Robert Griffiths 'tasai achos yn cael ei gynnal?
- vii) Beth oedd mudiad Amnest Cydwladol yn awyddus i'w sicrhau?
- viii) Ble roedd Saddam Hussein yn cael ei ddal?
- ix) Faint o offer cyfathrebu oedd ganddo yn y ffermdy?
- x) Beth roedd e'n gallu ei weld o'r ffermdy?

IAITH

Llenwch y bylchau:

Enw	Berfenw
crwydryn	crwydro
gweinyddwr
.....	cyhoeddi
barnwr
.....	dathlu
cefnogaeth
.....	arbenigo
erlidigaeth

b) P'un o'r ffurfiau hyn sy'n gywir?

cynghreiriaid	cyngreiriaid
sonir	sonnir
amgaeedig	amgauedig
ar wahan	ar wahân
annhebygol	anhebygol
ysgrifanaf	ysgrifennaf

Yn y golofn ar y chwith mae 10 gair glywsoch chi yn y darn. Pa air ar y dde sydd agosaf ei ystyr i bob un ohonynt?

sicr	ymosodiad
ffoi	cyfarpar
croesholi	siŵr
diffuant	cyfyng-gyngor
anhysbys	annog
offer	dianc
cyntefig	didwyll
ysgogi	cwestiynu
cyrch	hen
penbleth	anadnabyddus

TRAFOD

- i) Ddylai Saddam Hussein fod wedi cael ei ddienyddio?
- ii) "Bydd dienyddio Saddam ond ei wneud yn ferthyr". Trafodwch.
- iii) Ydy hi'n iawn i wlad gael gwared ar unben mewn gwlad annibynnol arall?
- iv) Ddylai Prydain fod wedi cefnogi polisi tramor America yn Irac?

YMADRODDION

nid nepell o; cyfraith a threfn;
ar frig yr agenda; achub ar y cyfle

YSGRIFENNU

Portread o unben – Stalin, Hitler, Cadeirydd Mao, Castro, Saddam Hussein.

O dan ba amgylchiadau mae modd cyfiawnhau mynd i ryfel?

BARDD YN TRAFOD EI BYWYD

[Y bardd, Mari George, yn trafod ei bywyd a'i hysgrifennu]

GEIRFA

cyhoeddi	troi â'i ben i lawr	barddoni
annog	amgylchiadau	adlewyrchu
meddwi	anaeddfed	addas
safbwynt	dinesig	gawedd
dyfnder	cyfleu	magwraeth

GWRANDO A DEALL

- i) Ers pryd mae Mari George yn barddoni?
- ii) Pam roedd hi'n ystyried ei hun yn lwcus yn y brifysgol?
- iii) Beth oedd wedi ei sbarduno i ddal ati i farddoni?
- iv) Am beth mae pobl yn tueddu i ysgrifennu?
- v) Sut mae hi'n teimlo nawr wrth ddarllen ei cherddi cynnar?
- vi) Ble cafodd Mari George ei magu?
- vii) Sut roedd hi'n wahanol i'r bobl o'i chwmpas?
- viii) Beth sy'n "unigryw" yn ei gwaith?
- ix) Ym mha fodd mae ei byd wedi newid yn sydyn?

IAITH

a) Cwblhewch y ddwy golofn isod trwy ychwanegu enw neu ansoddair yn ôl y galw.

Enw	Ansoddair
dinas
.....	trefol
gwlad
.....	plwyfol
byd
.....	cyfandirol
rhanbarth

b) Gwir neu Anwir

- i) 'Noson Tân Gwyllt' yw teitl cyfrol newydd Mari George.
- ii) Dechreuodd hi ysgrifennu yn ei harddegau.

- iii) Roedd ennill mewn eisteddfodau yn ei symbylu.
- iv) Doedd hi ddim yn yfed pan oedd yn y coleg.
- v) Cafodd ei magu mewn stryd Gymraeg ei hiaith.
- vi) Mae Mari George yn briod ers dros flwyddyn.
- vii) Mae hi wedi ysgrifennu llawer yn ddiweddar.
- viii) Mae magu plentyn wedi newid ei hagwedd at fywyd.

c) Defnyddiwch y geiriau a ganlyn i gwblhau'r brawddegau:

bardd; awduron; dramodydd; beirniad; hanesydd; nofelydd; cofiannydd; newyddiadurwr.

- i) Edward Gibbon (1737-94) oedd yr a sgrifennodd 'The Decline and Fall of the Roman Empire'.
- ii) Roedd Saunders Lewis ac Islwyn Ffowc Elis yn tra gwahanol.
- iii) oedd Charles Dickens.
- iv) Dyma'r gerdd orau yn y gystadleuaeth, yn ôl y
- v) James Boswell oedd Dr Johnson.
- vi) a ddeuai o Stratford-upon-Avon oedd William Shakespeare.
- vii) Roedd Tom yn a sgrifennai'n gyson i'r Times a'r Guardian.
- viii) Mae Edward Lear yn gallu bod yn doniol iawn weithiau.

BARDD YN TRAFOD EI BYWYD

TAFODIAITH

“Iaith niwtral ddeheuol ei naws”. Ydy hyn yn ddisgrifiad teg o iaith y siaradwr yn eich barn chi?

TRAFOD

- i) Beth rydych chi'n hoffi ei ddarllen?
- ii) Tasai raid ichi ddewis un llyfr / awdur, beth / pwy fyddai? Pam?
- iii) Pa fath o lyfr hoffech chi ei sgrifennu?

YMADRODDION

erbyn hyn; trwy gyfrwng; lot fawr o;
troi â'i ben i lawr; eithriadol o dda; tueddu i.

YSGRIFENNU

Pa ddigwyddiad yn eich bywyd sydd wedi newid eich byd fwyaf?

Pan oeddwn yn ifanc....

Yr hen a wŷyr; yr ifanc a dybia. Cytuno?

CDI: TRAC 19
TRAFOD PROBLEM

[Cafodd Wyn a Megan Roberts eu siomi pan aethon nhw ar eu gwyliau i Weymouth. Mae Wyn yn disgrifio beth yn union a ddigwyddodd ac wedyn mae cyfreithiwr y rhaglen, 'Chwarae Teg' yn rhoi ei farn. Yn olaf, clywn ymateb y cwmni gwyliau]

NODYN I'R TIWTOR

Mae'r drafodaeth mewn tair rhan: 1. Natur y broblem 2. Ymateb cyfreithiwr 3. Ymateb y cwmni. Awgrymir eich bod yn trafod y pwnc fesul rhan gan stopio'r recordiad ar ôl pob cyfraniad.

GEIRFA

Rhan 1: Cyfraniad Wyn Roberts

cysylltu â dan draed claeareg esgusion
pedwar diemwnt cadair fwrdd
cynrychiolydd cyd-fynd â cwmni coetys
di-flas diffyg dŵr Cyngor Twristiaeth Lloegr
bychan tridiau pencadlys

Rhan 2: Ymateb y cyfreithiwr

cyfanswm canllawiau
bodoli camarwain
iawndal cyd-destun
yn benodol pennu

Rhan 3: Ymateb y cwmni

edifar adborth cadarnhaol
ewyllys da ysgogi

GWRANDO A DEALL

- i) Ble aeth Mr a Mrs Roberts ar eu gwyliau?
- ii) Sut aethon nhw yno?
- iii) Nodwch 3 pheth oedd yn bod ar yr ystafell.
- iv) Sut roedd y bwyd?
- v) Beth aeth o'i le ar y dŵr?
- vi) Oedd gan y cwmni gynrychiolydd yn y gwesty?

- vii) At bwy aethon nhw i gwyno?
- viii) Beth wnaeth Mr Roberts yn union ar ôl mynd adref?

IAITH

a) Cysylltwch y gair ar yr ochr chwith ag un ar yr ochr dde:

diffyg	prif swyddfa
pencadlys	bai
claeareg	cytuno â
cysylltu â	llugoer
cyd-fynd â	siarad â

b) Cwblhewch y brawddegau hyn trwy ddefnyddio'r geiriau a ganlyn:

cyfanswm; canllawiau; camarwain; pennu; iawndal; cyd-destun.

- i) Cyn llenwi'r ffurflen, darllenwch y ar y cefn.
- ii) Er y byddwn yn priodi eleni, dyn ni ddim wedi dyddiad.
- iii) Gawson nhw ar ôl y ddamwain.
- iv) Rych chi'n fy nyfynnu allan o
- v) Prynais i chwe eitem. Faint yw'r?
- vi) Weithiau mae Tom yn ein..... trwy beidio â datgelu popeth.

TRAFOD PROBLEM

c) Dyma rai amrywiadau yn iaith de a gogledd Cymru. Pa rai sy'n cyfateb?

De	Gogledd
nawr	bwrdd
angladd	agoriad
llaeth	geneth
allwedd	rwan
bord	pres
merch	budr
arian	llefrith
brwnt	cynhebrwng

TAFODIAITH

Yn y darn hwn ceir dau berson, un o'r deddwyrain a'r llall o'r gogledd-orllewin, yn siarad.

Dyma rai o'r amrywiadau a glywch:
efo / gyda; ogle' / gwynt; dŵr poeth / dŵr twym; ffordd allan / (ffordd ma's).

Sylwch sut mae'r terfyniad -au / -ai yn amrywio
> -e / -a.

Sylwch hefyd sut y defnyddir y Saesneg weithiau gan y siaradwyr i gadarnhau ystyr gair neu ymadrodd: cynrychiolydd / rep; cyfanswm / package; go deidi.

TRAFOD

- i) Trafodwch a oes, yn eich barn chi, achos gan Mr a Mrs Roberts yn erbyn y cwmni teithio. Beth yw'r pwyntiau cryfaf sydd ganddyn nhw?
- ii) Gwrandewch yn awr ar farn y cyfreithiwr. Ydych chi'n cytuno'n llwyr â'i farn? Beth, yn eich barn chi, y dylai'r cwmni ei wneud? *Trafodwch mewn grwpiau.*
- iii) Gwrandewch ar ymateb y cwmni. Beth yw eich barn am eu hateb?

YMADRODDION

o dan draed; braidd yn fudr; go deidi; yn benodol; ar ôl cryn drafod; y gorau posib.

YSGRIFENNU

Ysrifennwch ar un o'r pynciau a ganlyn:

- a) Gwyliau siomedig
- b) Cwyno
- c) Fe ges i fy siomi

SYLWEBAETH AR GÊM RYGBI

[Huw Llywelyn Davies yn sylwebu ar y gêm rhwng Cymru a Seland Newydd yn 2006]

GEIRFA

ystlys yn dal â'r meddiant gosod wythwr
gwthio grymus gwrthymosod
yr ochr dywyll llinell ddeg Y Crysau Duon
anghyfreithlon bwlch enfawr camu
gwendid safle ryc(-iau) llinell taflad
ail reng cic gosb disgyblaeth cystadlu
tiriogaeth ar y blaen trosiad

IAITH

a) Gwrandewch ar y sylwebaeth a phenderfynu ai gwrywaidd neu fenywaidd yw'r enwau hyn:

tîm cic llinell tacl ystlys ochr cae bwlch

b) Sonnir am sgrym "bymtheg metr i mewn o'r ystlys bellaf". Cofiwch fod angen treiglo dechrau cymal adferfol o'r fath:

- Roedd e'n byw o'r capel (100 llath)
- Mae'r stadiwm o'r dref. (2 filltir)
- Gwelais i Tom yn ôl. (3 mis)
- Dw i wedi bod yno (100oedd o weithiau)
- Chwaraeon nhw'r gêm (dechrau'r flwyddyn)
- Pasiodd e'r arholiad (rhywsut neu'i gilydd)

Ydych chi'n cofio'r termau mae'r sylwebwyr yn eu defnyddio ar gyfer y canlynol? Os nad ydych yn gallu cofio pob un, gwrandewch yn ofalus ar y sylwebaeth unwaith eto a nodwch y rhai aeth yn angof:

possession; counter-attack; the blind side; a throw; second row forward; a number eight; a conversion; a penalty; the 10 metre line; the touchline.

TAFODIAITH

Penderfynwch ai o'r de ynteu o'r gogledd mae'r tri sy'n siarad yn dod. Pa dystiolaeth sydd gennych?

TRAFOD

- i) "Mae rygbi yn cael gormod o sylw yng Nghymru". *Trafodwch.*
- ii) Pryd buoch chi'n gwyllo unrhyw fath o chwaraeon ddiwethaf? *Trafodwch.*
- iii) Gwnewch restr o'r 15 safle mewn tîm rygbi.
- iv) Nodwch bob term technegol yn ymwneud â'r gêm a glywsoch chi yn y sylwebaeth.

YMDRODDION

Y Crysau Duon; gwartheg duon Cymreig; mwyar duon; pobl ifainc; camau breision; Cymru – gwlad y menyf gwynion.

YSGRIFENNU

Fy hoff gêm.

"Gêm a gofiat am byth".

Mae gormod o chwaraeon ar y teledu.

DYSGU PLANT GARTREF

[*Trafod addysgu plant yn y cartref wrth i grŵp o blant a rhieni ymweld ag Amgueddfa Wlân Trefach*]

GEIRFA

datgelu ymchwil undebau safon y dafol manteision anfanfeision ymgyrch rhwygo dadansoddi dehongli cyfres ffurfiol ystod oedran wrth reswm celf cynyddu yn gyfangwbl

GWRANDO A DEALL

- i) Beth mae llawer o rieni wedi penderfynu ei wneud?
- ii) Sut mae undebau athrawon yn ymateb i addysg yn y cartref?
- iii) Pa fanteision sydd wrth ymweld â'r amgueddfa?
- iv) Pa arlunydd mae'r plant wedi bod yn dynwared ei waith?
- v) Sawl brawd sydd gan Lowri Butterworth?
- vi) Pa liwiau sydd yn llun Lowri?
- vii) Sut mae'r amgueddfa'n helpu'r teuluoedd?
- viii) Sut mae Kate Evans yn disgrifio'r berthynas â'r plant?
- ix) Sut mae dod i'r amgueddfa'n helpu'r fam?
- x) Oes mwy neu lai o rieni'n addysgu eu plant gartref?

IAITH

Cwblhewch y brawddegau gan ddefnyddio'r geiriau hyn:
safon; cyfres; y dafol; rhwygo; cynyddu; ystod oedran; ymgyrch; yn gyfangwbl.

Roedd y rhieni wedi trefnu i geisio achub ysgol y pentref.
Edrychais i ar o raglenni ar y teledu.
Ar ôl rhoi'r holl ddadleuon yn teimlais fy mod wedi dewis yn iawn.
Mae nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg gartref yn
Dw i ddim yn cytuno â nhw
.....

Mae addysg yn gostwng yn ôl rhai.
Oes darn arall o bapur 'da chi? Mae hwn wedi
Roedd plant o 3 – 11 yn yr ysgol.

Sylwch ar y pâr: manteision / anfanfeision. Nawr gwnewch barau tebyg o'r geiriau a ganlyn:

ffurfiol
.....	ansefydlog
ufudd
.....	gweddus
ystwyth
.....	anwybodus
gweledig
.....	ansicr

Esboniwch ystyr y canlynol yn Gymraeg:
ymgyrch; ymchwil; ffurfiol; cynyddu; cyfres

TAFODIAITH

Gwrandewch ar Kate Evans yn siarad. Ydy hi'n hawdd lleoli ei thafodiaith ai peidio? Pam?

TRAFOD

a) Pam, yn eich barn chi, mae Lowri Butterworth yn defnyddio rhai geiriau Saesneg – machine, cogs a wheels - wrth ddisgrifio'r hyn mae hi wedi bod yn ei wneud yn yr amgueddfa?

- i) Dydy hi ddim yn gwybod y geiriau Cymraeg.
- ii) Mae'r gweithgaredd wedi ei gyflwyno iddi yn Saesneg.
- iii) Saesneg yw iaith y cartref.
- iv) Rheswm arall.

CDI: TRAC 2I

DYSGU PLANT GARTREF

b) Mewn grwpiau bach, trafodwch a gwnewch restr o fanteision ac anfanteision addysgu plant gartref.

c) Beth yw manteision ac anfanteision addysg arferol?

YMADRODDION

fwyfwy; ar fy mhen fy hun.

YSGRIFENNU

Man ddiddorol yr ymwelais â hi.

Sut gallwn wella ein hysgolion?

Mae addysg yn paratoi at fywyd. Gwir neu anwir?

TRAFOD Y FFILM 'WIZARD OF OZ'

[Sgwrs am fersiwn newydd digidol o'r ffilm enwog]

GEIRFA

clasur adfer digidol croesawu fersiwn
difyr hudolus addasu rhyddhau
cyfarwydd â corwynt achlysur llunio
annatod effeithio ar gollwng tŵr cymylau
anhygoel peiriannau

GWRANDO A DEALL

- i) Pa mor aml mae'r ffilm wedi bod ar y teledu?
- ii) Sut mae'r fersiwn yma'n wahanol?
- iii) Sawl fersiwn o'r 'Wizard of Oz' sy wedi ymddangos dros y blynyddoedd?
- iv) Sut maen nhw wedi gwella ansawdd y ffilm?
- v) Beth sy'n bwysig iawn yn y ffilm, yn ôl John Griffiths?
- vi) Beth sy'n digwydd i Dorothy yn y ffilm?
- vii) Beth yw lliw a) ei ffrog b) ei gwallt?
- viii) Beth oedd lliw ei hesgidiau yn y ffilm wreiddiol?
- ix) Pa liw ydyn nhw yn y fersiwn yma?
- x) Beth oedd yn arbennig am yr esgidiau yn fersiwn 1999?
- xi) Beth gafodd ei ddefnyddio i greu'r corwynt?

IAITH

Yn y sgwrs, defnyddiwyd nifer o ferfenwau a ddilynwyd gan arddodiaid. Cwblhewch y brawddegau a ganlyn trwy ychwanegu ffurf gywir yr arddodiad.

Roedd y tywydd wedi effeithio
..... y gêm.
Ydych chi'n gyfarwydd.....ardal?
Mae hi wedi blino.....nhw.
Addawodd hir plant y basen
nhw'n mynd i'r parc.
Peidiwch anghofio ni!
Dw i ddim yn gallu ateb chi a'ch
brawd.

Doeddwn i erioed wedi clywed
.....nhw.
Ysgrifennais i hi unwaith.

Rhowch y gair rhwng cromfachau yn y frawddeg gan dreiglo yn ôl y galw:

Cafodd y ffilm ei gwneud tua
..... yn ôl. (pum/blynedd)
Fe welais ambell ar y
mynydd. (dafad)
..... e mo'r tŷ wedi'r cyfan.
(Prynodd)
Ydy'r tocyn Dewi?
(yn/poced)
Bwytais i, a
..... (bara/caws/teisen)
Dewch yma ar unwaith,!
(plant)
Ydy'r sgert yn rhy?
(coch/tyn)
Oes gennyf ti i'w i'r ferch
.....? (punt/rhoi/tlawd)

Cywirwch y brawddegau hyn.

Gwelodd ferch bachgen yn mynd heibio.
Dewch â'r car os mae'n bosibl.
Pwy lyfr prynaist ti?
Roedd y siop canllath o'r gorsaf.
Sawl bechgyn sydd â diddordeb yn rygbi?
Dyma'r papur y gofynnaist ti am.
Cofia fynd i'r Swyddfa'r Post.
Mae Mari'n blentyn dda iawn.

TRAFOD

- i) Siaradwch am eich hoff ffilmiau.
- ii) "Mae oes y sinema leol ar ben".
Trafodwch.
- iii) Soniwch am y tro diwethaf aethoch chi i'r sinema.

CD 2: TRAC I

TRAFOD Y FFILM 'WIZARD OF OZ'

- iv) Teledu v. Sinema. Grwpiau i amddiffyn y naill a'r llall.
- v) Sôn am y profiad o grio, chwerthin neu gael ofn yn y sinema.

YMADRODDION

eto fyth; pob dim; rhan annatod; dathlu
achlysur

YSGRIFENNU

Cymry ym myd y ffilm.
Portread o actor / actores.
Fy hoff gymeriadau cartŵn.

TRAFOD CYNLLUN STAMPIAU'R NADOLIG

[*Trafodaeth am gynllun stampiau Nadolig 2006 y Post Brenhinol rhwng llefarydd Swyddfa'r Post, gweinidog ac anffyddiwr*]

GEIRFA

Y Post Brenhinol gwylltio gwarth golygu
annog efengyl anghrediniwr anwybyddu
troseddu adlewyrchu carw (ceirw)
ymrwymiad uwch-reolwr eilio pechu
bob yn ail nodedig Methodist Wesleiaidd
ildio egwyddorion seciwlaeriaeth ar
gynnydd anffyddiwr cydnabod hijacio
celyn uchelwydd nonsens noeth
sumbolaeth cawl potsh Llychlyn

GWRANDO A DEALL

- i) Pa luniau sydd ar y tri stamp?
- ii) Pam mae Cristnogion wedi gwylltio?
- iii) Pa fath o wlad yw Cymru, yn ôl y cyflwynydd?
- iv) Beth benderfynodd Swyddfa'r Post ei wneud y llynedd?
- v) Beth mae Swyddfa'r Post yn ceisio ei osgoi?
- vi) Pam mae'r Parch Bryn Jones yn anhapus?
- vii) Sut mae Angharad Davies yn disgrifio'r stampiau?
- viii) Beth sydd ar gynnydd, yn ôl y Parch Bryn Jones?
- ix) Disgrifiwch safbwynt y Dr lolo ap Gwyn.
- x) Pam mae e'n disgrifio'r Nadolig fel "cawl potsh"?
- xi) Beth mae Cristnogion yn ei sylweddoli, yn ôl y Dr ap Gwyn?

IAITH

Diffiniwch y canlynol yn eich geiriau eich hun:

- i) anghrediniwr ii) Llychlyn
- iii) egwyddor iv) uchelwydd

Sylwch ar ffurf luosog carw>ceirw .
Dyma ragor o enghreifftiau o ffurfiau lluosog a>ei:

car>ceir;
iâr>ieir;
bardd>beirdd;
gafr>geifr;
gwasg>gweisg;
march>meirch;
tarw>teirw.

Nawr, ffurfiwch luosog:
arth; arch; cart; iâr; marw; sarff.

Cwblhewch y brawddegau gan ddefnyddio'r geiriau:

hollol; ein hunain; bob o; rhai; holl; ryw; llall;
unrhyw; un; sawl.

- i) Doedd e ddim yn hoffi'r gardiau.
- ii) Dydyn ni ddim yn gallu gweld bob amser.
- iii) Doedden nhw ddim eisiau fath o symbolau Cristnogol ar y stampiau.
- iv) Ces i'r un rhad a chafodd fy mrawd y
- v) Dyma dy garden di, ond ble mae fy i?
- vi) Cafodd y plant £5 i fynd i'r dref.
- vii) Roedd plentyn yn absennol o'r dosbarth.
- viii) Cerddais i filltir ar hyd y ffordd.
- ix) Chlywodd e mo'r ffôn yn canu gan ei fod e'n fyddar.
- x) Does dim hoelion ar ôl. Oes gen ti?

TRAFOD CYNLLUN STAMPIAU'R NADOLIG

Mae'r geiriau a danlinellir wedi eu camddefnyddio gan y siaradwr. Pa eiriau y dylai fod wedi eu defnyddio? Defnyddiwch eiriadur os oes rhaid:

“Dydyn ni ddim yn adnabyddu Cristnogion na Nadolig.”

“Dy'n ni ddim am droseddu'r Eglwys Gristnogol o gwbl.”

“... yn sicrhau y byddwn ni'n eilio rhwng thema crefyddol a themâu digrefydd.”

“Mae'r ffaith ein bod ni'n cynhyrchu stampiau at yr ŵyl yn nodedig o'r Nadolig.”

TAFODIAITH

Ydy'r Parch Bryn Jones a'r Dr Iolo ap Gwyn yn dod o'r de neu'r gogledd? Nodwch y pwyntiau sy'n ffurfio eich barn.

TRAFOD

Trafodwch mewn grwpiau:

- i) Ddylai'r Nadolig fod yn ŵyl hollol seciwlar bellach? [Un grŵp o blaid ac un yn erbyn].
- ii) Pa luniau fydddech chi'n eu rhoi ar stampiau'r Nadolig?

YMDRODDION

ar gynydd; yn y bôn; pob sut; nonsens noeth; ac yn y blaen; yn gawl potsh; bob yn ail.

YSGRIFENNU

Llythyr i Swyddfa'r Post yn cwyno am gynllun stampiau Nadolig.

Nadolig cofiadwy.

'Mae'r Nadolig wedi colli ei ystyr'.

COFIO TEULU SYLVIA PANKHURST

[*Elinor Wyn Reynolds yn siarad am Sylvia Pankhurst, aelod o deulu enwog a frwydrodd dros wahanol hawliau dynol*]

GEIRFA

sefydliad gweithredoedd torri'r gyfraith
ymosod treisgar ympryd ymgyrch daliadau
egwyddor annatod blaengar gwrth-hiliaeth
gwrthffasgaeth ymgyrchu caer annibyniaeth

GWRANDO A DEALL

- i) Pryd sefydlwyd 'The Women's Social & Political Union'?
- ii) Beth oedd amcan y mudiad hwnnw?
- iii) Pa fath o bethau anghyfreithlon roedd Sylvia wedi eu gwneud?
- iv) Beth wnaeth hi tra oedd hi yn y carchar rhwng 1913-14?
- v) Pa fath o deulu oedd teulu Sylvia Pankhurst?
- vi) Pa fath o ferched oedd o ddiddordeb arbennig iddi?
- vii) Pwy oedd y person enwog y bu'n dadlau ag ef?
- viii) Pa bwnc oedd yn uno'r chwiorydd?
- ix) Sawl papur newydd sefydlodd Sylvia?
- x) Ble cafodd hi ei chladdu?

IAITH

a) Pa ferfenwau sy'n cael eu ffurfio o'r enwau hyn?

ymgyrch	ymgyrchu
gweithred	
sefydliad	
ymosodiad	
trais	
ympryd	

b) Cwblhewch y brawddegau gan ddefnyddio'r geiriau isod:

treisgar ymgyrchu ymprydio sefydliad
egwyddor blaengar

Pan oedd y carcharor yn
doedd e ond yn yfed dŵr.

Prif y gwleidydd oedd
sicrhau chwarae teg i bawb.

Dywedwyd ei fod yn ddyn
yn curo ei wraig a'i blant.

Bu llawer yn i sicrhau'r
bleidlais i ferched.

Ar un adeg, roedd y capel yn
..... pwysig ym mhob tref.

Roedd Sylvia'n berson.....
mewn sawl maes.

c) P'un sy'n gywir? Pam?

y dair merch; y tair merch; y dair ferch
y ddwy ferch; y dwy merch; y ddwy ferch
y bedair chwaer; y bedwar chwaer; y pedair
chwaer
y drydydd ferch; y drydedd merch; y drydedd
ferch
y bedwaredd ferch; y pedwerydd merch;
y bedwaredd merch
y dair; y tair; y ddwy; y dwy; y dau; y ddau

TAFODIAITH

Yn eich barn chi, faint o ôl tafodiaith sydd ar y
sgwrs hon? Oes unrhyw awgrymiadau o ble
mae'r siaradwraig yn dod?

COFIO TEULU SYLVIA PANKHURST

TRAFOD

- i) Rhaid i chi a'ch partner gymryd arnoch eich bod yn un o'r ymgyrchwyr canlynol. Dywedwch rhywbeth am eich achos a dros beth yn union rydych yn ymgyrchu.

Sut rydych chi'n bwriadu gweithredu?

Aelod o Greenpeace; Aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg; Aelod o Amnest Cydwladol; Aelod o Tadau dros Gyfiawnder; ymgyrchydd gwrthniwcliar.

- ii) Casglwch wybodaeth am un o'r ymgyrchwyr hyn i'w hadrodd o flaen eich grŵp:

Nelson Mandella; Martin Luther King; Y Fam Theresa; Emily Pankhurst; Wiliam Wilberforce; Bob Geldorf.

- iii) Ydy hi'n dderbyniol i dorri cyfraith gwlad i hybu achos? *Trafodwch.*

YSGRIFENNU

Taswn i'n gallu newid un peth yn y byd, baswn i'n.....

Gwastraff amser yw ymgyrchu.

'Ddylai'r Eglwys ddim ymyrryd mewn gwleidyddiaeth.' *Trafodwch.*

IOLO WILLIAMS YN SŌN AM ADAR

[Gerallt Penant yn sgwrsio â'r naturiaethwr, Iolo Williams, am adar]

GEIRFA

Lefelau Gwent aber gwarchodfa
socan eira (fieldfare) coch dan adain (redwing)
llifo aeron perthi toreth anhygoel
drudwennod (starlings) clwydo clwydfan

GWRANDO A DEALL

- i) Ble mae Iolo wedi bod?
- ii) Am faint o amser oedd e yno?
- iii) Pryd agorwyd y warchodfa ar Lefelau Gwent?
- iv) Beth oedd Iolo'n ei wneud yno?
- v) Pa brawf oedd ganddo fod yr adar yno?
- vi) Ar ba adeg o'r dydd oedd e'n ffilmio'r drudwennod?
- vii) Tua faint o adar oedd yno?
- viii) Ble roedd Bill Oddie wedi bod yn ffilmio?
- ix) Sut mae e'n disgrifio siapiau'r cymylau o adar?
- x) Ble arall yng Nghymru rydych chi'n gallu gweld drudwennod yn ymgasglu?

IAITH

a) Pa air o'r rhestr yma a ddefnyddir am gasgliad o'r canlynol?

haig; buches; gyr; haid; tyrfa; ciwed; praidd.

[Oes rhai o'r termau y gellir eu defnyddio am fwy nag un o'r rhain?]

- o adar.
- o ddefaid.
- o bysgod.
- o ladron.
- o wartheg / dda.
- o bobl.
- o wenyn.

b) Mae'r diarhebion a ganlyn wedi eu cymysgu.

Cywirwch nhw.

Adar o'r un lliw / ni wna wanwyn
Gwyn y gwêl / y piga'r cyw
Un wennol / hed i'r un lle
Lle crafa'r iâr / y frân ei chyw

c) Weithiau mae Saesneg yn gallu dylanwadu ar gystrawen y Gymraeg. Ydy cyfeirio at afonydd fel 'y Taf' neu 'yr Elai' yn gywir? Os nad ydy, pam?

ch) Yn aml wrth siarad byddwn yn ychwanegu ymadroddion atodol. Roedd Iolo, er enghraifft, yn defnyddio, 'siwr o fod'. Dyma ragor y dylech eu nodi:

chwarae teg; a dweud y gwir; at ei gilydd; 'sbosib (does bosib); heb os; hyd y gwn i; yn ôl pob tebyg; gwaetha'r modd; wrth reswm.

TAFODIAITH

Pa brawf sydd gennych wrth wrando ar y sgwrs fod y ddau siaradwr yn dod o'r gogledd?

TRAFOD

'Mae gwarchodfeydd natur yn fwy o ddrwg nag o les.' *Trafodwch*.

Gwnewch restr o'r enwau adar rydych chi'n eu gwybod. Cymharwch restrau eich gilydd a nodwch unrhyw enwau sy'n newydd i chi.

Rhaglenni gan naturiaethwyr ar y teledu. Eich barn?

YMADRODDION

byth a beunydd; y cwbl lot; treulio amser; gyda'r hwyr; yn union r'un peth.

YSGRIFENNU

Yr adar yn fy ngardd.
Ymweld â gwarchodfa natur.
Bywyd gwyllt ein hardal.

SGWRS Â RAY GRAVELL AM ACTIO

[Y cyn-chwaraewr rygbi a darlledwr, Ray Gravel, yn sôn am ei yrfa fel actor]

GEIRFA

ben bore	swyddogol	cyflwynydd	
dynwared	mynwesol	portreadu	
disgyblaeth	ta pwy bynnag	rhwydd	
cynhyrchydd	cyfarwyddwr	prifardd	plasty
paradwys	her	hynaws	penigamp
bodddhad	greddfol		

GWRANDO A DEALL

- i) Ar ba adeg o'r dydd roedd Gaynor yn siarad â Ray Gravel?
- ii) Faint o hyfforddiant actio gafodd Ray?
- iii) Ble a phryd actiodd e gyntaf?
- iv) Pwy ofynnodd iddo ymddangos ar y teledu gyntaf?
- v) Ydy actio'n hawdd, yn ôl Ray?
- vi) Ym mha ddrama cafodd e ei ran fawr gyntaf?
- vii) Pwy sgrifennodd y ddrama honno?
- viii) Ble roedden nhw'n ffilmio?
- ix) Oedd e'n hyderus pan ddechreodd e actio?
- x) Pwy oedd wedi actio gyda Tele Sevalas?
- xi) Beth oedd gwaith Richard Bonner?

IAITH

a) Pa air a glywsoch chi yn y darn ac a restrir isod sy'n cyfleu'r canlynol?

penigamp; paradwys; her; prifardd; hynaws; dynwared; plasty; greddfol

Gweithredu heb feddwl
 Ardderchog
 Dymunol
 Rhywbeth anodd mae'n rhaid ei wneud
 Lle perffaith
 Tŷ anferth
 Bardd buddugol yn yr Eisteddfod
 Genedlaethol
 Siarad a symud fel rhywun arall

b) Ffurfiwch ferfenwau o'r enwau yn (i) ac ansoddeiriau o'r rhai yn (ii):

- i) cynhyrchydd; her; portread; disgyblaeth; cyfansoddwr.
- ii) mynwes; swyddog; greddf.

c) Beth yw'r ymateb cadarnhaol a negyddol (le / Nage etc.) i'r cwestiynau a gosodiadau canlynol?

Welaist ti'r rhaglen neithiwr?
 Am saith o'r gloch est ti?
 Maen nhw yn y tŷ.
 Yn y bath roedden nhw.
 Ddylech chi ennill?
 Fydd y plant yn dod?
 Roedden ni'n hwyr ddoe.
 Fuest ti allan neithiwr?
 Faswn i'n ei hadnabod hi?
 Teifion Davies?

TAFODIAITH

Mae dau berson yn sgwrsio yn y darn hwn. Pa dystiolaeth sydd gennych i brofi bod un ohonynt yn dod o'r gogledd a'r llall o'r de? Nodwch eich rhesymau.
 Ffurf dafodieithol ar 'ynteu' yn ne Cymru yw 'ta'. Ar lafar mae 'ni waeth pa /pwy' > ta pa / ta pwy. Mae pwy bynnag /beth bynnag / p'un bynnag > ta pwy / ta beth / ta p'un. Hefyd mae 'tua' > sha. P'un o'r siaradwyr sy'n defnyddio'r ffurfiau hyn?

TRAFOD

Mewn grwpiau, rhannwch yr wybodaeth sydd gennych am Ray Gravel.

Cyfweld ag aelod arall o'r dosbarth gan ganolbwyntio ar ryw ddawn neu ddiddordeb sydd ganddo / ganddi.

Recordiwch gyfweiliad â rhywun yn eich stryd / cymuned.

YMADRODDION

ben bore; yn y bore bach; oriau mân y bore; codi'n fore; o fore gwyn tan nos; bore oes.

CD2: TRAC 5

SGWRS Â RAY GRAVELL AM ACTIO

YSGRIFENNU

Chwaraewyr / athletwyr sydd wedi gwneud enw
mewn maes arall.

Drama deledu fwynheais i.

TRAFOD Y DEFNYDD O 'TI' A 'CHI' YN GYMRAEG

[Trafodaeth am y gwahanol arferion wrth gyfarch pobl yn 'ti' neu'n 'chi']

GEIRFA

cymhleth sylwebydd cysylltu drwgdybio
parch doethuriaeth aruthrol cyfoedion
aelodau seneddol gwahaniaethu unigolyn
amrywiaethau cymhlethdodau cenhedlaeth
sefydlu trafferthion canolbwyntio
ffeministiaid cymysgwch bodoli

GWRANDO A DEALL

- i) Sut mae'r cyflwynydd yn disgrifio sefyllfa 'ti' a 'chi'?
- ii) Sut mae Gwion Rees yn cyfarch y rhan fwyaf o bobl?
- iii) Sut mae Alun Wyn Bevan yn wahanol i Gwion?
- iv) Sut roedd Alun yn cyfarch plant pan oedd yn athro?
- v) Pryd bydd Alun yn teimlo'n anhapus?
- vi) Sut mae'r sefyllfa'n haws yn Saesneg?
- vii) Beth yw'r sefyllfa rhwng Alun Wyn Bevan a'i blant?
- viii) Beth oedd yr esboniad a gafodd Gwion gan athro?
- ix) Daearyddiaeth sy'n penderfynu patrwm defnydd 'ti' a 'chi'?
- x) Beth oedd arfer Alun Wyn Bevan wrth ddysgu oedolion?

IAITH

a) Pa ffurf (ti/chi) fydddech chi'n ei defnyddio yn y sefyllfaoedd hyn?

- Cyfarch ffrind agos
- Disgybl yn siarad ag athro
- Siarad â phlentyn ifanc
- Athro yn cyfarch dosbarth
- Holi plismon ar y stryd
- Siarad â'ch plentyn

Rhowch y ffurf 2il berson unigol neu luosog, yn ôl y gofyn:

dere
.....	dos
gwnei
.....	deuwch
est ti
.....	gwnewch
dylet
.....	gwyddoch

Cwblhewch y brawddegau hyn trwy ddefnyddio ffurf briodol yr 2il berson.

- i) ti'n rhoi £30 am hwn, taset ti'n cael cyfle?
- ii) Os di wrth yr eglwys am 7 o'r gloch, cei di lifft.
- iii) Fe ddof i os chi.
- iv) chi'n gallu dod heno?
- v) Pan di yno, fe weli di'r eglwys gadeiriol.
- vi)chi aros yma, os gwelwch yn dda?
- vii)ti'n wŵr bonheddig, baset ti'n agor y drws i mi.
- viii) Pam ti ddim i'r ysgol ddoe?
- ix) Os ydych am bryd da o fwyd, i'r Ritz.
- x) Pam ti ddim yn y dosbarth neithiwr?

TRAFOD

Ydych chi'n teimlo'n hapus / hyderus yn defnyddio'r ddwy ffurf, 'ti' a 'chi'?

Holwch siaradwyr Cymraeg yn eich ardal am eu harfer wrth ddefnyddio 'ti' a 'chi' a dewch ag adroddiad yn ôl i'r grŵp.

YMADRODDION

Mewn rhai ardaloedd o'r gogledd defnyddir y ffurf 'chdi' yn lle 'ti' ac fe welwch y ffurf hon

CD2: TRAC 6

TRAFOD Y DEFNYDD O 'TI' A 'CHI' YN GYMRAEG

bellach mewn llenyddiaeth dafodieithol.

YSGRIFENNU

Ar ôl siarad ag eraill, nodwch y sefyllfaoedd lle y byddwch chi nawr yn defnyddio 'ti' a 'chi'.

SGWRS RHWNG TOMOS MORSE A'R ACTOR IOAN GRUFFYDD

[Tomos Morse yn holi Ioan Gruffydd am ei waith ac yn rhannu rhai o'i brofiadau]

GEIRFA

clyweliadau cyfarwyddwr cyfweliad cysylltiad
 eisoes marchogaeth meithrinfa hyfforddi
 ysgol farchogion datblygu corfforol
 clefyd y gwair erchyll chwistrelliad tîn
 urddo y Wisg Wen yr Orsedd ymestyn

GWRANDO A DEALL

- i) Pam mae Ioan Gruffydd wedi dod adref?
- ii) Sut cafodd e ran yn y ffilm?
- iii) Ble dysgodd Ioan i farchogaeth?
- iv) Beth oedd yr actorion yn ei wneud gyda'r nos tra yn lwerddon?
- v) O beth mae Ioan Gruffydd yn dioddef?
- vi) Pam aeth e i'r Eisteddfod Genedlaethol?
- vii) I ble mae Ioan yn mynd ar ôl gadael Caerdydd?
- viii) Beth, yn arbennig mae Dr Reed Richards yn gallu ei wneud?
- ix) Pam na fydd e'n actio gyda Matthew Rhys?
- x) Ydy e wedi derbyn cynnig i chwarae James Bond?

IAITH

Esboniwch yn Gymraeg y gwahaniaeth rhwng y parau hyn:

- clyweliad - cyfweliad
- marchogaeth - marchogion
- tîn - pen ôl
- shwd mae? - sut ydych chi?
- estyn - ymestyn
- hyfforddi - ymarfer
- cyfarwyddwr - cyfarwyddyd
- drwg - erchyll

Mae un o'r siaradwyr yn sôn am 'Yr lwerddon'. Ydy hyn yn gywir, a pha rai o blith y canlynol sy'n gywir neu yn anghywir?

Yr Alban; Y Teifi; Y Gymraeg; Yr Amwythig; Y Bala; Y Fenai

Cwblhewch y grid:

Gwlad	Brodor	Brodores	Lluosog
Cymru	Cymro	Cymraes	Cymry
-	Gwyddel	-	-
-	-	-	Eidalwyr
Lloegr	-	-	-
Ffrainc	-	-	-
-	-	Pwyles	-
-	Almaenwr	-	-

TAFODIAITH

Mae llawer o eiriau, ymadroddion a phatrymau yn iaith y ddau siaradwr sy'n nodweddiadol o Gymraeg llafar de Cymru. Nodwch y rhain.

TRAFOD

- i) "Mae'r sgwrs yn anffurfiol iawn rhwng dau berson sy'n adnabod ei gilydd yn dda". Sut byddech chi'n cyfiawnhau neu yn gwrthbrofi'r gosodiad hwn. Nodwch eich tystiolaeth.
- ii) Siaradwch â'ch partner am eich hoff ffilm / actor / actores.
- iii) Ydy Cymry wedi gwneud llawer o gyfraniad i fyd ffilmiau?
- iv) Ydych chi o'r farn y byddai Ioan Gruffydd yn addas ar gyfer rhan James Bond? Nodwch eich rhesymau.

YMADRODDION

Mae si ar led; mae hanes ar gerdded; mae sôn bod; mae achlust fod; mae'r stori'n dew fod...

YSGRIFENNU

Taswn i'n actor, baswn i'n hoffi.....
 Fy hoff actor / actores

BETI GEORGE YN CYFWELD Â'R DR GWYNFOR EVANS

[Beti George yn siarad â'r diweddar Dr Gwynfor Evans am y Cynulliad, mewnfudwyr a'r iaith Gymraeg]

* Awgrymir eich bod yn ystyried Trafod i) cyn gwrando ar yr uned hon.

GEIRFA

galluogi gwleidydd cenhadu dros llywydd heddychwyr perfeddion amherthnasol taeogrwydd affwysol Cynulliad adfer hollt mewnfudwyr lleiafrif trefnydd llawn amser ymroi meddyginiaeth

GWRANDO A DEALL

- i) Beth oedd gwaith pob dydd Gwynfor Evans?
- ii) Pam aeth i fyw i Sir Gâr?
- iii) Beth sy'n bod ar y Cymry, yn ôl Gwynfor?
- iv) Beth oedd e'n gobeithio y byddai'r Cynulliad yn ei gyflawni?
- v) Beth oedd ei farn am yr honiad bod sefydlu'r Cynulliad wedi hollti Cymru?
- vi) Beth oedd ei farn am fewnfudwyr?
- vii) Faint o fewnfudwyr sydd yn Sir Fôn?
- viii) Beth oedd nod mudiad 'Pont'?

IAITH

a) Yn y darn fe glywch y berfenw 'gwleidydd'. Pa ferfenwau yn gorffen ag -a sy'n dod o'r enwau a ganlyn:

cardod; mwyar; diod; gwledd; merlod; busnes; cinio?

b) Pa eiriau sy'n gyfystyr yn y ddwy golofn?

hollt	sicrwydd
perfedd	dybryd
meddyginiaeth	gwaseidd-dra
affwysol	canol
galluogi	moddion
hyder	rhwyg
taeogrwydd	hwyluso

c) Yn y cyfweiliad mae Gwynfor yn sôn am ganrannau (%). Dysgwch:

20% - ugain y cant;

40% - deugain y cant;

60% - trigain y cant.

Beth yw 80%; 100%?

TAFODIAITH

Beth yn eich barn chi yw oedran y siaradwr yn y cyfweiliad hwn? Pa brawf sydd gennych i ategu eich barn? Faint o ôl tafodiaith sydd ar ei iaith lafar?

TRAFOD

- i) * Casglwch wybodaeth am Gwynfor Evans. Pob aelod o'r dosbarth i ychwanegu brawddeg at y darlun yn ei dro.
- ii) Oes digon o gefnogaeth i fewnfudwyr sydd am ddysgu Gymraeg? Awgrymiadau!
- iii) 'Mae'r Cynulliad yn gwneud gwaith da'. Trafodwch.

YMADRODDION

ym mherfeddion y wlad; perfedd nos; mynd i berfedd rhywbeth.

YSGRIFENNU

Portread o wleidydd pwysig.
Cymwynaswyr y Gymraeg.

SYLWEBAETH PÊL-DROED

[Disgrifiad o'r gêm rhwng Cymru ac Ynys Cyprus yn 2006]

GEIRFA

meddiant gwthio effeithiol cryfder cymorth safon ymosod cyflymdra rhes cyd-chwarae sialens sgoriwr canfod partneriaeth dathlu torf rhwyd

IAITH

a) Gwrandewch ar y sylwebaeth a cheisiwch ddyfalu beth yw'r termau Cymraeg a ddefnyddir am y canlynol:

- a corner kick
- penalty box
- to counter-attack
- a cross
- a header
- a throw-in
- a forward
- a run
- a goal-kick
- to be offside

b) Gwrandewch unwaith eto. Pa air/eiriau sy'n eisiau?

Mae e'n i frwydro.
y cyfnod pan oedd Cymru ar ei
..... o dan Mark Hughes.

yn gwthio un neu ddau o chwaraewyr
Cyprus y bêl.

yn caniatáu i fechgyn Cymru ddod nôl yn
un ar draws y

roedd e'n gyd-chwara.....
yng nghanol y cae.

ond ei cyntaf ychydig bach
yn rhy galed.

Mae'r ar ei thraed.

c) P'un o'r ddau ddewis sy'n gywir?

- | | |
|-----------|------------|
| oddiar | oddi ar |
| oddieithr | oddi eithr |
| oddi wrth | oddiwrth |
| oddiam | oddi am |

TAFODIAITH

Nodwch y prif anawsterau a gewch wrth geisio dilyn sylwebaeth ar gêm.

TRAFOD

- i) Ddylai merched gael chwarae pêl-droed?
Trafodwch.
- ii) Mae peldroedwyr yn ennill gormod o arian. Un rhan o'r dosbarth i lunio dadleuon o blaid a'r llall yn erbyn.
- iii) Ar y cyd, lluniwch restr o dermau pêl-droed.

YMADRODD

Sylwch ar y defnydd o 'yn weddol saff o' yn yr ystyr o 'yn weddol sicr o' e.e. Maen nhw'n weddol saff o ennill.

YSGRIFENNU

Portread o unrhyw beldroediwr:
Taswn i'n briod â pheldroediwr ...
Peldroediwr yn y newyddion.

DAFYDD IWAN YN SŌN AM DDECHRAU EI YRFA

[Dafydd Iwan yn sôn am ddechrau canu a'r dylanwadau a fu arno]

Cyn gwranddo ar y recordiad, casglwch ffeithiau am Dafydd Iwan a'u rhannu â gweddill y dosbarth.

Cafodd e ar ganu.

Aeth swyddogion yng Nglan-llyn i banics

Cyflwynodd y gwersyllwyr i'r BBC yn gofyn am gael gweld Dafydd ar y teledu.

GEIRFA

diwylliedig pumdegau ymysgwyd amrwd digyfeiliant gwirioni swyddogion gwersyllwyr deiseb

GWRANDO A DEALL

- i) Faint oedd oed Dafydd Iwan yn symud i Lanuwchllyn?
- ii) Pa raglen deledu oedd yn hybu canu poblogaidd yn y pumdegau?
- iii) Beth oedd barn Dafydd am y rhaglen?
- iv) Pryd roedd y plant yn gwranddo ar Radio Luxemburg?
- v) Pwy oedd yr aelod cyntaf o'r teulu i brynu gitâr?
- vi) Beth oedd y ddau beth y gallai Dafydd eu gwneud?
- vii) Ble aeth e ati i ddysgu'r gitâr?
- viii) Beth sy'n rhyfedd am y tro cyntaf iddo ganu?
- ix) Beth oedd y plant yn gwrthod ei wneud yng Nglan-llyn?
- x) Beth oedd pwrpas y ddeiseb?

b) Defnyddiwch eiriadur i ddod o hyd i genedl yr enwau hyn. Oes yma batrwm?

tysteb, swyddfa, heddwch, brwdfrydedd, gwybodaeth, tywyllwch, archeb, porfa, tangnefedd, gwytnwch, barddoniaeth, hysbyseb, noddfa, amynedd, amheuaeth

c) Pa esboniad ar y dde sy'n gweddu i'r idiomau ar y chwith?

- ar ddamwain ar y cyfan
- ar bigau'r drain mentro heb sicrwydd
- â'i wynt yn ei ddwrn yn bryderus ac anghysurus
- bod â dwylo blewog heb yngan gair
- ar gyfeiliorn heb symud
- at ei gilydd un sy'n hoffi arwain

IAITH

a) Cwblhewch y brawddegau hyn ar ôl gwranddo ar y recordiad:

Roedd Brynmanan a Llanuwchllyn yn bentrefi

Dechreuodd Dafydd ymddiddori mewn rhaglenni canu pop yn y

Am nad oedd e'n gallu canu offeryn, roedd rhaid iddo ganu'n

prynu cath ar frys mawr
mewn cwd

heb na bw na be ar grwydr

yn ei unfan bod yn lleidr

ceffyl blaen ar siawns

TAFODIAITH

Er bod Dafydd Iwan yn defnyddio rhai ffurfiau gogleddol fel 'deud', 'gwirioni' ac 'yntê' mae'r

DAFYDD IWAN YN SŴN AM DDECHRAU EI YRFA

terfyniad lluosog '-au' > 'e' yn groes i'r hyn a ddisgwylid. Oes gennych awgrymiadau pam mae hyn yn digwydd?

TRAFOD

- i) Oes unrhyw werth parhaol i ganu poblogaidd? *Trafodwch.*
- ii) Canu pop – o les neu yn gwneud drwg?
- iii) Rhywbeth i'r ifainc yn unig yw canu pop?

YMADRODDION

cael blas ar; cael hwyl ar; rhywun neu'i gilydd

YSGRIFENNU

Canu pop – sŵn heb ddawn?
Cantorion pop yn ymgyrchu.
Cerddoriaeth bop v. cerddoriaeth glasurol.

DYFAN ROBERTS YN DARLLEN STORI ARSWYD

[Yn y darn hwn mae'r actor, Dyfan Roberts, yn darllen rhan o stori gyffrous]

GEIRFA

milwr	diflannu	llefai	bwtri	cilagored
lled y pen	dychymyg	gordd	dudew	
ceryddu	curo	erfyn ar	dwrn	fferu
anadlu	chwys	gruddiau	gwalch	

dudew	curo
ceryddu	bwlyn
bwrw	rhewi
gruddiau	pantri
cilagored	tywyll
gordd	bochau
dwrn	hanner agored
gwalch	morthwyl pren

GWRANDO A DEALL

- i) At ba rif cyfrifodd y milwr?
- ii) I ble rhedodd e?
- iii) Oedd ffenest y bwtri ar gau?
- iv) Sut teimlai e wrth fynd drwy'r ffenest?
- v) Faint o olau oedd yn y tŷ?
- vi) Pwy oedd yn siarad â'i chwaer oddi allan?
- vii) Beth oedd ei chwaer am ei wneud?
- viii) Ble aeth e ar flaenau'i draed?
- ix) Pa sŵn glywodd e yn stafell wely ei dad?
- x) Beth agorodd e yn y stafell?
- xi) Pa ateb gafodd e pan ofynnodd e, "Pwy sy' 'na'?"
- xii) Beth deimlodd e'n sydyn?

IAITH

- a) Pa ymadroddion a ddefnyddiwyd yn y stori i gyfleu y canlynol?

yn llydan agored
calon yn curo'n drwm
roedd yn hawdd iddo
diflannwch, ferch
safodd lle roedd e
cerdded heb sŵn
rhewodd ei waed
y cythraul!

- b) Pa arddodiaid sy'n dilyn y berfenwau / berfau hyn yn y stori?

diolch	aeth	erfyn	dal
gwrando	gafael	cau	

- c) Pa eiriau sydd ag ystyr tebyg?

fferu	dwrdio
bwtri	dihiryn

TAFODIAITH

Mae Dyfan Roberts yn darllen stori ysgrifenedig. Pa wahaniaethau ydych chi'n eu gweld rhwng iaith y stori ac iaith lafar bob dydd? Gwnewch restr o'r prif bwyntiau.

TRAFOD

- i) Stori arswyd yw hon. Pa elfennau yn y sgrifennu a'r adrodd sy'n peri ei bod yn gyffrous? *Trafodwch.*
- ii) Adroddwch stori am rywbeth cyffrous rydych chi wedi ei glywed neu sydd wedi digwydd i chi'n bersonol.
- iii) Mae darllen ar goedd yn sgil anodd. Dewiswch ddarn o stori / nofel i'w ddarllen yn uchel.

YMADRODDION

diolch i'r drefn! diolch byth!
diolch i'r nefoedd! diolch i Dduw!
diolch i'r mawredd!

YSGRIFENNU

Ysgrif am unrhyw ddigwyddiad arswydus / cyffrous.

Stori yn gorffen: "a fferodd fy ngwaed".

GUTO ROBERTS YN SŌN AM GYMERIAD GWREIDDOL

[Guto Roberts yn sŏn am Rol, Croesor Bach, un o gymeriadau gwreiddiol pentref Croesor]

GEIRFA

arbenigrwydd	hyderu	ias	cwta	ddeufis
dyhead	disymwth	mudo	eirin	tagu
cyforiog	llwm	moel	surni	moethusrwydd
coinio	cymariaethau	gwaith	sets	dihafal
annioddefol	clecian	glaw	taranau	nobl

GWRANDO A DEALL

- i) Pa mor adnabyddus oedd Rol?
- ii) Ers pryd mae e wedi marw?
- iii) Sawl brawd oedd ganddo?
- iv) Sut roedd e'n dymuno marw?
- v) Ble bu Guto Roberts yn sgwrsio ag ef?
- vi) I ble symudodd e o Groesor?
- vii) Beth roedd e'n ei fwyta "yn hogyn 10 oed"?
- viii) I ba fath o deulu y perthynai?
- ix) Ble bu'n gweithio ar un adeg?
- x) Pam roedd ei het wellt wedi mynd "fel clustia' sbaniel"?

IAITH

a) Lluniwch frawddegau yn cynnwys yr ymadroddion canlynol a ddefnyddiwyd yn y sgwrs:

rhyfeddol o; aml i dro; ers tro byd;
am fy nhraed; clamp o.

b) Pa eiriau eraill a ddefnyddiwyd yn y sgwrs i gyfleu:

gobeithio; sydyn; symud; ers amser; tlawd;
chwerwder; anghymarol; het fawr.

c) Rhestrwch y geiriau hyn o dan y penawdau DYMUNOL ac ANNYMUNOL:

ffraeth; twp; cwynfanllyd; caredig; swrth; byrbwyll;
galluog; cymwynasgar; cybyddlyd; hynaws; siriol;
ffiaidd.

TAFODIAITH

Brodor o Eifionydd yng Ngwynedd oedd Guto Roberts. Gwrandewch ar ei sgwrs eto a nodwch beth sy'n digwydd i'r terfyniad lluosog –au yn y geiriau: 'sgidiau; awgrymiadau; cymariaethau; taranau a clustiau.

TRAFOD

- i) Llunio sgwrs fer am unrhyw 'gymeriad' rydych yn ei nabod.
- ii) Ysgrifennwch enwau cymeriadau adnabyddus hanesyddol neu gyfoes ar gardiau a glynwch nhw ar gefnau eich cyd-aelodau yn y dosbarth â selotape. Tasg pob un fydd ceisio darganfod pwy ydyw trwy gerdded o gwmpas a holi'r lleill.

YMADRODDION

ar un adeg; am gyfnod; ymhen tipyn; ar ôl ysbaid; ar fyr o dro; ychydig yn ôl.

YSGRIFENNU

Portread o gymeriad.

Llunio rhestr o gwestiynau ar gyfer holi cymeriad lleol.

ATGOFION DR DEREK LLWYD MORGAN AM GEFN-BRYN-BRAIN

[Rhan o sgwrs gan yr Athro Derec Llwyd Morgan am ei ardal enedigol]

GEIRFA

comin	perfeddwlad	glo carreg	glofaol
achos	Annibynnol	arwrol	efengylu
Y Diwygiad	Methodistaidd	dileu	
cyfamser	purion	clwyfo	dychymyg

GWRANDO A DEALL

- i) Ble codwyd pentref Cefn?
- ii) Pryd cafodd y pentref ei godi?
- iii) O ble daeth pobl i fyw yno?
- iv) Ble roedden nhw'n gweithio?
- v) Beth oedd y gwahaniaeth rhwng Cefn a Chwmllynfell?
- vi) Pa mor bell aeth Evan Williams i bregethu?
- vii) Ydy'r siaradwr yn byw yn yr ardal nawr?
- viii) Beth sy'n digwydd i bob pentref yn ôl y siaradwr?
- ix) Beth ydych chi'n meddwl oedd penderfyniad swyddogion y Swyddfa Gymreig?
- x) Pa mor hapus ydy Derec Llwyd Morgan â'r penderfyniad?

IAITH

- a) Gwir neu anwir?
- Hen bentref yw Cefn-bryn-brain.
Doedd dim diwydiant yn yr ardal.
Mae'n sefyll yn ymyl Cwmllynfell.
Roedd achos Methodistaidd yng Nghwmllynfell yn amser Cromwell.
Dydy'r siaradwr ddim yn byw yno nawr.
Penderfynodd y Swyddfa Gymreig adleoli'r pentref.
Mae'r siaradwr wrth ei fodd â'r penderfyniad.

- b) Esboniwch y gwahaniaeth rhwng y parau hyn:

diwydiant	diwylliant
comin	cae
efengylu	darlithio
diwygiad	chwyldro

- c) Ar y cyd, cynlluniwch sgwrs fer am ardal y dosbarth gan gynnwys yr ymadroddion hyn:

ers llawer dydd; roedd mynd ar; dan ei sang; Sul, gŵyl a gwaith; nerth bôn braich; wedi mynd â'i ben iddo; ar drai; cael dau ben llinyn ynghyd; daw tro ar fyd; ar ben eu digon.

TRAFOD

- i) 'Mae arddull y siaradwr yn ffurfiol iawn'. Casglwch dystiolaeth i gadarnhau neu wrthbrofi'r gosodiad hwn.
- ii) Soniwch am newid yn eich ardal nad ydych yn hapus ag ef.
- iii) Disgrifiwch ardal rydych yn hoff ohoni.

YMADRODDION

hyn a hyn hwn a hwn hon a hon

YSGRIFENNU

Ymadael â'ch ardal enedigol.

Newidiadau yr hoffwn i eu gweld yn fy ardal.

Mynd yn ôl i'r hen ardal heddiw.

GOLYGU'R 'CYMRO' – ATGOFION JOHN ROBERTS WILLIAMS

[Y newyddiadurwr, John Roberts Williams, yn sôn am ei gyfnod yn olygydd ar Y Cymro]

GEIRFA

cyfnod boddhad cylchrediad angerddol
adlewyrchiad methiant dyblu treblu cyfeirio
trosglwyddo cenedlaethol cyfeiriadau golygu
agos atoch argraffiadau bygythiad
traddodiad cyson di-ben-draw

GWRANDO A DEALL

- i) Beth oedd yn rhoi'r pleser mwyaf i John Roberts Williams wrth weithio ar Y Cymro?
- ii) Yn ôl y siaradwr, pwy sydd ar fai pan fydd papur yn methu?
- iii) Pa fath o bobl roedd yn falch eu bod yn darllen Y Cymro?
- iv) Faint oedd cylchrediad y papur pan ddechreuodd e ar ei waith?
- v) Pam mae'n anodd gwerthu papur cenedlaethol?
- vi) Pam mae pobl yn hoffi darllen papurau bro?
- vii) Pa ffactor oedd yn allweddol yn llwyddiant Y Cymro?
- viii) Ydy papurau bro yn fygythiad i bapur cenedlaethol ym marn y siaradwr?
- ix) Ble roedd Y Cymro'n gwerthu orau?
- x) Pa ardaloedd oedd yn anodd? Pam?

IAITH

a) Diffiniwch yn Gymraeg:

cylchrediad bygythiad di-ben-draw
golygydd angerddol argraffiad.

b) Pa air nad yw'n perthyn yn ramadegol neu o ran ystyr i bob un o'r setiau hyn? Pam?

- i) adlewyrchiad; methiant; cyfeirio; bygythiad
- ii) cyfnod; adeg; oes; traddodiad
- iii) cyfeiriadau; angerddol; cyson; di-ben-draw
- iv) haneru; golygu; dyblu; treblu.

c) Mae John Roberts Williams yn sôn am 'sbelio' neu sillafu.

Dyma'r wyddor Gymraeg:

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P
Ph R Rh ST Th U W Y

Nawr rhestrwch y geiriau hyn yn nhrefn yr wyddor:

trosglwyddo; canu; lafant; golygu; rhad;
angerddol; traddodiad; adlewyrchiad;
cenedlaethol; ras; ager; chwarae; thus; Llanelli.

TAFODIAITH

O ran geirfa a phatrwm, does dim llawer o ôl tafodiaith ar iaith John Roberts Williams na'r cyfwelydd yn y darn hwn, ond beth yw'r nodweddion sy'n bradychu eu cefndir?

TRAFOD

Trafodwch un o'r pynciau hyn mewn grwpiau:

- i) Faint o werth sydd i bapurau bro?
- ii) Sut byddech chi'n newid eich papur bro?
- iii) Oes angen papur dyddiol Gymraeg? Pam?
- iv) Beth yw hanfod newyddiadurwr da?
- v) Ydych chi'n darllen papur newydd? Os nad ydych, sut rydych chi'n derbyn newyddion y dydd?

YMADRODDION

di-ben-draw di-droi-nôl di-dderbyn-wyneb

YSGRIFENNU

Fy hoff adran o'r papur newydd.

Ysgrifennwch erthygl fer i'ch papur bro.

JONSI'N SGWRSIO Â MIRIAM JAMES AM EI GWAITH MEWN SIOP LYFRAU

[Y cyflwynydd radio, Jonsi, yn sgwrsio â Miriam James, Llangel, am ei gwaith mewn siop lyfrau ac oriel gelf]

GEIRFA

gwledig cymreigaidd cymharu â ffin ehangu
oriel luniau arlunio amaethyddol cymeriadau
perchen yn bennaf ers talwm addas
uniongyrchol anhygoel dramor gwreiddiol

GWRANDO A DEALL

- i) Ble yn union mae Llangel?
- ii) Pa fath o ardal yw hi?
- iii) Pa rannau o Gymru sy'n gymreigaidd yn ôl Jonsi?
- iv) Sut mae dwyrain Cymru'n wahanol?
- v) Ble mae Miriam James yn gweithio?
- vi) Beth yn arbennig sydd wedi digwydd i'r siop yn ystod y flwyddyn?
- vii) Pa arlunydd sy'n arddangos ei waith yno?
- viii) Beth yw ei hoff destunau?
- ix) Gwaith sawl artist sydd yn yr oriel?
- x) Beth oedd problem yr arlunydd oedd yn ffrind i Jonsi?
- xi) Ble yn union mae'r siop?
- xii) Ydy Miriam James yn arlunydd?
- xiii) Beth mae Jonsi'n hoffi ei wneud dramor?
- xiv) Faint mae e'n ei wybod am arlunio?

IAITH

a) Un o nodweddion iaith Jonsi yw ei fod yn hoffi defnyddio tagiau ar ddiwedd brawddeg. Dyma rai: yn dydy; nag 'dan; ynte fa; yn does; yn dydyn. Gwrandewch ar y recordiad yn ofalus gan nodi pob tag a glywch. Wedyn, ychwanegwch y tagiau cywir i'r canlynol:

- i) Fyddai e byth yn twyllo,.....?
- ii) Yng Nghaerdydd roedd e'n gweithio,.....?
- iii) Does dim arian 'da nhw,?
- iv) Fe brynodd e'r ceffyl,?
- v) Ddylai e ddim siarad fel 'na,?
- vi) Dw i'n iawn,?

- vii) Dwyt ti ddim yn credu hynny,?
- viii) Mi ddaw o rwan,?

b) Edrychwch ar y gwahanol ddefnydd a wneir o'r canlynol a phenderfynwch ydy'r brawddegau'n gywir:

Cymraeg; Cymreig; cymreigaidd; Cymru; Cymry

- i) Mae e'n siarad Cymraeg da.
- ii) Roedd hi'n arfer gweithio yn y Swyddfa Gymraeg.
- iii) Bwrdd Croeso Cymry.
- iv) Roedd ganddi acen gymreigaidd.
- v) Mae nifer o ddawnsiau gwerin Cymreig.
- vi) Roedd ganddi delyn deires Cymru.

c) Pa ansoddeiriau yn disgrifio nodweddion ardal ydych chi'n gallu eu ffurfio o'r enwau hyn?
amaethyddiaeth
diwydiant
gwlad
mynydd
bryn

TAFODIAITH

Nodwch yr elfennau hynny yn iaith Jonsi a Miriam James sy'n eu lleoli. Sut mae iaith y ddau yn ymdebygu neu yn wahanol i'r iaith a glywch chi o'ch cwmpas?

TRAFOD

Cyfwelwch â pherson am ei waith a sôn am hynny wrth y dosbarth.

Oes gennych hoff arlunydd neu hoff ddarlun?
Trafodwch.

Trafodwch bethau o blaid ac yn erbyn gweithio mewn siop.

CD2: TRAC 15

JONSI'N SGWRSIO Â MIRIAM JAMES AM EI GWAITH MEWN SIOP LYFRAU

YMADRODDION

ers talwm; ers llawer dydd; gynt; yr hen
ddyddiau; amser maith yn ôl

YSGRIFENNU

Y lluniau / darluniau ar y wal yn fy nghartref.

Prynu darluniau.

Hapus neu anhapus yn eich gwaith? Pam?

BETH SYDD MEWN ENW?

[Llinos Angharad o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn sôn am enwi'r caffî newydd ar gopa'r Wyddfa ychydig cyn cyhoeddi'r enw swyddogol]

GEIRFA

awdurdod Eryri swyddogol copa'r Wyddfa awgrymiadau chwaneg cynigion cysylltu â safon amrywiaeth trwsogl tafod-ym-moch hafan grug bachog ynganu etifeddiaeth cawr ymgartrefu beddrod blin gelynion ymwybyddiaeth agwedd goruwch-ystafell poblogaidd marchnata

GWRANDO A DEALL

- i) Beth sy'n mynd i gael ei benderfynu?
- ii) Sawl awgrym sydd wedi cyrraedd hyd yn hyn?
- iii) Faint fydd cost yr adeilad?
- iv) Pa fath o enwau sydd wedi cael eu hawgrymu hyd yma?
- v) Nodwch dri enw a awgrymwyd.
- vi) Pa fath o enw maen nhw'n chwilio amdano?
- vii) Pa ddau gymeriad chwedlonol a hanesyddol a enwyd?
- viii) Pa fath o berson oedd Rhita Gawr?
- ix) Beth yw anfantais enw fel Carnedd Eryri yn ôl y cyfweydd?
- x) Pwy fydd yn penderfynu ar yr enw?
- xi) Pa enw o'r Beibl a awgrymwyd?
- xii) Am beth mae'n rhaid ei gofio wrth ddewis enw, yn ôl un o'r siaradwyr?

IAITH

a) Ysgrifennwch frawddegau i ddangos y gwahaniaeth rhwng y berfau canlynol: cartrefu / ymgartrefu; golchi / ymolchi; paratoi / ymbaratoi; tawelu / ymdawelu; dangos / ymddangos.

b) Fel arfer bydd ll>l ac rh>r o dan amodau'r treigladd meddal. Weithiau, fodd bynnag, maen nhw'n gwrthsefyll treiglo. Rhowch y geiriau rhwng cromfachau yn y frawddeg gan dreiglo neu beidio yn ôl y galw:

Torrodd y bachgen ei [llaw]
 Pam mae'r neuadd mor? [llawn]
 Ble mae'r fach? [rhaw]
 Collodd y milwr un goes ac un [llaw]
 yn y[Rhyfel] Fawr.
 Roedd e'n credu bod y dillad yn
 [rhad]
 Mae'r afon yn rhy [llydan] i'w chroesi.
 Dyma'r tro cyntaf i mi fod ar y
 [llong] hon.
 Daliodd e [llygoden] fawr ond
 dihangodd y [llygoden] fach.

c) Defnyddiwch y geiriau hyn a glywsoch chi yn y darn i gwblhau'r brawddegau: etifeddiaeth; gelynion; marchnata; poblogaidd; blin; copa; awgrymiadau; safon.

Roedd y Beatles yn grŵpiawn.

Mae Cristnogion yn dweud bod rhaid inni faddau ein

Dyweddodd y beirniad fod y gystadleuaeth yn isel.

Gair arall am 'cas' yw yng ngogledd Cymru.

Mae'r iaith yn rhan bwysig o y Cymry.

Dringodd y tri i 'r mynydd. Rydyn ni'n chwilio am enw i'r tŷ.

Oes gennych chi?

Methodd y busnes am nad oedden nhw'neu nwyddau yn effeithiol iawn.

TAFODIAITH

Ganwyd ac addysgwyd Swyddog y Parc Cenedlaethol yn ne Cymru . Fasech chi'n dweud bod ei hiaith yn awgrymu hynny? Pa esboniad fasech chi'n ei gynnig?

BETH SYDD MEWN ENW?

TRAFOD

'Hafod Eryri' oedd yr enw a ddewiswyd yn enw ar y caffi newydd ar gopa'r Wyddfa. Ydych chi'n meddwl ei fod yn enw da? Pa enw fasech chi wedi ei ddewis?

"Gan fod mwyafrif yr ymwelwyr i Eryri yn dod o Loegr, dylen nhw fod wedi dewis enw Saesneg fasi'n hawdd ei ynganu".

Trafodwch.

Sut cawsoch chi eich enw? Dywedwch yr hanes. Sôn am enwau doniol neu anaddas ar bobl rydych chi wedi eu clywed.

YSGRIFENNU

Dewis enw.

Taswn i wedi gallu dewis fy enw fy hun, baswn i wedi dewis..... Pam?

Enwau tai ein hardal ni.

HUNANGOFIANT VICTOR SPINETTI

[Evan Morgan yn trafod hunangofiant Victor Spinetti ac yn sôn am ei gysylltiad â'r actor]

GEIRFA

hunangofiant sioe undyn adloniant adeg
clên gwerthfawrogi ymateb darfod llefaru
adrodd magu Coleg Cerdd a Drama
cyffrous hael pigog chwerw gyrfa
ymfalchïo Cymreictod

GWRANDO A DEALL

- i) Ble gwelodd y siaradwr Victor Spinetti yn perfformio?
- ii) Pa mor hir oedd y sioe?
- iii) Pam ffoniodd Victor Spinetti Evan Morgan?
- iv) Faint o amser oedd rhwng y sgwrs ffôn ac ymddangosiad y llyfr?
- v) Ble cafodd Spinetti ei fagu?
- vi) O ble roedd ei fam yn dod?
- vii) Ym mha ddrama wnaeth e ei enw?
- viii) Pa wobwr enillodd y sioe yn America?
- ix) Enwch rai o'r bobl y daeth i'w hadnabod?
- x) Oedd Spinetti wedi cael amser hawdd trwy gydol ei yrfa?
- xi) Faint oedd oed ei fam pan fu farw?

IAITH

a) Mae dwy ffurf luosog gan yr enwau hyn. Lluniwch frawddegau i ddangos y gwahaniaeth:

cyngor	cynghorau	cynghorion
llif	llifogydd	llifiau
llwyth	llwythau	llwythi
person	personau	personiaid
pwys	pwysau	pwysi
pryd	prydiau	prydau
asen	asennau	asennod

b) Mae mwy nag un ystyr i'r geiriau hyn. Ysgrifennwch frawddegau yn dangos y gwahaniaeth:

magu; pigog; swydd; llif; bwrw.

c) Ydy'r geiriau hyn wedi eu sillafu'n gywir?

penderfynnu; ystyrir; derbynneb; ffynhonnellau; anibynnwyr; annheg

TRAFOD

- i) Sôn am bobl adnabyddus rydych chi wedi cyfarfod â nhw.
- ii) Disgrifiwch ddigwyddiad y basech chi am ei gynnwys yn eich hunangofiant.
- iii) Soniwch am berson adnabyddus neu anadnabyddus yr hoffech ddarllen ei hunangofiant.
- iv) Ydy hi'n bosib ysgrifennu hunangofiant hollol onest? *Trafodwch.*

YMADRODDION

ffasiwn raconteur (y fath)

YSGRIFENNU

Portread cryno o berson rydych chi'n ei adnabod / edmygu.

Un cymeriad y basai rhaid ichi ei gynnwys yn eich hunangofiant.

ATEBION

CD I

CDI: TRAC 1

- a)
St Davids – Tŷ Ddewi; Brecon – Aberhonddu;
Holyhead – Caergybi; Fishguard – Abergwaun;
Denbigh – Dinbych; Welshpool – Y Trallwng;
Newport (Gwent) – Casnewydd; Chepstow –
Casgwent.
- b)
da – gorau; drwg – gwaethaf; bach – lleiaf; hawdd –
hawsaf; agos – agosaf / nesaf; llydan – lletaf; tlawd –
tlotaf; caredig – caredicaf.
- c)
Hwyliai'r cwch ar draws y bae. Tom oedd ar fai am y
ddamwain.
Profodd y teuluoedd galedi yn ystod y streic. Ydy'r
paent wedi caledu eto?
Roedd 100 yn canu yn y côr. Cor oedd Tom Thumb.
Cysgai'r baban yn y crud. Roeddwn i'n oer ac roedd y
cryd arna' i.
Dw i ddim yn mynd i'r parti chwaith. Doedd ganddi
ddim chwaeth dda wrth ddewis dillad.

CDI: TRAC 2

- a)
traffig / trafndiaeth; ciw / cwt; oedi / gohirio; ar amser
/ yn brydlon; parhau / dal i.
- b)
ffordd (ffyrdd) – road; cyffordd – junction; traffordd –
motorway; ffordd ddeuol – dual carriageway;
pontffordd – viaduct; croesffordd – crossroads;
priffordd – main road; heol (hewl) fawr – main road
(de Cymru)
- c)
Abertawe; Baglan; Pentre-bach; Abercynon;
Caerfyrddin; Cei Connah.

CDI: TRAC 3

- a)
gwaethaf ii) ganiatáu iii) threisio iv) gweill
v) prydau bwyd ysgol vi) gwyliaidwriaeth.
- b)
ymchwil – astudio rhywbeth yn fanwl iawn i'w ddeall;
carcharor – person sy'n cael ei gadw'n gaeth;
llofruddio – lladd person yn anghyfreithlon;
awgrymu – cynnig syniad i'w ystyried; Llys y Goron –
y llys uwchben y llys ynadon lle y gwrandewir ar
achosion difrifol; cipio – dal person yn anghyfreithlon.
- c)
Agorir y ffair gan y Maer.

Carcharwyd y bachgen.

Trefnir y gyngerdd gan Gyngor y Dref.

Lladdwyd y baban gan ei fam.

Siaredid Cymraeg yno unwaith.

Gwerthir y tŷ yfory.

Gwerthid dillad yno flynyddoedd yn ôl.

Cymerir y brif ran yn y ddrama gan Dewi.

CDI: TRAC 4

- a)
gwrthwynebiad / bod yn erbyn; ymgynghoriad / holi
barn pobl; trigolion / preswylwyr; ymdopi / llwyddo i;
pendant / sicr; cynlluniau / bwriadau.
- b)
anwir; anwir; gwir; anwir; anwir; gwir.
- c)
Torrodd y dyn ewin ei fys â siswrn. Mae llawer o
ewyn ar Guinness.
Roedd y plant yn ffraeo dros bêl. Rhaid imi ffrio'r cig
moch.
Roedd e'n lân ar ôl cael bath. Cerddais ar hyd glan yr
afon.
Roedd e'n hael iawn yn rhoi ei arian i achosion da.
Mae'r haul yn disgleirio heddiw.

ATEBION

Fe'u syfrdanwyd gan hud yr olygfa. Faint yw hyd cae rygbi?

CDI: TRAC 5

Bydd yr atebion yn amrywio o ardal i ardal.
glan y môr; caniatâd; caniatáu; glöwr; glowyr; coffáu.
i) erioed ii) gyda'i gilydd iii) ie iv) Gaerdydd v) heno

CDI: TRAC 6

a)
treulio esgidiau; gwario arian; treulio amser

arbed traed; achub person; cynilo arian

yn debygol o droi'n wlyb; yn debyg i'w fam

c)
on'd ydw i? ii) ydy e/o? iii) on'd oedden nhw?
iv) fyddi di? v) oedd e? vi) on'd do; vii) ynte fe?
viii) on'd oes?

CDI: TRAC 7

a)
anghredadwy; anghristnogol; anghyfartal;
anghyfreithlon; anghyfleus; anghyffredin; anghywir;
anghyson; anghyfarwydd.

b)
priodas (b); hiraeth (g); undeb (g); swyddfa
(b); emyn (g); wythnos (b); nos Lun (g); coron (b).

c)
P'un oedd y drydedd eitem?
Hon yw'r unfed awr ar ddeg.
Sbaen oedd y bumed wlad i mi ymweld â hi.
Roedd e'n byw yn y ddeunawfed ganrif.
Dw i'n gofyn iti am yr ail waith.
Roedd y bedwaredd act yn rhy hir o lawer.

CDI: TRAC 8

a)
hanesyddol / yn digwydd am y tro cyntaf; iaith y
nefoedd / Cymraeg; y gofod / y tu hwnt i'r byd;
mentro / ceisio; dychwelyd / mynd yn ôl; hanu / yn
dod o; uchelgais / awydd i gyflawni rhywbeth.

b)
dwy iaith; dwy long; dau dro; dau bennill; dwy bennod;
dwy awr; dwy wlad; dau ofodwr.

c)
Siarada o'r gofod, Dafydd!
Roedd y llong ofod yn llawn.
Roedd gweld y byd o'r llong yn rhyfedd.
Fe'i galwyd yn Rhys.
Roedd e'n siarad filltiroedd uwchben y ddaear.
Roedden nhw'n gallu gweld sawl gwlad.

CDI: TRAC 9

a)
ffordd / ffyrdd; lôn / lonydd; traffordd / traffyrdd;
croesfan / croesfannau; lori / lorïau; cwmwl / cymylau;
gwynt / gwyntoedd; storm / stormydd; awel / awelon;
cawod / cawodydd; taran / taranau.

b)
S-E – de-ddwyrain; N – gogledd; N-W – gogledd-
orllewin; E – dwyrain; S-W – de-orllewin; W –
gorllewin; N-E – gogledd-ddwyrain; S – de.

c)
Disgwylir cawodydd o eira yfory.
Cafwyd glaw yn y de-ddwyrain y bore 'ma.
Bydd glaw yn lledu o'r gorllewin yn y prynhawn.
Bydd cawodydd ysbeidiol yn ystod y nos.
Cafwyd glawogydd trymion am wythnos gyfan.
Bydd y tymheredd yn codi i 12 gradd selsiws.
Disgwylir i'r gwynt ostwng erbyn y prynhawn.
Cafwyd tywydd cyfnewidiol yn ystod y mis.

ch)
Hwylodd y llong i Iwerddon.
Mae'n well gen i'r haf.
Ydy'r Parch Tom Jones yn byw yma?
Daliodd y gath y llygoden.
Dw i'n hoffi cerdded ar lan (Afon) Tywi.
Ydych chi'n nabod y ddau ddyn?
Chi biau'r rhain?
Roedd e'n eistedd yn yr haul.

CDI: TRAC 10

b)
dwyfol; dynol; tyrfa; cadernid; milwrol.

c)
hamddenol; dwys; o ddifrif; pwylllog.

ATEBION

CDI: TRAC 11

a)
cerdd – rhigwm; ofnadwy – erchyll; adeiladu – stofi;
cysgodi – cuddio; symbyliad – ysbrydoliaeth.

b)
Roedd y fyddin yn amddiffyn y wlad rhag y gelyn.
Mae'n anodd atal y gwleidydd rhag dweud ei farn.
Mae'r plant yn fach ac mae Tom am gadw'r
newyddion rhagddyn nhw.

Wnei di ddim dianc rhagddi hi.
Roeddwn i'n gwybod ei fod yn ceisio ffoi rhagddo i.
Daeth storm a cheision ni gysgodi rhagddi.
Roedd rhaid iddyn nhw guddio rhag y milwyr.
Er gwaethaf y tân, achubwyd y plant rhagddo.

c)
Enghreifftiau:
morgrugyn; gwenynen; chwilen; iâr fach yr haf;
lindysen; crisyn; jac-y-baglau; gwas y neidr; chwilen
glust; mwydyn / pryf genwair; chwannen; cleren;
cacynen; gwybedyn; ceiliog y rhedyn; lleuen; gwyfyn;
mochyn coed; malwoden.

TRAFOD

Cyntaf i'r felin gaiff falu.
A fo ben bid bont.
I'r pant y rhed y dŵr.
Gorau Cymro, Cymro oddi cartref.
Gwyn y gwêl y frân ei chyw.
Angel pen ffordd, diawl pen pentan / pen tân.

CDI: TRAC 12

a)
gast-ci; llewes-llew; caseg-march; hwch-mochyn; iâr-
ceiliog; gŵydd-clacwydd; buwch-tarw.
b)
Yn yfed fel ych; Yn rhegi fel paun; Yn siarad fel pwll y
môr; Yn rhochian fel mochyn; Yn gweithio fel lladd
nadoedd.

c)
allt – rhiw, tyle (gogledd); llethr goediog (de)

diniwed – diddrwg / naif (de); gwan ei feddwl
(gogledd)

llofft – llawr cyntaf y tŷ (de); ystafell wely (gogledd)

blin – drwg gan (de); dig (gogledd)

CDI: TRAC 13

a)
tarw / rhuo; dafad / brefu; ceffyl / gweryru; mochyn /
rhochian; buwch / brefu; llygoden / gwichian; ci /
cyfarth; cath / mewian; gafr / brefu; iâr / clwcian.

b)
Cerddodd Dewi i'r ysgol gan ganu'n uchel.

Neidiodd y plant i mewn i'r llyn gan weiddi'n gyffrous.

Aeth Mari i'r gwely gan grio yn ei thymer.

Yfodd y dyn ei de gan ddarllen y papur.

Mae Elwyn yn cerdded i'r ysgol gan chwibanu.

Aethon nhw heibio gan weiddi ar y plant eraill.

c)
Yn ôl rheolau gramadeg dylai'r ail air ym mhob un o'r
ymadroddion dreiglo'n feddal. Ond dydyn nhw ddim
am fod 'braf' a 'byth' yn eiriau benthyg ac mae'r 's' ar
ddiwedd y gair cyntaf yn y pâr arall yn caledu'r 'd' sy'n
dilyn!

ch)
cadno / llwynog; cer / dos; dere / tyrd; hogyn /
bachgen; gyda / efo; mo'yn / isio; dod / dwad; taw /
mai.

CDI: TRAC 14

a)
cymen / trefnus; dilys / gwir; cyflafan / brwydr;
cofleidio / anwesu; ymward / achub; bwystfilaid /
treisgar; gwiw / addas; dychrynfeydd / ofnau;
gosgordd / gwarchodlu

b)
cyflafan – brwydr waedlyd; gosgordd – rhai sy'n
hebrwng ac amddiffyn eraill; noddwr – un sy'n helpu
trwy roi arian i berson neu at achos; dinoethi –
dangos rhywbeth neu rywun fel y mae; dilys –
rhywbeth sy'n wir a heb dwyll.

c)
dirprwy – person sy'n cymryd lle un arall; gwaywffon
– arf rhyfel a deflid; cyflafan – brwydr waedlyd;
noddwr – rhywun sy'n helpu person arall drwy roi
arian iddo; sofraniaeth – hawl gwlad i reoli ei hun;
diwydrwydd – gweithgarwch cyson.

ATEBION

CDI: TRAC 15

a)
partner – partneriaeth / partneriaid; tlawd – tlotaf / tloidi; Crist – Cristionogol; swydd – swyddogion; gweld – gweledigaeth; meddyg – meddygaeth / meddygol; cyfrif – cyfrifiaduron; peiriant – peirianwyr; gwlad – gwleidyddion.

b)
bwrw golwg – edrych dros; partneriaeth – cydweithio; argyhoeddiad – cred sicr; cysylltiad – y berthynas rhwng dau beth; awydd – eisiau gwneud neu gael rhywbeth; cefnogi – helpu, cynorthwyo; tloidi – bod heb arian; meddygaeth – gwyddor gwella iechyd.

c)
swyddogion; blaenoriaid; cyfrifiaduron; peirianwyr; gwleidyddion; asiantaethau.

CDI: TRAC 16

a)
proffwydo – gweld i'r dyfodol; ystadegau – ffigurau; dychryn – braw; dwyn perswâd ar – argyhoeddi; cynhesrwydd – gwres; sir – swydd; hinsawdd – tywydd.

b)
darlledwraig - darlledu + gwraig; daargryn - daear + crynu; tanbriso - tan / dan + prisio; adolygwraig – adolygu + gwraig; cyfieithwraig – cyfieithu + gwraig.

c)
bisgjen – bigedi; chwaer – chwiorydd; brawd – brodyr; gŵr – gwŷr; llaw – dwylo; sipsi – sipsiwn; rhiant – rhieni; ci – cŵn.

ch)
hinsawdd – patrwm cyffredinol y tywydd; tywydd – patrwm lleol, dyddiol yr elfennau.

papurau trymion – papurau cenedlaethol sy'n trafod materion pwysig yn fanwl; papurau bro – papurau lleol yn trafod materion lleol.

terfysgaeth – brwydro answyddogol gan grwpiau i gyrraedd nod arbennig; rhyfel – brwydro rhwng byddinoedd swyddogol.

anwybyddu – gadael rhywun neu rywbeth dan sylw; casáu – drwglicio rhywbeth neu rywun yn fawr; bywyd – y broses o fyw a bod; bywoliaeth – y dull o ennill arian i ymgynnal.

CDI: TRAC 17

a)
gweinyddwr / gweinyddu; cyhoeddwr / cyhoeddi; barnwr / barnu; dathliad / dathlu; cefnogaeth / cefnogi; arbenigrwydd / arbenigo; erlidigaeth / erlid.

b)
cynghreiriaid; sonnir; amgaeëdig; ar wahân; annhebygol; ysgrifennaf.

c)
sicr / siŵr; ffoi / dianc; croesholi / cwestiynu; diffuant / didwyll; anhysbys / anadnabyddus; offer / cyfarpar; cyntefig / hen; ysgogi / annog; cyrch / ymosodiad; penbleth / cyfyng-gyngor.

CDI: TRAC 18

a)
dinas / dinesig; tref / trefol; gwlad / gwledig; plwyf / plwyfol; byd / bydol; cyfandir / cyfandirol; rhanbarth / rhanbarthol.

b)
i) anwir ii) gwir iii) gwir iv) anwir vi) gwir vii) anwir viii) gwir.

c)
i) hanesydd ii) awduron iii) nofelydd iv) beirniad v) cofiannydd vi) dramodydd vii) newyddiadurwr viii) fardd.

CDI: TRAC 19

a)
diffyg / bai; pencadlys / prif swyddfa; claeur / llugoer; cysylltu â / siarad â; cyd-fynd â / cytuno â.

b)
i) canllawiau ii) pennu iii) iawndal iv) gyd-destun v) cyfanswm vi) camarwain

c)
nawr / rwan; angladd / cynhebrwng; llaeth / llefrith; allwedd / agoriad; bord / bwrdd; merch / geneth; arian / pres; brwnt / budr.

CDI: TRAC 20

a)
tîm (gwr.); cic (ben.); llinell (ben.); tacl (ben.); ystlys (ben.); ochr (ben.); cae (gwr.); bwlch (gwr.)

b)
Roedd e'n byw ganllath o'r capel.
Mae'r stadiwm ddwy filltir o'r dref.

ATEBION

Gwelais i Tom dri mis yn ôl.

Dw i wedi bod yno gannoedd o weithiau.

Chwaraeon nhw'r gêm ddechrau'r flwyddyn.

Pasiodd e'r arholiad rywsut neu'i gilydd.

c)

possession – meddiant; to counter attack – gwrthymosod; the blind side – yr ochr dywyll; a throw – taflad; second row forward – yr ail reng; a number eight – wythwr; a conversion – trosiad; a penalty – cic gosb; the 10 metre line – y llinell ddeg; the touchline – yr ystlys.

CD1: TRAC 21

a)

Roedd y rhieni wedi trefnu ymgyrch i geisio achub ysgol y pentref.

Edrychais i ar gyfres o raglenni ar y teledu.

Ar ôl rhoi'r holl ddadleuon yn y dafol teimlais fy mod wedi dewis yn iawn.

Mae nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg gartref yn cynyddu.

Dw i ddim yn cytuno â nhw yn gyfangwbl.

Mae safon addysg yn gostwng yn ôl rhai.

Oes darn arall o bapur 'da chi? Mae hwn wedi rhwygo.

Roedd plant o ystod oedran 3-11 yn yr ysgol.

b)

ffurfiol / anffurfiol; sefydlog / ansefydlog; ufudd / anufudd; gweddus / anweddus; ystwyth / anystwyth; gwybodus / anwybodus; gweledig / anweledig; sicr / ansicr.

c)

ymgyrch – ymgais i ennill cefnogaeth pobl; ymchwil – astudiaeth fanwl o bwnc; ffurfiol – yn cadw at y rheol; cynyddu – rhywbeth yn tyfu; cyfres – nifer o eitemau olynol sy'n perthyn i'w gilydd.

CD 2

CD2: TRAC 1

a)

Roedd y tywydd wedi effeithio ar y gêm.

Ydych chi'n gyfarwydd â'r ardal?

Mae hi wedi blino arnyn nhw.

Addawodd hi i'r plant y basen nhw'n mynd i'r parc.

Peidiwch anghofio amdanon ni!

Dw i ddim yn gallu ateb drosoch / drostoch chi a'ch brawd.

Doeddwn i erioed wedi clywed amdanyn nhw.

Ysgrifennais i ati hi unwaith.

b)

Cafodd y ffilm ei gwneud tua phum mlynedd yn ôl.

Fe welais ambell ddafad ar y mynydd.

Phrynodd e mo'r tŷ wedi'r cyfan.

Ydy'r tocyn ym mhoced Dewi?

Bwytais i fara, caws a theisen.

Dewch yma ar unwaith, blant!

Ydy'r sgert goch yn rhy dyn?

Oes gen ti bunt i'w rhoi i'r ferch dlawd?

c)

Gwelodd merch fachgen yn mynd heibio.

Dewch â'r car, os ydy'n bosibl.

Pa lyfr brynaist ti?

Roedd y siop ganllath o'r orsaf.

Sawl bachgen sydd â diddordeb mewn rygbi?

Dyma'r papur y gofynnaist ti amdano.

Cofia fynd i Swyddfa'r Post.

Mae Mari'n blentyn da iawn.

CD2: TRAC 2

a)

anghrediniwr – person sy ddim yn credu; Llychlyn – gwledydd Denmarc, Sweden, Norwy a Gwlad yr Iâ; egwyddor – syniad sy'n sylfaenol i ddaliadau rhywun; uchelwydd – planhigyn sy'n tyfu fel parasiteit ar goed ac a ddefnyddir fel addurn adeg y Nadolig.

b)

arth > eirth; arch > eirch; cart > ceirt; iâr > ieir; marw > meirw; sarff > seirff.

c)

Doedd e ddim yn hoffi'r holl gardiau.

Dydyn ni ddim yn gallu gweld ein hunain bob amser.

Doedden nhw ddim eisiau unrhyw fath o sumbolau Cristnogol ar y stampiau.

ATEBION

Ces i'r un rhad a chafodd fy mrawd y llall.
Dyma dy garden di, ond ble mae fy un i?
Cafodd y plant bob o £5 i fynd i'r dref.
Roedd un plentyn yn absennol o'r dosbarth.
Cerddais i ryw filltir ar hyd y ffordd.
Chlywodd e mo'r ffôn yn canu gan ei fod e'n hollol fyddar.
Does dim hoelion ar ôl. Oes rhai gen ti?
ch)
Dydyd ni ddim yn anwybyddu Cristnogion na Nadolig.
Dydyd ni ddim am dramgwyddo'r Eglwys Gristnogol o gwbl.
Yn sicrhau y byddwn ni'n aryneilio rhwng thema grefyddol a themâu digrefydd.
Mae'r ffaith ein bod ni'n cynhyrchu stampiau at yr ŵyl yn nodweddiadol o'r Nadolig.

CD2: TRAC 3

a)
gweithred > gweithredu; sefydliad > sefydlu;
ymosodiad > ymosod; trais > treisio; ympryd > ymprydio.
b)
Pan oedd y carcharor yn ymprydio doedd e ond yn yfed dŵr.
Prif egwyddor y gwleidydd oedd sicrhau chwarae teg i bawb.
Dywedwyd ei fod yn ddyd treisgar; yn curo ei wraig a'i blant.
Bu llawer yn ymgyrchu i sicrhau'r bleidlais i ferched.
Ar un adeg, roedd y capel yn sefydliad pwysig ym mhob tref.
Roedd Sylvia'n berson blaengar mewn sawl maes.
c)
y tair merch; y ddwy ferch; y pedair chwaer; y drydedd ferch; y bedwaredd ferch; y tair; y ddwy; y ddau.

CD2: TRAC 4

a)
haid o adar; praidd / gyr o ddefaid; haig o bysgod;
ciwed / haid o ladron; buches o wartheg / dda; tyrfa o bobl; haid o wenyn.
b)
Adar o'r un lliw hed i'r un lle.

Gwyn y gwêl y frân ei chyw.
Un wennol ni wna wanwyn.
Lle crafa'r iâr y piga'r cyw.
c)
Wrth sôn am afonydd does dim eisiau'r fannod gan fod enwau priod eisoes yn bendant.
ch)
Dysgwch yr ymadroddion a restrir.

CD2: TRAC 5

a)
penigamp – ardderchog; paradwys – lle perffaith; her – rhywbeth anodd mae'n rhaid ei wneud; prifardd – bardd buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol; hynaws – dymunol; dynwared – siarad a symud fel rhywun arall; plasty – tŷ anferth; greddf – gweithredu heb feddwl.
b)
cynhyrchydd / cynhyrchu; her / herio; portread / portreadu; disgyblaeth / disgyblu; cyfansoddwr / cyfansoddi.
mynwes / mynwesol; swyddog / swyddogol; greddf / greddfol.
c)
Welaist ti'r rhaglen neithiwr? Do / Naddo.
Am saith o'r gloch est ti? Ie / Nage.
Maen nhw yn y tŷ. Ydyn / Nac ydyn.
Yn y bath roedden nhw. Ie / Nage.
Ddylech chi ennill? Dylwn / Na ddylwn neu Dylen / Na ddylen.
Fydd y plant yn dod? Byddan / Na fyddan.
Roedden ni'n hwyr ddoe. Oedden / Nac oedden neu Oeddech / Nac oeddech.
Fuest ti allan neithiwr? Do / Naddo.
Faswn i'n ei hadnabod hi? Baset / Na faset neu Basech / Na fasech.
Teifion Davies? Ie / Nage.

CD2: TRAC 6

a)
Cyfarch ffrind agos. (Ti)
Disgybl yn siarad ag athro. (Chi)
Siarad â phlentyn ifanc. (Ti)
Athro yn cyfarch dosbarth. (Chi)
Holi plismon ar y stryd. (Chi)
Siarad â'ch plentyn. (Ti)

ATEBION

b)
dere / dewch; ewch / dos; gwnei / gwnewch; doi /
dewch; est ti / aethoch chi; gwnei / gwnewch; dylet /
dylech; gwyddost / gwyddoch.

c)
i) Faset ii) byddi / arhosi iii) dewch iv) Ydych
v) ddoi vi) Wnewch vii) Taset / Pe baset viii) est
ix) ewch x) doeddet

CD2: TRAC 7

a)
Cyfweliad – cyfle i holi rhywun sy'n cynnig am swydd
etc.

Clyweliad – cyfweliad lle mae actor / cerddor yn
gorfod perfformio hefyd.

Marchogaeth – teithio ar gefn ceffyl.

Marchogion – milwyr yn yr Oesoedd Canol.

Tîm – gair llai parchus am ran ôl y corff.

Pen ôl – rhan ôl y corff [cf. Saes 'bum' ac 'arse'].

Shwd mae? – cyfarchiad i rywun rydych yn ei nabod
yn dda.

Sut ydych chi? – cyfarchiad i fwy nag un person, i
rywun nad ydych yn ei nabod yn dda, rhywun hŷn,
neu rywun rydych yn ei barchu.

Estyn – rhoi rhywbeth i rywun â'ch llaw.

Ymestyn – estyn eich cymalau i'w llawn hyd.

Hyfforddi – dweud wrth rywun arall beth i'w wneud.

Ymarfer – defnyddio sgiliau er mwyn eu gwella.

Cyfarwyddwr – person sy'n llywio datblygiad corff,
perfformiad neu gwmni.

Cyfarwyddyd – cyngor manwl sut i wneud rhywbeth.

Drwg – rhywbeth nad yw'n dda.

Erchyll – rhywbeth drwg iawn.

b)
Y ffurfiau cywir yw:

Iwerddon; Yr Alban; Teifi; y Gymraeg; Amwythig; Y Bala;
Y Fenai.

c)
Iwerddon / Gwyddel / Gwyddeles / Gwyddelod; Yr
Eidal / Eidalwr / Eidales / Eidalwyr; Lloegr / Sais /
Saesnes / Saeson; Ffrainc / Ffrancwr / Ffrances /
Ffrancod; Gwlad Pwyl / Pwyliaid / Pwyles / Pwyliaid; Yr
Almaen / Almaenwr / Almaenes / Almaenwyr.

CD2: TRAC 8

a)
cardota; mwyara; diota; gwledda; merlota; busnesa;
ciniawa.

b)
hollt / rhwyg; perfedd / canol; meddyginiaeth /
moddion; affwysol / dybryd; galluogi / hwyluso;
hyder / sicrwydd; taeogrwydd / gwaseidd-dra.

c)
80% - pedwar ugain y cant; 100% - cant y cant.

CD2: TRAC 9

a)
a corner kick – cic gornel; penalty box – y blwch
cosbi; to counter-attack – gwrthymosod; a cross –
croesiad; a header – peniad; a throw-in – tafliaid i
mewn; a forward – blaenwr; a run – rhediad; a goal-
kick – cic gôl; to be offside – camsefyll.

b)
Mae e'n **dal** i frwydro.

y cyfnod pan oedd Cymru ar ei **gorau** o dan Mark
Hughes.

yn gwthio un neu ddau o chwaraewyr Cyprus **oddi**
ar y bêl.

yn caniatáu i fechgyn Cymru ddod nôl yn un **rhes** ar
draws y **cwrt cosbi**.

roedd e'n gyd-chwarae **bendigedig** yng nghanol y cae.
ond ei **gyffyrddiad** cyntaf ychydig bach yn rhy galed.

Mae'r **dorf** ar ei thraed.

c)
Y ffurfiau cywir yw: oddi ar; oddieithr; oddi wrth;
oddi am.

CD2: TRAC 10

a)
Roedd Brynaman a Llanuwchllyn yn bentrefi
diwylliedig.

Dechreuodd Dafydd ymddiddori mewn rhaglenni
canu pop yn y **pumdegau**.

Am nad oedd e'n canu offeryn, roedd rhaid iddo
ganu'n **ddigfeiliant**.

Cafodd e **flas** ar ganu.

Aeth swyddogion yng Nghlan-llyn i banics **yn ofni**
bod reiat ar eu dwylo.

Cyflwynodd y gwersyllwyr **ddeiseb** i'r BBC yn gofyn
am gweld Dafydd ar y teledu.

ATEBION

b)
Sylwch fod y geiriau sy'n gorffen yn *-eb*; *-fa*; *-aeth* i gyd yn fenywaidd tra bod y rhai sy'n gorffen ag *-wch*; *-edd* yn wrywaidd.

c)

ar ddamwain	ar siawns
ar bigau'r drain	yn bryderus ac anghysurus
â'i wynt yn ei ddwrn	ar frys mawr
bod â dwylo blewog	bod yn lleidr
ar gyfeiliorn	ar grwydr
at ei gilydd	ar y cyfan
prynu cath mewn cwd	mentro heb sicrwydd
heb na bw na be	heb yngan gair
yn ei unfan	heb symud
ceffyl blaen	un sy'n hoffi arwain

CD2: TRAC 11

a)
yn llydan agored – ar agor led y pen
calon yn curo'n drwm – â'i galon fel gordd
roedd yn hawdd iddo – nid oedd drafferth yn y byd
diflannwch, ferch – o'r golwg, ferch
safodd lle roedd e – arhosodd yn ei unfan
cerdded heb sŵn – cerddodd ar flaenau'i draed
rhewodd ei waed – fferu am eiliad
y cythraul! – y gwalch!

b)
diolch i'r drefn; aeth at y ffenest; erfyn am gael; dal di
atyn nhw; gwranddo ar ei galon; gafaél yn; cau am

c)
fferu – rhewi; bwtri – pantri; dudew – tywyll; ceryddu
– dwrdio; gruddiau – bochau; cilagored – hanner
agored; gordd – morthwyl pren; dwrn – bwlyn;
gwalch – dihiryn.

CD2: TRAC 12

a)
Roedd e'n rhyfeddol o ddewr yn wyneb y gelyn.
Siaradais ag ef aml i dro yn y pentref.
Dw i ddim wedi bod yno ers tro byd.
Roedd pâr da o esgidiau am fy nhraed.
Mae Eferest yn glamp o fynydd.

b)
gobeithio – hyderu; sydyn – disymwth; symud –
mudo; ers amser – ers tro byd; tlawd – llwm / moel;
chwerwder – surmi; anghymarol – dihafal; het fawr –
clamp o het

c)
DYMUNOL: ffraeth; caredig; galluog; cymwynasgar;
hynaws; siriol.
ANNYMUNOL: twp; cwynfanllyd; swrth; byrbwyll;
cybyddlyd; ffaidd.

CD2: TRAC 13

a)
Hen bentref yw Cefn-bryn-brain. [Anwir]
Doedd dim diwydiant yn yr ardal. [Anwir]
Mae'n sefyll yn ymyl Cwmllynfell. [Gwir]
Roedd achos Methodistaidd yng Nghwmllynfell yn
amser Cromwell. [Anwir]
Dydy'r siaradwr ddim yn byw yno nawr. [Gwir]
Penderfynodd y Swyddfa Gymreig adleoli'r pentref.
[Gwir]
Mae'r siaradwr wrth ei fodd â'r penderfyniad. [Anwir]

b)
diwydiant – y gwahanol fannau gwaith mewn ardal.
diwylliant – y pethau sy'n difyrru pobl ac sydd o
ddiddordeb iddynt.
comin – tir sy'n eiddo i gymdogaeth gyfan.
cae – darn caeedig o dir ac arno borfa.
efengylu – ceisio ennill pobl i ffydd arbennig.
darlithio – siarad ar bwnc arbennig er mwyn diddanu
neu addysgu.
diwygiad – ennill llawer o bobl i grefydd.
chwyldro – newid pethau mewn gwlad trwy rym
grwpiau pwyso.

c)
Enghraifft : Ers llawer dydd roedd mynd ar y pyllau
glo yn y cymoedd. Roedd y capeli a'r tafarnau dan eu
sang a phobl yn gweithio Sul, gŵyl a gwaith. Yn y pwll,
dibynnai dynion ar nerth bôn braich i ennill
bywoliaeth. Ond erbyn hyn mae'r pwll wedi mynd â'i
ben iddo ac mae popeth yn y gymdeithas ar drai.
Mae teuluoedd yn ei chael hi'n anodd cael dau ben
llinyn ynghyd. Does ond gobeithio y daw tro ar fyd.
Os digwydd hynny bydd pawb ar ben eu digon.

CD2: TRAC 14

a)
cylchrediad – y nifer o gopiau o'r papur a werthir;
bygythiad – rhywbeth sy'n peryglu eich sefyllfa; di-
ben-draw – heb ddiwedd; golygydd – y person sy'n
gyfrifol am gynnwys papur newydd; angerddol –
teimlo yn gryf iawn; argraffiad – rhifyn o bapur a

ATEBION

anelir at ardal arbennig.

b)

i) cyfeirio (berfenw ymhlith enwau);

ii) traddodiad (y lleill yn cyfeirio at amser);

iii) cyfeiriadau (enw, tra bod y lleill yn ansoddeiriau);

iv) golygu (y lleill yn cyfeirio at newid maint rhywbeth)

c)

adlewyrchiad; ager; angerddol; canu; cenedlaethol;

chwarae; golygu; lafant; Llanelli; ras; traddodiad;

trosglwyddo; thus.

CD2: TRAC 15

a)

Fyddai e byth yn twyllo, fyddai e?

Yng Nghaerdydd roedd e'n gweithio, yntefe?

Does dim arian 'da nhw, oes e?

Fe brynodd e'r ceffyl, on'd do fe?

Ddylai e ddim siarad fel 'na, ddylai e?

Dw i'n iawn, on'd ydw i?

Dwyt ti ddim yn credu hynny, wyt ti?

Mi ddaw o rwan, oni ddaw?

b)

i) cywir ii) anghywir: y Swyddfa Gymreig iii)

anghywir: Bwrdd Croeso Cymru iv) cywir v) cywir vi)

anghywir: delyn deires Gymreig.

c)

amaethyddiaeth > amaethyddol; diwydiant >

diwydiannol; gwlad > gwledig / gwladol / gwladaidd /

gwladgarol / gwlatgar / gwladwraidd; mynydd >

mynyddig / mynyddog; bryn > bryniog.

CD2: TRAC 16

a)

Doedd ganddyn nhw ddim digon o le i gartrefu'r holl blant.

Mae'r teulu wedi ymgartrefu'n dda yn Ffrainc.

Wyt ti wedi golchi dy wallt?

Rhaid iti ymolchi cyn mynd i'r ysgol.

Mae hi yn y gegin yn paratoi cinio.

Rhaid imi ymbaratoi cyn traddodi'r ddarlith.

Doedd yr athro ddim yn gallu tawelu'r dosbarth.

Er gwaethaf yr holl gyffro, ymdawelodd pan welodd ei

fam.

Dangosa dy basport imi.

Roedd e'n ymddangos yn nerfus iawn.

b)

Torrodd y bachgen ei law.

Pam mae'r neuadd mor llawn?

Ble mae'r rhaw fach?

Collodd y milwr un goes ac un llaw yn y Rhyfel Fawr.

Mae'r afon yn rhy lydan i'w chroesi.

Dyma'r tro cyntaf imi fod ar y llong hon.

Daliodd e lygoden fawr ond dihangodd y llygoden fach.

c)

Roedd y Beatles yn grŵp poblogaidd iawn.

Mae Cristnogion yn dweud bod rhaid inni faddau ein gelynyon.

Dywedodd y beirniad fod safon y gystadleuaeth yn isel.

Gair arall am 'cas' yw 'blin' yng ngogledd Cymru.

Mae'r iaith yn rhan bwysig o etifeddiaeth Cymru.

Dringodd y tri i gopa'r mynydd.

Rydyn ni'n chwilio am enw i'r tŷ. Oes gennych chi awgrymiadau?

Methodd y busnes am nad oedden nhw'n marchnata eu nwyddau yn effeithiol iawn.

CD2: TRAC 17

a)

Mae nifer fawr o gynghorau sir yng Nghymru.

Cafodd y bachgen lawer o gynghorion gan ei rieni wrth fynd oddi cartref.

Roedd llawer o lifogydd yn yr afonydd yn y gogledd.

Mae eisiau hogi'r llifiau cyn llifio coed.

Mae rhai o lwythau Brasil mewn perygl o ddiflannu.

Mae llwythi o dywod yn dod i'r safle adeiladu bob dydd.

Doedd e ddim yn nabod llawer o bersonau yn yr ardal.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn brin o bersoniaid.

Wyt ti wedi colli pwysau? Rwy'ti'n edrych yn deneuach.

Dw i'n prynu pwysi o datws ar y tro.

ATEBION

Ar brydiau mae hi'n blino.
Cawson ni brydau bwyd ardderchog yn Ffrainc.

Torrodd ei asennau wrth chwarae rygbi.
Gwelais yr asennod yn cario plant ar y traeth.
b)
Cafodd Tom ei fagu yn Ffrainc.
Mae'r fam yn magu'r baban mewn siôl.
Dechreuodd e fagu pwysau.

Roedd y mieri'n bigog a chafodd e loes wrth gasglu
mwyar.
Gofala sut rwyf ti'n siarad am ei bod hi'n bigog iawn.

Roedd hi'n byw yn Swydd Buckingham unwaith.
Cafodd y bachgen swydd mewn ffatri.

Defnyddiodd lif i dorri'r goeden.
Welais i erioed gymaint o lif yn yr afon.

Paid â bwrw dy frawd bach!
Byddaf yn mynd, a bwrw ei bod hi'n sych.
Mae e'n bwrw'r Sul yng Nghaerdydd.
Roedd hi wedi bod yn bwrw ac roedd y pafin yn
wlyb.
c)
Dyma'r sillafiad cywir:
penderfynu; ystyrir; derbynneb; ffynonellau;
annibynwyr; annheg.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD I

TRAC I

.... Yn Aberystwyth o'ch chi wrth gwrs pan .. beth, rhwng pump a dwy ar bymtheg?

Ysgol Gymraeg Aberystwyth, a dw i 'di deud a dw i yn ei feddwl o, alla i'm meddwl am unlle gwell yn y 50au i fagu plentyn nag Aberystwyth, ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth, a chael athrawon fel Hywel D. Roberts a Mary Vaughan Jones. Darllen straeon, ryw chwech, saith oed a dw i'n ... alla i gau'n llygad a gweld Mary Vaughan Jones o mlaen i yn darllen, adrodd storïau Mabinogion a Chwedlau Esop. O, oedd hi'n dalent. O'dd hi â dawn anhygoel, deud stori yn ogystal â sgwennu stori ... Ia, Ysgol Gymraeg Aberystwyth a wedyn Ysgol Ardwyn, ond wnes i ddim mwynhau Ysgol Ramadeg Ardwyn.

Naddo fe?

Na, O na.

Onid mae'n cael enw – ysgol dda.

O, oedd hi'n ysgol arbennig o dda ond do'n i'm yn ddisgybl, unwaith eto, arbennig o dda, yn anffodus. Na, o'n i'n chael hi'n anodd iawn yna. Wnes i basio'r Eleven Plus drwy ryw ryfedd wyrth ond o'n i, dw i'm yn gwbod, o'n i ofn yr athrawon ac oedd gen i'm diddordeb. Falle dylwn i fod 'di mynd i'r Ysgol Uwchradd, i Ysgol Dinas, er dw i yn erbyn hynna. Wna i byth anghofio'r dwrnod githeo ni'r canlyniade Eleven Plus a roedd – Hywel Jones oedd y Prifathro dw i'n meddwl. Oeddau ni gyd yna, y rhai oedd wedi cymeryd yr Eleven Plus. Oedd o'n darllan y canlyniada fel 'sa ti'n darllen canlyniada pêl-droed, ti'n gwbod, achos Dinas oedd yr ysgol eilradd, os leci di, ac Ardwyn oedd yr Ysgol Ramadeg, a wna i ddim enwi'n iawn ond oedd o'n mynd "Wel, Richard Williams – Ardwyn,

Siân Rees – Dinas, Peter Hughes – Dinas, Arfon Haines Davies - Ardwyn. Oh! Some mistake surely".

Oedda chi'm yn cael y'ch bwllian na dim byd fel'na yn yr ysgol?

Na, dim o gwbl. Na, na, na. O'n i fel dw i'n dweud, o'n i ... oedd gen i ofn yr athrawon hefyd. Roedd disgyblaeth lem yna. Ella bod hynna'n beth da ond pan symudon ni wedyn o Aberystwyth i Dreffynnon, mi es i Ysgol Glan Clwyd am flwyddyn, yn y Rhyl pryd hynny, ac un o'r blynyddoedd hapusaf fy mywyd i. O'n i wrth fy modd yna.

Felly, beth oedd y gwahaniaeth?

Wel, dw i'n cofio – ella dylwn i ddim dweud hyn. Dw i'n cofio y prifathro oedd Desmond Healey a dw i'n cofio'n iawn, ar ôl bod yna ryw bythefnos, na'th o ofyn sut o'n i'n setlo mewn a dw i'n cofio ... O, dw i 'di bod yn stiwpid! "Sut 'da chi'n setlo mewn Arfon?" A ddweddes i, "O, dw i wrth fy modd yma, fel 'swn i 'di symud o Colditz i Butlins". "O, reit, 'na ni. Ella bo chi angen dipyn o ddisgyblaeth."

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 2

Diolch yn fawr. Ar yr M4 mae'r tagfeydd 'na yn parhau i'r dwyrain ar ôl damwain rhwng Ffordd Fabian, Abertawe a Baglan, Port Talbot. Y ciw yn ôl at Llandarcy ac yn Merthyr Tudful mae'r A470 yn dal wedi'i chau yn gyfan gwbl i'r de ar ôl damwain lori fan'no wrth Pentrebach yn gynharach. Traffig yn cael ei ailgyfeirio drwy Ferthyr, ac mae 'na oedi yn enwedig ar Ffordd Caerdydd wrth Droed y Rhiw, ac mae 'na gar wedi torri ar yr A470 i'r gogledd erbyn hyn wrth gylchfan Abercynon. Mae hi'n araf iawn i'r gogledd yn fan'na felly. Yng Nghaerfyrddin mae hi yn .. mae 'na oedi i'r dwyrain ar yr A40 o hyd wrth y gwaith - tarmacio ar y ffordd yn fan'no. Does 'na ddim trafferthion newydd ar yr A55 ond mae 'na oedi ar yr A550 i'r gorllewin yn Queensferry, ac mae 'na ddamwain wedi cau Ffordd yr Wyddgrug yn fan'no, yn ymyl Cei Conna.

Mae'r trena a'r ferris i lwerddon ar amser ond ym maes awyr Caerdydd bydd awyren hanner awr wedi naw o Sharm el-Sheikh yn glanio rwan am ugain munud wedi un ar ddeg. A'n rhif ni yma: 08703500600.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 3

Diolch Geraint. Noswaith dda. Yn y newyddion heno mae rhai pobol ifanc yn meddwl ei bod hi'n cŵl i gael ASBO. Dyna mae gwaith ymchwil newydd yn ei awgrymu. A dydy petha'n gwella dim i fobol ifanc – heno mae adroddiad arall yn deud mai ieuencid Prydain ydy'r gwaetha yn Ewrop am neud dryga. Hefyd ar y newyddion, mam ifanc o Abertawe yn euog o ganiatáu marwolaeth ei babi blwydd oed fuodd i'w chyn gariad eisoes wedi cyfadde ei lofruddio. Dyn o flaen Llys y Goron, Yr Wyddgrug wedi ei gyhuddo o gipio a threisio merch ifanc yn Wrecsam bron i bythefnos yn ôl. Cynllunia ar y gweill i ddatblygu Marina Pwllheli bron i flwyddyn a hanner ers i gynllunia erill gael eu gwrthod oherwydd pryderon lleol. Cynghorwyr Dinbych yn gofyn am fwy o arian i wneud yn siwr y bydd prydau bwyd ysgol ar gael yn y sir yn y dyfodol. A byddwch ar eich gwylidwraeth rhag ofn y cewch chi garcharor yn y post! Gewch chi wbod mwy am naw, a dyna chi benawdau'r newyddion – arhoswch efo ni ar C2.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD I: TRAC 4

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cynnal ymgynghoriad ar eu cynlluniau datblygu lleol ar hyn o bryd, sy'n cynnwys y datblygiad posib o dros wyth gant o dai newydd ar ochor yr A55, rhwng tre Llanelwy a Pharc Busnes y dre, ond mae 'na wrthwynebiad yn lleol i'r awgrym. Mae trigolion Llanelwy yn pryderu y bydde cymaint o dai newydd, i bob pwrpas yn dyblu maint y dre ac maen nhw'n dadle nad oes 'na ddigon o wasanaethe ac adnodde'n lleol i ymdopi â'r galw ychwangeol. Mewn datganiad, mi ddywedodd Cyngor Sir Ddinbych nad ydy'r cynllun yn rhai pendant ar hyn o bryd a bod gan bobol yr ardal hyd at y Laf o Ragfyr i roi barn ar yr argymhellion.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 5

Mae grŵp ni o ffrindiau wedi dod o pob gwahanol ysgol gallwch chi feddwl o. Ni fel 'the outcasts' o pob ysgol a ... rywfodd, rywsut, ni jyst gyd wedi bennu lan yn siarad Cymraeg gyda'n gilydd, jyst allan o arfer fel bydd pobol yn siarad Saesneg gyda'i gilydd allan o arfer. Felly, does dim byd od i ni bod ni yn siarad Cymraeg tu fas ysgol, jyst sort o arferiad yw e – you know, dim byd allan o'i le.

Y peth mwyaf od yw siarad Saesneg gyda'n gilydd. S'no fi'n teimlo'n iawn os ni'n siarad Saesneg gyda'n gilydd.

Yn ... yn wreiddiol wnes i dod o teulu Saesneg ond wnaeth mam dysgu Cymraeg a danfon ni gyd, y tair o ni, i Ysgol Meithrin Cymraeg ... ym, a wedyn – so mae dad, oherwydd bod e wedi, sort o, dod i'r arfer o glywed Cymraeg, mae fe'n deall beth mae pobol – beth ni'n dweud ond dyw e ddim yn gallu ymateb yn ôl trwy'r Gymraeg.

Os ni ddim yn siarad Cymraeg, bydd neb arall yn, a w i'n teimlo fel os ni yn siarad Cymraeg bydd fwy o pobol yn siarad Cym . . gweld ni'n siarad Cymraeg a wedyn bydd nhw yn cwestiynu fel: A dyle fi fod yn siarad Cymraeg? A wedyn, gobeithio, os mae fel plant ysgol ni yn dechre siarad Cymraeg gyda'i gilydd, a tu allan ysgol a mae mwy o pobol . . os mae Ysgol Uwchradd arall Cymraeg yn agor, bydd hwnna'n gwell ar gyfer Casnewydd. Bydd fwy o ethos Cymraeg yn dod a gobeithio bydd Cymraeg yn dod nôl i Gwent achos mae Gwent y rhan o Cymru sy'n fwy Saesneg mewn Cymru, a ... ym ... o'r Gogledd rydyn ni'n cael ein gweld fel pobol Saesneg a .. s'no ni ddim achos ni yn siarad Cymraeg.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD I: TRAC 6

Helo 'na, bobol annwyl. Shwd i chi? Wel, on'd yw hi'n dywydd hyfryd? Does dim byd yn well na tamed o rew yn y bore ac awyr iach a heulwen am yn ail, be fwy allwn ni ofyn amdano? Shwd i chi gyd? Wedi treulio'r penwythnos lawr tua Caerdydd 'na chi, a wyddoch chi be', efo'r Ffermwyr Ifanc, ynde, a'r Jonesiaid. Alla i ddim gofyn am fwy, 'na alla'?

'Da chitha gobeithio wedi cael wythnos fach go lew a mae'r hydref yn brysur fynd eto ac mae 'na, a wyddoch chi be, y siope 'ma – Dolig, Dolig yw popeth. Yn wir i chi, os gewn ni iechyd dyw'r tymhore hyd yn oed ddim mor bwysig. A chi'n mbod, dw i ar "Ar eich cais" 'ma ers rhai blynyddoedd rwan ond ches i rioed y fath y fraint â heddiw, neu heno ddylwn i ddeud, a chael llythyr agoriadol ... oddi wrth un o gewri'r genedl, a gŵr sydd yn byw ym mro Ddyfi ac yn uchel ei barch, un o'n beirdd godidoca'.

"Annwyl Dai", meddai'r llythyr, "cyfarchion i'm gwraig Eirwen Jones, Blaenplwyf Uchaf, Aberangell, oddi wrth y gŵr, Dafydd Wyn Jones. Mae Eirwen yn bedwar ugen ar y 7fed o Dachwedd". Ac Eirwen annwyl, 'dych chi ddim yn edrych hynny, 'na dach, na Dafydd o ran hynny. Daw'r cyfarchion hefyd oddi wrth y plant, yr wyrion, a'r wyresa. Hoffe glywed Côr Gore Gles ac Aled Wyn Davies yn canu *Eryr Pengwern*. Diolch yn fawr. Ac, wrth gwrs, 'di Pengwern ddim ymhell iawn o Blaenplwyf yn nacdi? Hyfryd Dafydd ydy cael gair oddi wrthoch chi ac fe gewch â chroeso calon – dyma nhw i chi, Core Gles ac Aled.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 7

Am yr awran nesa' awn am dro law yn llaw ar hyd cyntedda cof y flwyddyn, mond i'n atgoffa ein hunain cymaint 'da ni 'di anghofio. Dyma'r flwyddyn pan oedd David Beckham yn gwisgo sarong, roedd A. A. Gill yn galw bob Cymro yn "ugly troll" ac fe agorodd Ann Summers siop yng Nghaerdydd. Dyma'r flwyddyn hefyd pryd fu rhaid i'r Arlywydd Clinton gyfadde ei berthynas hefo Monica Lewinsky. Fe benderfynwyd adeiladu cynulliad ym Mae Caerdydd ac roedd Catatonia wedi creu anthem i herio A. A. Gill, "Everyday when I wake up I thank the Lord I'm Welsh". Roedd rhaid i Ron Davies ymddiswyddo wedi helynt ar Gomin Clapham – "It was an error of judgement on my part which put myself in a position where I could be the victim of a crime". Roedd Ioan Gruffudd yn un o sêr y byd teledu a ffilm, diolch i Horatio Hornblower a Titanic.

*"Wedyn pan ddes i lan ... o'n i'n eitha siomedig ...
O, cer o fan hyn, ro'n i'n mynd i chwalu ... chi'n
gwbod, y stori i fi wedyn. O'n i wedi anghofio mod i
ynddo fe...o'n i'n mwynhau y stori garu ac yn sydyn
iawn ... a dyna fe'.*

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 8

Am y tro cyntaf erioed fe glywyd iaith y nefoedd yn y gofod ...

Dwi wedi bod yn paratoi at y daith yma ers amser maith ac o'r diwedd mae o wedi dod ...

Un o ddigwyddiade hanesyddol 1998 oedd taith y llong ofod Columbia. Nid y daith ei hunan – 'doedd llongau gofod wedi hen arfer crwydro i'r gofod am drip rwond y byd a dychwelyd yn ddiogel? Beth oedd yn arbennig am y daith arbennig yma oedd y criw, wel, un o'r criw beth bynnag. Roedd Dafydd Rhys Roberts yn byw yng Nghanaada ond â theulu yn hannu o Gwm Rhymni, ac uchelgais Dafydd oedd bod y cynta i siarad Cymraeg o'r gofod. Wel, yn 1998, fe lwyddodd i neud hynny.

A sôn am y gofod, fe ddychwelodd John Glenn yno ym 1998. Glenn oedd yr Americanwr cynta i'r gofod ac yn ystod y flwyddyn hon fe fentrodd yn ôl ar waetha'r ffaith ei fod yn 77 mlwydd oed, yr hyna 'rioed i adal y ddaear 'ma.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 9

Wel, ar ôl sawl diwrnod sych ac eitha braf, digon diflas fydd hi heddiw, gen i ofn, yn gymylog a gwlyb gyda hen law mân bore 'ma, fydd yn troi yn gawodydd trymach yn ystod y pnawn, yn enwedig yn y gogledd. Serch hynny, fydd hi'n fwyn, y tymheredd yn cyrraedd pymtheg gradd Celsius, sy'n 59 Fahrenheit, ond mae disgwyl noson oerach na fu hi neithiwr ac echnos – y tymheredd yn gostwng i ddwy radd Celsius. Y glaw, fodd bynnag, yn diflannu i gyfeiriad y de ddwyrain dros nos a mi fydd fory yn ddiwrnod sych a heulog ar y cyfan, heblaw am gawod neu ddwy yn y gogledd. Dydd Gwener hefyd yn sych rhan fwya'r dydd ond mae disgwyl glaw erbyn iddi nosi.

Y ffyrdd: ac yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r A4107 wedi ailagor rhwng Tanygroes a Ffordd Talbot, yr A48, yn dilyn damwain rhwng lori a dau gar yn gynharach. Ym Mhowys mi fydd ffair Aberhonddu yn parhau tan ganol dydd, hynny'n golygu fydd y ffyrdd yng nghanol y dref ar gau tan hynny, ac yn Wrecsam mi fyddan nhw'n atgyweirio rhwystra ar yr A483, rhwng cyffordd 4 a 5 tan ddydd Gwener; neith olygu un lôn yn fan'no hefyd. Dyma'n rhif i: 08703 500 500.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 10

“Pan welodd Iesu'r ddinas, wylodd drosti” a dyna yw ein thema ni y bore 'ma – dagrau'r Iesu. Y dyrfa yn ei gyfarch, yn taenu eu mentyll a'r palmwydd ar y ffordd ac yn ei gyfarch “Iesu”, yn ei gyfarch fel Brenin: “Bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.”

Brenin, ie, ond nid dyna'r Brenin yr oedd y genedl yn ei ddisgwyl. Brenin gwahanol iawn. Marchogaeth asyn wnaeth Iesu, nid march fel y concwerwr milwrol. Mae e' felly yn cyflawni'r broffwydoliaeth – proffwydoliaeth yr Hen Destament: “Ei Frenhiniaeth ef, nid yw o'r byd hwn.” Brenhiniaeth cariad yw ei frenhiniaeth ef.

Pan welodd Iesu'r ddinas, dinas Jeriwsalem, wylodd drosti. Mae 'na nifer o wahanol ffenestri y gallwn ni edrych drwyddyn nhw er mwyn gweld Iesu. Ffenest ei eiriau, ffenest ei weithredoedd, ffenest ei wyrthia, ond i mi, y ffenest y gallwn ni weld Iesu yn gliriach nag unrhyw weld arall yw ei ddagre. Yn y dagre fe welwn y dwyfol a'r dynol – gweld ei drugaredd, ei faddeuant, y galon fawr dosturiol, yn gorlifo, y galon a fu ar dorri, yn torri. Llif torcalon y dwyfol yw dagrau'r Iesu. “Y balm o ryfedd rin a pheraidd win, dwyfol gariad.”

Pan welodd Iesu'r ddinas, dinas Jeriwsalem, wylodd. Mewn cofnod arall fe gawn fod yr Iesu â'i galon ar dorri, yn llefain ac yn llefain dros y ddinas. “O, Jeriwsalem, Jeriwsalem, yr wyt yn lladd y proffwydi. Pa sawl gwaith y mynaswn gasglu dy blant ynghyd, y modd y casglar iâr eu chywion o dan ei hadenydd ac nis mynnech. Wele, eich tŷ a adewir i chwi yn anghyfannedd.” Pan welodd Iesu y ddinas, wylodd drosti. Nid gwendid sy'n wylo yma. Mae gwendid yn barod i wylo unrhyw amser. Nid gwendid ond cadernid. Y cadarn sy'n wylo. Y gŵr a aeth i lawr o'r mynydd i'r Deml ac a yrodd ymaith y gwerthwyr a chyfnewidwyr arian allan, y rhai oedd yn halogi'r sanctaidd. Y di-ofn a heriodd

awdurdodau byd a chrefydd. Y di-ofn, y cadarn. Pan fydd cadernid yn wylo, dagre cry', costfawr, creulon, ydyn nhw. Pan fydd geiriau'n pallu oherwydd torcalon, mae dagre'n llifo. Y'n ni gyd yn gwybod rhywbeth am hynny o brofiad. “Pan welodd Iesu y ddinas, wylodd drosti.”

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD I: TRAC II

Mae 'na hen rigwm on'd oes?

*Fe welais Siân Elin
yn yfad llaeth melyn
yn ista ar ymyl y bwrdd,
ond fe dda'th 'na bry copyn
ac yfad pob dropyn
a fe redodd Siân Elin i ffwrdd.*

Wel, druan bach ohoni. Petai hi ddim wedi panicio ella basa hi wedi cael addysg fuddiol. Yn lle meddwl mai rwbath erchyll oedd yno, ella basa hi wedi gweld gwir grefftwr wrth ei waith. Mae gwyllo pry copyn yn stofi, neu adeiladu, gwe tua llathan ar ei draws, yn cynnwys ugeinia o lathenni o we, mewn patrwm sbeiral efo dros fil o gysylltiadau i ddal y cwbl at ei gilydd a gorffan y cwbl hefyd mewn llai na awr, yn rhyfeddol yndydi? Ond, wrth lwc, mae 'na lawer o bobol yn gwerthfawrogi pryfaid cop ac yn eu gweld nhw'n betha lwcus iawn.

Mae 'na sôn 'does bod pryfyd cop wedi achub bywyda y baban Iesu, Mohamed a Ffrederic Fawr, Brenin Awstria. Mae'r tair stori'n eitha tebyg – er enghraifft, yn achos yr Iesu, bod Joseff a Mair a'r plentyn bach wedi cuddio mewn ogof rhag milwyr Herod ac am fod gwe pry cop ar draws ceg yr ogof, roedd y milwyr wedi meddwl nad oedd neb yno. A be am stori Robert the Bruce yn yr Alban, sef y stori pry cop enwoca' yn y byd? Yn ôl y stori, roedd Robert, tua 1306 neu 07, tra'n brwydro am annibyniaeth yr Alban, wedi gorfod ffoi o grafangau'r Saeson ac wedi llochesu mewn ogof – wel, eglwys oedd hi mewn gwirionedd – ac wedi gwyllo pry copyn yn trio a thrio i swingio ar draws bwllch i godi ei we. Trio a methu, trio a methu ac yna, ar y seithfed cynnig, fe lwyddodd. Roedd hynny'n ysbrydoliaeth i Robert i beidio digalonni ar ôl methu'r tro cynta'. Felly dyfal donc amdani, ac yn y diwedd fe lwyddodd i gael yr Alban yn wlad rydd. Hwre, hwre.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddoesbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 12

Roedd anifeiliaid anwes yn obese ac un felly 'di cath Mair Ffowcs o Lanberis, Guto Siôn. Yn ôl bob sôn, mae'r hen Guto Siôn yn byta fatha ceffyl benthyc a mae pentrefwyr hen bentra bach Llanbêr yn ei alw'n "Fat Cat" – brwnt hefyd 'te?

I frecwast de, mae'n cael sachet pysgod te – w'ch chi'r sachets bach 'na, un o'r rheina. Wedyn, cyw iâr i ginio. Fydda i'n gneud saith iddo fo'n barod ... o beth 'na a wedyn fyddan nhw'n cymyd un bob dydd a wedyn crunchies i de a bwyd arbennig gan y vet, SD, i swpar.

Mae'n byta'n well na chi Mair?

(chwerthin) ... yndi ...

Ydi o'n medru symud rywfaint?

O yndi, tad, mae o reit sbriws. Mae o'n gallu symud yn dda iawn.

Symud at ei bowlan fwyd, ia?

Na, dydio ddim mor gymaint â hynny. Na, mae o reit ... mae'n mynd allan. Mae'n mynd hyd y caeau 'ma a betha felly.

'Da chi am roi llai o bryda bwyd iddo fo?

Wel dw i ofn bydd raid i mi. Mae'i fol o'n llusgo hyd lawr bron.. (chwerthin)... fel mae hi a mae pawb yn alw fo yn famma yn – Sais yn alw o'n Fat Cat, rywun arall yn alw fo'n Black Panther a rywun arall ddoe ar y BBC 'di alw fo'n Big Black Cat.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 13

Dyma i chi olwg ar wartheg wrth eu gwaith yn hytrach nag fel marsiandiaeth y porthmon.

*O Mari, Mari cwyd, mae heddiw'n fore mwyn.
Mae'r adar bach yn tiwnio ar gwcw yn y llwyn.
Hw, mlân. Hw, mlân. Hw.*

*O Mari lân dy foch, mae nawr yn un o'r gloch.
Mae'n bryd i mi gael cinio ac amser bwydo'r moch.
Hw, mlân. Hw, mlân. Hw.*

*O Mari tyrd tua thre, mae wedi amser te.
Fe ddaeth y da i'w godro gan frefu dros y lle.
Hw, mlân. Hw, mlân. Hw.*

*O Mari daeth yr haf, mae heno'n noson braf.
A ddoi di mas i rodio oddi yma i Ffynnon Taf?
Hw, mlân. Hw, mlân. Hw.*

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 14

Ac mae'n bleser gennyf yn awr alw ar y Dr Geraint Bowen, y Dirprwy Archdderwydd, i draddodi'r feirniadaeth ar ran ei gydfeirniaid ac yntau.

Y testun a osodwyd i'r beirdd yng nghystadleuaeth y Gadair eleni oedd 'Cilmeri'. Pentref bach ym Mhowys yw Cilmeri ac mae'n enwog am mai yno ar lan afon Irfon, yn ôl ein haneswyr, yr ymosodwyd yn ffyrnig ar Lywelyn yr Ail, Tywysog Cymru, a'i osgorodd, gan filwyr Edward y Cyntaf ac o leiaf un Cymro ar yr unfed ar ddeg o Ragfyr, 1282, a'i ladd yn fwystfilaidd. Llywelyn ap Gruffudd, Llywelyn ein Llyw Olaf, oedd y tywysog hwnnw. Claddwyd ei gorff yn Abaty Cwm Hir a danfonwyd ei ben i Lundain a'i osod ar waywffon ar ben Tŵr Llundain, ac medd y croniclydd, "Ac yna y bwriwyd holl Gymru i'r llawr".

Canodd bardd Llywelyn, sef Gruffudd ap yr Ynad Coch, alargerdd frawychus o emosiynol a chymen ei chreffftwaith i'w noddwr tywysogaidd.

Roedd lladd Llywelyn yn golygu bod Cymru wedi colli ei sofraniaeth wleidyddol, canys ym mherson Llywelyn y trigai'r sofraniaeth honno. Peth arall a oedd yn ddychryn i'r bardd oedd y posibilrwydd y deuai nawdd traddodiadol y tywysogion i ben ac y peidiai'r gyfundrefn farddol. Yn wir, roedd marw'r prif noddwr, Llywelyn, yn gymaint o hunllef i'r genedl nes i fyth dyfu bod Edward y Cyntaf wedi llofruddio beirdd Cymru yng Nghastell Biwmaris gan nodi'r dyddiad ar y pumed ar hugain o Fawrth yn 1296. Roedd y Cymry, mae'n ymddangos, yn dal i gofleidio'r myth yma yn y ganrif ddiwethaf, canys yn Eisteddfod Dinbych yn 1792 testun yr awdl ydoedd 'Cyflafan y Beirdd gan Edward y Cyntaf yng Nghastell Biwmaris', ac mae gan y bardd Mynyddog gerdd ar yr un testun lle mae'n dweud bod Ceridwen wedi wylo wrth weld y fath gyflafan. Mae'r bardd Seisnig, Thomas Gray, o'r ddeunawfed ganrif yn ei gerdd 'The Bard' hefyd yn

cyfeirio ato fel petai'r hanes yn ddilys. Y gwir ydyw i'r beirdd yma addasu i'r sefyllfa gymdeithasol a gwleidyddol newydd a chafwyd cyfnod o ddiwydrwydd llenyddol eithriadol er gwaetha'r dinoethi gwleidyddol a marw Llywelyn, cadarnllew Gwynedd, Brenin Aberffraw a Thywysog Cymru.

Fel y mae'n wiw i genedl ystyriol a gwâr ei wneud, byddwn eleni, saith can mlynedd i'r flwyddyn y lladdwyd ef, yn uno fel cenedl i goffáu Llywelyn. Gan hynny, mae'r testun yn amserol ac yn un da.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 15

Bore da i chi a chroeso i rifyn arbennig o 'Bwrw Golwg' o Uganda gyda finne Alun Thomas.

Dyma wasanaeth mewn eglwys wledig yn y bryniau uwchben tref Mbale yn ne ddwyrain Uganda. Mae gan yr ardal hon gysylltiad arbennig gydag un o gymunedde cymoedd y de. Mae pobol ardal Pontypridd wedi sefydlu partneriaeth unigryw i gynorthwyo pobol tlota un o wledydd Affrica, a hynny trwy gyfrwng mudiad o'r enw 'Pont'. Yn gynharach eleni fe ges i'r cyfle i fynd i Uganda gyda rhai o aelodau'r mudiad wrth iddyn nhw gwrdd â'u partneriaid o rai o eglwysi Mbale.

Mae'r cyfan yn dod o'r awydd i gyffwrdd â'r sefyllfa o dlodi yn y . . hynny yw, dyna yw grweiddyn y cyfan i gyd, yr argyhoeddiad yma bod hi'n ... bod hi ddim yn iawn bod pobol yn marw . . .

Yno hefyd, criw o rai o eglwysi Merthyr Tudful yn cael eu profiad cyntaf o fywyd yn y fath dlodi.

Gobithio byddwn i yn gallu rhoi support i'r bobol 'ma mewn pob math o ffordd, yn enwedig yn Gristionogol, rhoi help i'r bobol yma i gario mlaen a gweld bod rhywun yn caru nhw a gallu helpu nhw.

Ac fe fyddwn ni'n clywed am yr ymateb yn y cymoedd wrth i bobol o Uganda gael profi bywyd yng Nghymru am y tro cyntaf.

Dw i tamed bach yn embarrassed wrth ddangos iddyn nhw yr holl adnodde sy gyda ni a maen nhw jyst ... maen nhw methu credu'r peth.

Croeso i'r Cymry wrth iddyn nhw gyrraedd tref Mbale. Y lle cynta iddyn nhw fynd oedd Eglwys First Baptist. Mae'r eglwys hon wedi efeillio ag Eglwys Bedyddwyr Temple ym Mhontypridd gyda swyddogion y ddwy eglwys yn chwarae rhan flaenllaw

ym mhartneriaeth 'Pont'. Un o flaenoried Eglwys Temple yw Cadeirydd 'Pont', Dewi Arwel Hughes. Mae 'Pont' yn cychwyn o weledigaeth un person sydd yn feddyg teulu yn Pontypridd a'r weledigaeth yma o drio cysylltu tre a chylch yn Affrica efo tre a chylch yng Nghymru, a'r syniad ydy fod y gymuned gyfan, felly, yn cysylltu efo'i gilydd. Mae i bob cymdeithas wahanol agwedde on'd oes? Wedyn . . yn ein cymuned ni mae 'na feddygaeth, mae 'na addysg, ysgolion, mae 'na eglwysi, mae 'na beirianwyr, mae 'na bobol sy'n arbenigo mewn cyfrifiaduron bob math o sgilia sydd mewn cymdeithas. Ac, mewn lle fel Affrica, mae 'na angen mawr am lot o'r sgilia 'ma, felly. Y syniad ydy, bod ni'n trio cysylltu y sgilia 'ma efo'i gilydd yn ein cylch ni a wedyn bo ni'n cysylltu efo'r un sgiliau sydd ar gael, os maen nhw yma i ryw radde, â'r cylch yn Affrica, a'r syniad ydy bod ni'n rhwydweithio'r holl beth, wedyn ... bod y rhwydwaith meddygol yn cysylltu efo'r rhwydwaith feddygol yn fan yma, ac yn y blaen.

A'r bwriad yn gyffredinol yw i helpu pobol yn fan hyn i helpu eu hunain, fel petai?

Wel, mae'r cyfan yn dod o'r awydd i gyffwrdd â'r sefyllfa o dlodi yn y pen – hynny yw, dyna yw grweiddyn y cyfan i gyd, yr argyhoeddiad yma, bod hi ... bod hi ddim yn iawn bod pobol yn marw o dlodi, ac mae hynny yn wir yn y fan yma ... a dyna'r 'bottom line' felly a mae'r holl beth wedyn yn cyfeirio tuag at hwnna.

Cadeirydd Pwyllgor Partneriaid Pont ym Mbale yw gweinidog Eglwys First Baptist, Apollo Mueni.

Mae'r berthynas yn beth newydd ... mae'n wych, mae pobol Mbale mor gyffrous lle bynnag chi'n mynd mae bobol yn sôn am y berthynas, mae'r bobol wedi croesawu ymwelwyr o Bontypridd i'r pentrefi mae'r pobol yno wedi cyffroi ... mae 'na rai sydd heb weld person gwyn o'r blaen. 'Da ni'n

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

dysgu ffyrdd newydd ... mae e'n mynd i fod yn brofiad gwyh.

Mae'r ymweliad hwn yn cysylltu eglwysi Pontypridd ag Mbale ond mae'r bartneriaeth yn bodoli ar sawl lefel, gydag athrawon, peirianwyr a gwleidyddion y ddwy gymuned yn cydweithio. Mae 'na bwyslais hefyd ar gydweithio meddygol.

Un broblem fawr mewn lle fel hyn ydy does 'na ddim gwasaneth meddygol o gwbl, cynhwysfawr. Does 'na ddim data yn cael ei gadw ar bobol i wybod beth ydy lefel neu stad iechyd pobol yn y cylch. Wedyn un peth 'da ni wedi bod yn trio ei wneud yw cefnogi ein partneriaid yn y fan 'ma Hwyrach y dylwn i fod wedi dweud mai nid ni sydd wedi dod i mewn yma i sortio pobol allan felly be 'da ni wedi'i wneud ydy dod i ffeindio ffrindiau yn y fan 'ma ac maen nhw, fel mae'n digwydd bod, yn cynrychioli gwahanol asiantaethau gwirfoddol ac yn y blaen yn y fan 'ma. Be 'da ni'n wneud ydy helpu ein partneriaid i hyfforddi pobol i wneud gwaith iechyd syflaenol iawn, felly.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 16

Bore da a chroeso i 'Papur a Phanad'. Rwan, y pundit gwleidyddol, cyn Aelod Seneddol, cyn Aelod Cynulliad – Rod Richards. Bore da, Rod.

Bore da.

Y gyfieithwraig, darlledwraig, adolygwraig – Catrin Beard. Bore da, Catrin.

Bore da.

A'r cyfieithydd a'r colofnydd, Chris Dafis. Bore da, Chris.

Bore da.

Catrin, yr hinsawdd yn cael sylw, am wn i, yn y papura mawr i gyd ond yn arbennig yn yr Independent y bore 'ma?

Ydy mae o. Hwn – dyma'n amlwg ydy thema mawr y dydd yn y papura trymion ond, fel mae Simon Jenkins yn deud yn Y Times, yr hinsawdd sy'n mynd â . . . hwn ydy'r pwysica yn y byd yr wythnos yma. Mis dwetha, rhyfel yn erbyn terfysgaeth oedd o felly gallwch chi ddewis be ydy'r peth pwysicaf ond mi oedd y brotest fawr yn Llundain ddoe. Mae 'na lun godidog ar flaen Y Times o brotestwraig wedi paentio'i hun yn las, fel ryw dduwies o'r môr, yn sôn am lefele'r môr a mae'r Independent – tudalen flaen yr Independent – 'ma ni eto, maen nhw'n mynd i ffor' eu hunen a maen nhw'n dangos Tsunami mawr yn taro Prydain a fel pe bai hyn yn digwydd yn y flwyddyn 2060.

Rhaid i mi gyfaddef, pan wnes i ddarllan hwn peth cynta, pan wnes i agor y'n llygad y bore 'ma: 'Tsunami horror hits Britain', mi wnes i ryw ddechra poeni a meddwl a wedyn wnes i gofio wedyn 'na . . . na'r Independent oedd o . . . pennawd go iawn oedd o felly.

A wedyn tu fewn i'r papur mae gynnyn nhw nifer o bap . . . o dudalanne blaen posib dros y ganrif nesa – er enghraifft, yn . . . 2040 mae'n dangos bod fforestydd yr Amazon i gyd wedi cael eu llosgi i farwolaeth. Yn 2030 mae'r polar bear ola yn marw ac yn y blaen. Felly, ryw betha eitha dramatig i neud i ni feddwl sut mae hyn yn mynd i ddiwydd. Ond mae 'na erthygl ddiddorol yn Y Telegraph sydd gan Christopher Monkton, a mae o yn . . . gynghorydd ar faterion fel hyn mae'n debyg a mae o'n sôn bod y Cenhedloedd Unedig wedi tanbrizio effaith yr haul ar yr hinsawdd a bod nhw'n anwybyddu effaith tŷ gwydr naturiol ac yn gorbwysleisio'r cynnydd mewn tymheredd dros y ganrif ddwetha 'ma, a be mae o'n ddweud ydy bod data a graffia carbon deuocsid yn anwybyddu cynhesrwydd y blaned fil o flynyddoedd yn ôl pan oedd o'n llawer yn fwy cynnes na mae o ar hyn o bryd, a dros yr hanner can mlynedd dwethaf mae'r haul yn g'nesach na mae o wedi bod ers dros un ar ddeg mil o flynyddoedd, a mae'n dweud wrth bod pobol yn deud bod y moroedd yn cynhesu ac yn y blaen mae m . . . mae o'n deud dyla bod nhw yn mesur . . . bod y ffigyre sy gan yr . . . y Cenhedloedd Unedig ond yn ddilys os 'da chi'n mesur tymheredd dros filltir o ddyfnder yn y môr a 'dy hynny ddim wedi'i neud achos mae'r tymheredd yr un union run peth a mae o wastad wedi bod ac felly mae'n – yr hyn mae o'n ddeud ydy: dydy ailadrodd rhife anghywir ddim yn eu gneud nhw'n gywir a mae ishio bod yn ofalus iawn. A wedyn mae 'na stori arall yn un o'r papure yn deud bod 'na wŷyn yn cael eu geni yn Swydd Warwick wythnos dwetha ond 'dyn nhw ddim i fod i gyrraedd tan y Gwanwyn, felly yn sicir mae 'na rywbeth yn digwydd, ond lle mae'r bai? Dyna 'dy'r cwestiwn gan Christopher . . .

Ond dydy pawb ddim yn ei gredu fo nac 'di Chris? Mae Chris Hutchins, er enghraifft, yn y Mail yn deud: Wel, ella bod hon yn ffordd dda o neud bywoliaeth dadla?

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddysgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

Wel, am wn i mae . mae ystadege a mesuryddion tymheredd yn gallu cael eu defnyddio neu eu camddefnyddio at unrhyw ddiben mewn gwirionedd. Y gwir amdani fel petai ar hyn o bryd yw bod y consensws yn dweud bod ein ffordd ni o fyw fel pobol yn cyfrannu at y newidiade hinsoddol 'ma. Mae'r byd wedi gweld newidiade mewn hinsawdd eriôd, am wn i, ers cychwyn y byd ond y'n ni yn cyfrannu atyn nhw a chi'n mbod, mae'r ffigure, mae'r penawde ffug neu ddychmygol ma, i'r dyfodol – dy'n nhw ddim yn bell iawn i ffwrdd mewn gwirionedd. Mae'n bwysig i ddweud, chi'n mbod: O na, wneith e byth digwydd ym Mhrydain, chi'n mbod, dim ond pa ddwrnod welon ni'r ym ... erchylltra yn Indonesia a'r ardaloedd hynny yndife ... ond digon posib

On ddaeargryn oedd hwnnw ynde?

On pam digwyddodd y ddaeargryn yn y lle cyntaf?

Hynny yw, mae rhai gwyddonwyr yn meddwl mai pobol sy'n creu hyn. Mae 'na rai eraill sydd ddim, medde Peter (sic) Hutchins. Hynny yw, ai rwbath ydy hwn yn rywbeth gwleidyddol ynta gwyddonol?

Dydy e ddim yn werth cymryd y risg nac'dy?

Beth mae'r Telegraph yn ddweud yw ym .. ddyle ni ddim â chredu Adroddiad Stern a'th allan ...

Ddyla ni ddim?

Na. Ia, achos mae'n creu braw a dychryn. Hynny yw, mae 'na ormodedd fan hyn a mae'n rhaid i fi ddweud, mae rhywfaint o gydymdeimlad 'da fi â'r feirniadaeth hyn achos economegydd yw Stern a mae e'n ceisio proffwydo beth sy'n mynd i ddigwydd yn ystod beth, hanner canrif? Wel, y gwir amdani yw, dyw economegwyr ddim yn gallu

dweud wrtho ni yn bendant beth sy'n mynd i ddigwydd i'r economi ymhen deunaw mis, heb sôn am beth sy'n mynd i ddigwydd i'r economi dros hanner canrif. Felly, w i'n deall pam mae'n rhaid i ni fod yn ofalus ond fel pawb arall, mae cyment o wybodaeth yn dod nawr oddi wrth gwyddonwyr, mae e'n mae e'n dwyn perswâd arna i. Felly mae mae'n rhaid cael cydbwysedd, w i'n credu

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 17

A mi oedd o'n gyhoeddiad yr oedd America wedi edrych ymlaen yn hir i'w wneud:

"Ladies and gentlemen, we got him".

Gweinyddwr America yn Irac, Paul Bremer, yn cyhoeddi'n hyderus fore ddoe fod Saddam Hussein wedi cael ei ddal. Ar ôl misoedd o ffoi ac o guddio, mi ddath milwyr arbennig America o hyd iddo fo mewn twll yn y ddaear o dan ffermdy nepell o'i dref enedigol Tikrit. Mae'n cael ei groesholi ar hyn o bryd. 'Da ni ddim yn cael gwbod yn lle ond, yn ôl rhai adroddiada, mae o bellach yn gwrthod cydweithio. Y diweddara rwan gan Aled Scourfield:

Amser i ddathlu ac i rannu jôc i'r gymuned Cwrdaidd yng Nghaerdydd. Roedd y parti yma yng Nghyncoed yn un o gannoedd gafodd eu trefnu o gwmpas Prydain gan Gwrdaiaid na'th ffoi rhag erledigaeth Saddam Hussein. Mae gweld yn cyn unben yn edrych yn wan, yn hen, yn ddarostyngedig, yn destun gorfoledd iddyn nhw. Ond nawr mae 'na benbleth yn wynebu America a'i Chynghreiried. Beth i wneud gyda Saddam Hussein? Roedd Tony Blair yn ddiffuant:

"Saddam has gone from power. He won't be coming back. That, the Iraqi people now know, and it is they who will decide his fate."

Ond, mi alla hi fod yn anos o lawer iddo sefyll ei brawf yn Irac. Mae'r gyfundrefn cyfraith a threfn wedi'i chwalu ac mae 'na bryder nad oes na ddigon o arbenigedd ymhlith barnwyr y wlad i gynnal achos o'r fath ac mae 'na ofne bydd Saddam Hussein yn achub ar y cyfle i droi unrhyw achos yn ffars. Mae'r awdur Robert Griffiths wedi sgwennu nifer o erthyglau ynglŷn ag Irac.

Petai nhw'n ei roi fe ar brawf ... mewn achos o ... mewn llys o ryw fath, wel, mae 'na beryg, dan yr amgylchiade hynny, y bydde Saddam yn gallu

dweud cryn dipyn am hanes cefnogaeth iddo fe gan yr Unol Daleithie a Llywodraethe Prydain ac yr Almaen ac yn y blaen.

Yn ôl Elaine Edwards o fudiad Amnest Rhyngwladol, mae'n bwysig fod Saddam yn cael achos teg ble bynnag fydd yr achos hwnnw'n cael ei gynnal.

Wel, mae'n amlwg mae'n rhaid iddo fe nawr gael achos llys yndife, achos llys teg a barn Amnest yw bod e'n bwysig dros ben bod ni'n dilyn safone cyfiawnder rhyngwladol wrth wrando'r achos yn ei erbyn e.

O fewn yr orie dwetha, mae Ysgrifennydd Amddiffyn America, Donald Rumsfeld wedi bod yn rhoi'r manylion cynta ynglŷn â'r broses o holi Saddam Hussein. Mae'n cael ei ddal mewn man anhysbys. Fe fydd yr arfe dinistriol a'i gysylltiade honedig gyda therfysgwyr ar frig yr agenda ond mae'n ymddangos nad yw'n barod i ildio ei gyfrinache eto.

"He has not been co-operative in terms of talking or anything like that but I think it's a bit early to try to characterize his demeanor."

Dyw hi ddim yn glir hyd yma beth fydd effaith y penderfyniad i arestio Saddam Hussein. Mae'n annhebygol iawn fod ganddo unrhyw gysylltiad uniongyrchol gydag ymosodiade ar filwyr America yn Irac. Doedd 'na ddim ffôn, dim offer cyfathrebu yn y ffermdy cyntefig wrth ymyl ei dref enedigol, Tikrit. A beth fydd effeth y delwedde trawdiadol yn y gwledydd Arabaidd? Mae'n bosib y galle'r llunio o Saddam yn edrych fel crwydryn ysgogi ymateb chwynr. Yr eironi pennaf efallai yw'r man lle cafodd Saddam ei ddal. Yn ôl y Cadfridog Odierno, y dyn oedd yn gyfrifol am arwain y cyrch milwrol echddoe, roedd y cyn Arlywydd yn gallu gweld un o'r palasau crand o'i dyddyn bach. Mae Saddam Hussein yn gwybod bellach taw cell fydd ei gartref o hyn ymlaen, tan i bobol Irac benderfynu beth fydd ei ffawd.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 18

Rwan 'ta, 'da ni'n troi at 'Meddwl y Byd'. Mi gyhoeddodd Mari George o Ben-y-bont ar Ogwr ei chyfrol 'Y nos yn dal fy ngwallt' yn eitha diweddar ond mae . . . mae'r nos yn dod â phrofiadau gwahanol iddi erbyn hyn. Mae ei byd hi bellach wedi'i droi â'i ben i lawr a dyma hi yn esbonio sut y bu hynny.

Wel, dw i'n barddoni ers bo fi'n ysgol. Dechreuis i sgrifennu pan o'n i, siwr o fod, tua pymtheg, un ar bymtheg, a wedyn oedd y diddordeb yn dal yna pan es i i'r Brifysgol a ges i ddarlithwyr eithriadol o dda fel Peredur Lynch a Hywel Teifi. Wnaethon nhw'n annog i i barhau i ysgrifennu a wedyn dechreuais i gystadlu yn yr Urdd a o'dd, wrth gwrs, oedd ennill cwpwl o wobre yn yr Urdd wedyn yn bendant yn neud i fi gario mlaen i ysgrifennu.

W i'n credu bod 'ngwaith i wedi newid dros y blynyddoedd. Mae rywun yn tueddu i sgrifennu am eu hamgylchiade nhw ar y pryd a mae pethe 'di datblygu 'da fi, dibynnu beth o'n i'n neud ar y pryd. Falle oedd lot o gerddi fel myfyriwr yn adlewyrchu profiade o feddwi, o gwrdd â ffrindie, o gael cariadon a phethe, a w i'n edrych nôl ar rheini nawr a maen nhw i weld yn anaeddfed iawn erbyn hyn ond falle bod nhw'n addas ar gyfer y cyfnod. A wedyn, w i'n tueddu i sgwennu falle o safbwynt person sy'n byw mewn tre'. Ges i 'ngeni ym Mhen-y-bont a w i'n timlo, y ffaith, nid gymaint bo fi'n berson dinesig ond y ffaith, fi 'di byw 'mywyd i drwy gyfrwng y Gymraeg erioed a doedd dim gymint â hynny o bobol ym Mhen-y-bont yn siarad Cymraeg, felly mae'n agwedd i tuag at yr iaith a tuag at Gymru falle, yn wahanol hefyd. W i 'di bod i ysgol Gymraeg ond roedd y bobol ar yr un stryd â fi ddim yn siarad Cymraeg a mae tipyn o hwnnw yn dod drosodd, falle, yn y cerddi. O'n i'n teimlo mewn ffordd yn wahanol iawn iawn yn tyfu lan.

Wel, ers i'r gyfrol gael ei chyhoeddi mae mywyd i 'di newid dipyn. Mewn rhyw flwyddyn a hanner dw

i 'di priodi, 'di symud tŷ, a wedi cael babi. Felly, bach o sioc i'r system. Felly does dim lot fawr o ysgrifennu 'di cael ei neud yn y cyfnod 'na. Mae fe'n agor ryw ddrws sydd, chi'm yn gwbod e 'na, mewn ffordd. Mae 'nheimplade 'di newid yn llwyr. Falle o'n i'n edrych ar bethe mewn ffordd du a gwyn o'r blaen ac erbyn hyn dw i'n gweld lot mwy o ddyfnder ym mheth. Mae rhywun yn meddwl am ei fagwreth ei hunan hyd yn oed a cwestiynu popeth wrth bo chi'n trio magu'ch plentyn y'ch hunan.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw alewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 19

Fe gysylltodd Wyn a Megan Roberts o Bwllheli gyda 'Chware Teg' ar ôl gwylie siomedig yn Weymouth ym mis Mai. Yn ôl cwmni ***** oedd yn trefnu'r cyfan, roedd y gwesty o safon pedwar diamwnt ond roedd Wyn a Megan yn anhapus iawn gyda'r gwasanaeth. Dyma Wyn â'r hanes:

*Mi fuo ni ar wylia yn Weymouth ddechra mis Mai efo cwmni coaches *****, yn aros yn be oedda nhw'n galw yn Royal Hotel, a siomedig iawn oedd y dyddia gawsom ni yna. Pryder mwya ni oedd bod yr ystafell yn fychan iawn. Oedd nhw'n eu gwerthu nhw fel 'stafelloedd dwbwl' ond yn amlwg mai stafell sengl oedd hon ac oedd hi mor fychan oedd rhaid ni adael y'n cases a ballu yn yr en suite.*

Oedd dim lle yn y stafell o gwbl i'r cases?

Nagoedd, dim digon o le i adael rheini. Fasan nhw o dan draed yn rywle ynde.

le.

Wedyn, fe githon ni siom. Oedd 'na deledu yno ond dwy gadair fwrdd i eistedd arnyn nhw. Doedd 'na ddim cadeirie cyfforddus i ymlacio i ista i fwynhau y teledu a mi oedd y ffenestri braidd yn fudur a hefyd, un o'r pethe gwaetha oedd, ogle mwg mawr drwy'r stafell i gyd a dyda ni, run o ni'n smocio. Oedd y bwyd yn siomedig iawn. Llysia yn oer a pysgod oedd nhw'n gael, a twrci yn ddi-flas iawn ac oedd y pwdina ddim be fasa ni'n galw'n bwdina gwesty pedair seren.

Felly, pan ddewisoch chi'r gwylie yma, y safon 4 seren oedd 'da chi yn y llyfryn, ie?

Wel, i fod, ia.

Felly, oeddach chi'n disgwyl cael rhywbeth o safon go deidi?

Wel, oedd nhw ni 'di gobeithio, 'de, wedi iddyn nhw ganmol bod nhw ... bod y gwesty mor dda, 'de.

Beth am, chi'n mbod, pethe fel – oedd 'da chi ddŵr twym a pethe felly? Oedd pethe felly'n gweithio'n iawn?

Wel, ar ôl ryw dridia mi ddigwyddodd 'na ddiffyg yn y gwres canolog a fuo ni heb ddŵr poeth am dridia, os dw i'n cofio'n iawn rwan, bo ni 'di goro diodda molchi a shafio a ballu mewn dŵr oer 'de, neu ddŵr claeaf beth bynnag. Mi nitho nhw ymdrech ond oedd nhw'n cyfaddef eu hunen bo nhw wedi cael probleme ynde.

Fel arfer, os 'di rhywun yn cael probleme ar wylie mae 'na gynrychiolydd o'r cwmni, rep felly, yno i'ch helpu chi. Oedd 'na rywun fel hyn yn eich gwesty chi?

Nagoedd, doedd 'na neb o'r cwmni yn cynrychioli, nagoedd.

Oedd 'na neb yna o gwbl?

Nagoedd, dim ond y gyrrwr felly 'de.

Felly, pan aethoch chi i gwyno, cwyno at bwy wnaethoch chi, Wyn?

Wel, at rywun wrth y ddesg yma 'de. Megan a'th i gwyno at y dderbynfa 'de.

A beth oedd eu hymateb nhw?

Wel, mae'n ddrwg gynno ni. 'Da ni'n gneud y'n gora ond 'da ni 'di methu yn yr achos yma yn enwedig efo'r diffyg dŵr, 'de.

Wnaethon nhw gynnig rhoi rywbeth i chi, chi'n mbod, am yr anghyfleustra?

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw alewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

Naddo, ddim o gwbl, wedyn ddudson ni bo ni'n mynd i godi'r mater i'r pencadlys ar ôl dod adre'n 'de.

A wnaethoch chi hynny?

Do, ar un waith, bron o fewn ryw deugain, bedwar ar ôl dod adre. Ar yr ail ar hugain o Fai oedd ni'n sgwennu ato nhw.

A beth oedd yr ymateb gesoch chi?

Wel, ryw esboniada, esgusion mwy neu lai ynde, chi'n mbod, yr ystafelloedd yn ychwanegu at gymeriad y gwesty, ond mae gynnyn nhw ffor' allan wrth gwrs does, achos mae o'n deud ynde, mi wnawn ni sicrhau chi bod yr holl ystafelloedd yn cyd-fynd â gofynion o ran maint sy' 'di cael eu gosod lawr gan y Cyngor Twristiaid Lloegr ynde.

Ydy chi 'di bod gyda nhw o'r blaen, Wyn?

Naddo, rioed.

A ewch chi gyda nhw eto?

Wel, na wna mae'n debyg. Faswn i ddim yn meddwl am funud ynde?

Hywel James, cyfreithiwr 'Chware Teg', roedd Megan a Wyn yn anhapus gyda rhes o bethe ar y gwylie yma.

Mae 'na nifer o ffactore. Bosib bod e werth edrych ar rai o'r rheini yn unigol. 'Da chi'n prynu gwylie – mae 'di cael ei werthu fel cyfanswm, fel package, felly mae 'na gyfrifoldeb ar y cwmni i sicrhau bod e o safon digonol. Mae'n rhaid edrych beth sydd yn rhesymol o fewn hynny. Yn gyntaf, mae 'na gwyn ynglŷn â maint y stafell. Os 'dy nhw 'di hysbysebu e fel stafell ddwbwl, mae 'na ganllawie sy'n bodoli ar beth ydy maint stafell ddwbwl. Dw i ddim yn gwbod o'r ffeithie os ydy

e'n dod o fewn y canllawie hynny. Os yn amlwg dyw e ddim yn dod o fewn y canllawie, yna mae 'na gamarwen wedi bod a mae 'na hawl i geisio sicrhau iawndal am hynny. Mae 'na gwynion mwy cyffredinol am safon y bwyd neu safon y glendid ac ati. Dw i'n meddwl bod e'n bwysig edrych ar hynny yng nghydestun rhai o'r cwynion erill hefyd ond yn eu hunen dydy hynny ddim yn sail. Er enghraifft, mae 'na gwyn bod 'na fwg yn y stafell, neu arogl mwg, bod rhywun wedi bod yn smygu yna. Os yw'r cwmni wedi hysbysebu stafell fel stafell ddi-fwg neu bod rhywun ddim yn cael smygu ynddyn nhw a bod chi wedi gofyn am hynny yn benodol yna, mae 'na hawlie. Os 'da chi ddim wedi pennu hynny, dw i ddim yn meddwl bod 'na hawl i gael iawndal. Y brif gwyn yn yr achos yma, yn 'y marn i, ydy'r diffyg o ddŵr twym. Am dridia doedd 'na ddim dŵr twym. Dw i ddim yn meddwl ei fod e'n rhesymol bod rhywun ar wylie, yn talu am wylie, heb – boed e'n wres neu boed e'n ddŵr twym. Mae hynny, yn fy marn i, yn angenrheidiol.

Mi gysylltodd 'Chware Teg' gyda chwmni ***** sawl gwaith i fynegi pryderon Wyn a Megan Roberts ac ar ôl cryn drafod fe ddaeth y datganiad canlynol:

“Mae ***** yn edifar nad oedd Mr a Mrs Roberts wedi mwynhau eu gwyliau yng Nghwesty'r Royal yn Weymouth ar y 14eg o Fai, 2006. Yn naturiol, rydym yn bryderus fod Mr a Mrs Roberts yn anhapus gyda'u llety ac rydym wedi trafod yr holl bwyntiau a godwyd gyda hwy. Mae ***** yn ceisio cynnig y gwyliau gorau posib i'w cwsmeriaid ac rydym yn derbyn adborth cadarnhaol iawn yn gyffredinol. Ar yr achlysuron prin pan mae cwsmeriaid yn anhapus, rydym yn ymdrechu i ddatrys bob problem sydd o fewn ein gallu, mor gyflym â phosib. Fel arwydd o ewyllys da, mae ***** wedi cynnig £300 o iawndal i Mr a Mrs Roberts gan obeithio y byddant yn manteisio ar y cyfle i fynd ar wyliau gyda ni eto.”

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

Tri chan punt o iawndal i Wyn a Megan Roberts
ar ôl gwaith caled 'Chware Teg' ond beth yw
ymateb Wyn?

Ardderchog iawn. Chware teg, 'de. Diolch i chi am hynny, mae'n siwr gen i, 'de. Oedd be oedda ni 'di anfon atyn nhw ddim wedi ysgogi nhw i neud dim byd. 'Da chi wedi cael ryw atab gynnyn nhw mwy na gawson ni o lawer.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 20

I'ch atgoffa chi, pymtheg metr mewn o'r ystlys bella o'r sgrym 'na wedi troi ond Cymru yn dal â'r meddiant. Richie McCord, ydy e 'di hennill hi? Na, Dwayne Peel sydd â hi. Peel te, i Jones, Jones â phas hir i Shane Williams. Mae'n cael ei ddal gan Luke McAllister a mae 'di gosod hi nôl yn berffeth. Y tacl gan Sualo, yr wythwr, gwthio grymus gan y Cryse Duon. Maen nhw 'di cael y meddiant hefyd ac yn gwrth-ymosod ar yr ochor dywyll fan hyn, i Sivivatu. Lan ar linell dde Seland Newydd, pymtheg metr, deg metr mewn o'r ystlys agosa. Byron Kelleher Peel yno yn y man, Kelleher yn codi ar ei draed, y dacl gan Shane Williams. Y Cryse Duon yn aros – p'un a o'n nhw 'di cadw'u gafael ar honna'n anghyfreithlon. Conrad Smith â'r bêl i Carter Carter yn gweld bod yna fwllch enfawr yn camu mae Richie Gere ond yn cyrraedd gynta mae Kevin Morgan. Bwysig fod y gic yma'n cyrraedd yr ystlys a mae'i yn ar linell ddeg Cymru.

Yn amlwg, falle, Seland Newydd wedi gweld gwendid yn amddiffyn Cymru achos nag oedd y gic wedi cael ei hanelu at yr ystlys ond lawr genol y cae. Kevin Morgan mas o'r safle. Shane Williams wedi cael ei ddal yn genol y cae. Rhaid ail-drefnu os oes rhywun yn cael eu dal yn y rycia 'ma, yn enwedig tu ôl i'r sgrym.

Oedd hi'n gic ddiddorol cofia. Oedd hi'n ddiddorol achos oedd hi'n gic dda hefyd. Oedd e 'di gweld y bwllch ac a'th amdano fe a whare teg, ti'n gwbod. Maen nhw'n dod i'r bêl nawr mewn i'r llinell.

Tafliad Anton Oliver, y bachwr ar linell ddeg y Cymru ... a Seland Newydd, yr ail reng, Keith Robinson dwi'n credu, yn cael ei dynnu i'r llawr yn anghyfreithlon a chic gosb i Seland Newydd.

Wel, mae'n mynd i fynd i fod yn anodd nag yw e

drwy gydol y prynhawn – tîm gore'r byd. Mae raid, mae disgyblaeth yn mynd i fod yn holl bwysig a dyma ni, Robinson ac Allie Williams yn cystadlu am y bêl a 'da ni'n tynnu nhw lawr. Tan maen nhw yn yr awyr 'da ni'n gwbod y rheolau. Smo ni'n moy'n rhoi cyfleoedd hawdd fel hyn i Seland Newydd i gael tiriogeth a falle pwyntia.

Ond i fynd nôl i'r gic 'na yn gynt gan Carter i'r cae agored. Oedd e'n neud siwr bod Cymru'n dod i'r bêl dros yr ystlys i gael ennill y llinell a be sy'n dod o fan'ny? Cic gosb. Mae Seland Newydd yn wastad yn meddwl ar eu traed a chael pethech bach syml fel yna.

Y Cryse Duon ar y blaen o saith pwynt i ddim. Cais Luke McAllister, trosiad Daniel Carter a Charter fan hyn â chyfle i ychwanegu triphwynt arall. Pymtheg metr mewn o'r ystlys bellaf. Ryw dri deg saith metr o'r pyst. Y droed chwith 'na yn fetronomig ac eto mae 'di llwyddo. Seland Newydd ar y blaen o ddeg pwynt i ddim.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 1: TRAC 21

Plant sy'n cael eu dysgu yn y cartre yw'r pwnc heno. Fe fyddwn ni'n datgelu ymchwil newydd sy'n dangos bod fwyfwy o rieni yn penderfynu dysgu'u plant yn y cartre'. Ond, yn ôl Undebau Athrawon, yr ysgol yw'r lle gorau i ddysgu plant:

O fewn y system addysg, mae 'na fodd monitro safon addysg mae plant yn gael o fewn yr ysgolion ond pwy sy'n mynd i fonitro safon yr addysg maen nhw'n cael gartre?

Fe fyddwn ni'n ymweld â chartre yn Sir Gâr, lle mae pedwar o blant yn cael eu dysgu gan eu mam. Dyma'r dewis gore iddyn nhw, yn ôl y teulu.

Fe benderfynes i falle mai dyma y ffordd mlaen i ni. Fydde fe'n ffordd fyddde'n siwto ni fel teulu. Rhoi popeth ar y dafol, dw i'n credu mai manteision sydd fwy nag anfanteision yn beth y'n ni'n neud.

Criw o blant sy'n cael eu dysgu yn y cartre gan eu rhieni yn ymweld â'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn Nhrefach, Felindre. Maen nhw yno fel rhan o ymgyrch ddarlunio y 'Big Draw'. Swyddog Addysg yr amgueddfa yw Kate Evans.

Heddi 'da ni 'di bod efo gweithwyr sy'n dysgu plant o gartre – the home learners. Ni 'di bod yn darlunio fel Matisse yn ei henaint yn trio defnyddio papur, rhwygo papur a torri papur i dadansoddi a dehongli y peirianne sy 'da ni yn yr amgueddfa.

Mae Lowri Butterworth yn 9 oed a'n dod o Beniel, ger Caerfyrddin. Mae hi yma gyda'i thri brawd. Fe ofynnais i iddi beth oedd hi 'di bod yn neud yn ystod y bore.

Llun o machine, ife, gyda lot o cogs a wheels ynddo fe a oedd e gyda tri chain.

Oedd e'n lliwgar?

Oedd.

Pa liwie oedd ynddo fe?

Glas a pinc a gwyn a brown.

Ti na'th e ar ben dy hunan?

Na.

Pwy oedd yn helpu ti de?

Eira, Rowine, Daniel, Tom, Huw.

So, o'dd sawl un ohonoch chi gyd yn ei neud e?

O'dd.

O'dd e'n hwyl gweitho fel'na?

O'dd.

Yn ôl Kate Evans o'r Amgueddfa mae gyda nhw berthynas dda gyda theuluoedd sy'n dysgu plant yn y cartre.

'Da ni 'di bod yn trio gweithio yn fwyfwy efo'r grŵp yma ac erbyn hyn 'da ni'n cynnig cyfres o sesiynne trwy'r flwyddyn.

Ydy chi'n gweld gwahanieth yn ymddygiad y plant o gwbl, p'un ai ydy nhw'n cael eu dysgu o adre neu ydyn nhw mewn, wel, yn cael eu haddysg yn fwy ffurfiol falle, mewn ysgolion?

Na, i radde heleth mae'r hyder fan'na. Fel chi'n gweld, plant yw plant. Mae ... mae'r ystod oedran 'ma wedyn. Mae lot o deuluoedd 'da ni fan hyn, felly mae'r plant yn syth, unwaith maen nhw'n dod i'r amgueddfa, yn teimlo'n gartrefol fan hyn. 'Da ni yn cael perthynas eitha personol 'da'r plant sy'n dod fan hyn, bo ni'n nabod nhw a'u rhieni hefyd a ni'n nabod

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddo-barth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

eu cefndir nhw. Mae'r plant fan hyn, maen nhw'n llawn hyder, maen nhw'n llawn hwyl a maen nhw'n gyfarwydd â delio efo oedolion hefyd a mae hwnna'n ddiddorol i'w weld.

Mae Siriol Butterworth wedi dod â'i phedwar plentyn i Drefach, Felindre ar gyfer gweithgareddde'r bore.

Mae diwrnod fel heddi yn werthfawr iawn oherwydd pan y'ch chi'n gweithio ar ben y'ch hunan, wrth reswm, mae 'na rai manne gwan gyda chi yn y'ch gwybodaeth y'ch hunan a mae celf ddim yn un o mhyncia cryf, felly mae'r plant yn gallu dod – maen nhw'n gallu cymryd mantais o brofiad pobol erill ac o ... gallu rhywun fel Kate mewn celf ac falle cymryd rhan mewn digwyddiad sydd yn ddigwyddiad cenedlaethol. Falle 'sa chi gartre ar ben y'ch hunan fydde chi ddim yn rhan ohono fe.

Yn ôl Kate Evans, mae nifer y rhieni sy'n dewis dysgu'u plant yn cynyddu. Mae hi'n teimlo ei bod hi'n haws iddyn nhw wneud hynny y dyddia hyn.

Yn y gorffennol 'da ni wedi cydlunio'r holl brosiecte efo dysgwyr o gartre trwy Gaerdydd a erbyn hyn mae 'da ni beutu 175 o deuluoedd sy'n cynrychioli ryw 500 o bobol yn gyfan gwbl gan gynnwys y plant wrth gwrs, ar ein llyfre ni, ar ein rhestr mailo ni.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2

TRAC 1

Wel, nawr te, ddiwedd yr wythnos hon bydd cyfle i weld y clasur o ffilm, 'Wizard of Oz', yn y sinemâu unwaith eto. Mae 'di bod ar y teledu gannoedd o weithia wrth gwrs ond mae nôl yn y sinema a hynny wedi'i hadfer yn ddigidol. Un fydd wrth ei fodd gyda hyn, dw i'n siwr; ydy 'ngwestai nesa i, sef Paul Griffiths. Paul, helo, p'nawn da.

P'nawn da. Sut hwyl?

Yn iawn diolch yn fawr. Paul, yn croesawu'r fersiwn newydd yma o'r clasur?

Wel ia, fersiwn newydd eto fyth ynde. Mae 'na sawl fersiwn wedi'u rhyddhau dros y blynyddoedd felly. Mae hwn, neu hon, fydd y fersiwn ddiweddaraf i ychwanegu at restr hir iawn felly. Yr hyn sy'n ddifyr iawn ydy mae'r stori yma am wlad hudolus oedd wrth gwrs wedi cael ei haddasu gymaint dros y blynyddoedd o ffilmiau du a gwyn i gartŵn ac erbyn hyn rwan yn cael ei ail-ryddhau neu drydydd neu bedwerydd ryddhau felly ar y sgrin fawr a ry'n ni'n edrych ymlaen yn fawr iawn felly.

Felly, pan maen nhw'n addasu rywbeth fel hyn yn ddigidol, beth fydd y gwahaniaeth i ni nawr sy'n mynd i'r sinema? Fydd y llunie yn fwy siarp? Fydd y lliwie'n well? Beth – pa wahaniaeth welwn ni?

Dw i'n credu y bydd o. Dw i'n credu yr hyn maen nhw 'di neud tro yma ydy wedi glanhau y ffilm wreiddiol felly a wedi tynnu'r llwch a'r scratches bach sydd yn medru bod ar wyneb y ffilm felly ac fydd o'n edrych yn lot mwy clir ynde. Fydda nhw hefyd wedi chwara o gwmpas efo'r lliwia achos mae lliwia yn holl bwysig, wrth gwrs, yn y ffilm yma. I'r rhai sy'n gyfarwydd â'r ffilm, mi gofiwch chi bod Dorothy druan yn cael ei chodi gan y corwynt a mae cychwyn y ffilm yn ddu a gwyn a wedyn mae'n cyrradd y wlad arbennig yma,

mae'n agor y drws a 'da chi'n cael gweld y môr o liw 'ma, ' da chi'n gwbod, mae o mor mor gry' a mor effeithiol. Mae pob dim – mae ei ffrog hi'n las, mae ei gwallt hi'n goch, mae'r ffordd yn felyn, mae'r dail yn wyrdd, a mae'r lliw jyst yn eich taro chi ynde, yn amlwg, a dyna y rheswm pam dewis ei neud o yn y modd yna 'lly. A hyd yn oed y sgidia ynde – sgidia enwog coch oedd, gyda llaw, yn sgidia arian yn y stori wreiddiol ond bod cyfarwyddwr y ffilm wedi mynnu'u troi nhw'n goch er mwyn gwneud mwy o effaith ag i'r sgidia sefyll allan, fel petai.

A mae rhywun yn gweld bob Nadolig mae 'na sgidia coch yn debyg iawn i sgidia Dorothy yn y siop, bob Nadolig?

Wel, oes, oes. Mae'r slipars coch neu'r ruby slippers yn enwog iawn wrth gwrs, erbyn hyn a dw i'n credu un waith, i ddathlu achlysur arbennig – pen-blwydd y ffilm nôl dw i'n credu tua 1999, fe wnaethon nhw lunio pâr o slipars allan o rubis pur. Wel, fedrwch chi ddychmygu be oedd gwerth rheini ond mae'r sgidia dw i'n meddwl, a'r sgidia coch yn arbennig, wedi dod yn rhan annatod o hanes a holl fodolaeth y ffilm.

Achos o'n nhw'n torri tir newydd mewn mwy nag un ffordd gyda'r ffilm on'd o'n nhw?

Wel, oeddan, oeddan. Oedd yr effeithia hefyd, wrth gwrs, dyna rywbeth oedd wedi creu cryn draffarth i bobol oedd 'di ceisio addasu y stori yma dros y blynyddoedd – oedd sut i greu y corwynt yn enwedig, ynde, sy'n codi'r tŷ a'r hyn wnaethon nhw yn y ffilm, y fersiwn wreiddiol yma o'r ffilm, oedd i greu na'thon nhw adeiladu tŷ bychan a'i ollwng o, os leciwch chi, o ben to'r stiwdio a wedyn yn chwara'r ffilm am yn ôl fel bod o'n ymddangos bod y tŷ yn disgyn arnon ni yn hytrach nag yn disgyn oddi wrtha ni. Hefyd, wnaethon nhw adeiladu corwynt a be oedd y corwynt ond ryw dŵr o ddefnydd, ryw ddeg troedfedd ar hugain, ac eto rhoi top y tŵr yn sownd ar do y stiwdio, ei waelod o yn y llawr a symud y dŵr yn ôl a mlaen efo, wel,

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

*cymylau o Fullers Earth, i'r llwch 'ma i greu yr effaith
bod y gwynt 'ma, a mi oedd hwn i gyd yn betha, 'da
chi'n gwbod, ar y pryd oedd yn anhygoel felly a
peirianne gwynt 'ma sy'n creu y teimlad, a wrth
wyllo'r ffilm rwan mae rwun yn cael y teimlad bod y
gwynt 'ma'n gry.*

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 2

Stampia Dolig a jargon, dyna fydd gynno ni i chi heddiw. Mae'r Post Brenhinol yn cyhoeddi eu stampia Dolig ar gyfer 'leni. Mae 'na dri math, un yn dangos Siôn Corn, un arall â llun dyn eira, a charw sydd ar y llall. Mae hyn wedi gwylltio Cristnogion gan nad oes 'na lun o Iesu Grist yn agos at y stampia. Be' 'da chi'n feddwl? Ydy o'n worth cymryd y Crist ma's o Christmas neu a ydy peidio â rhoi llun Crist ar y stampia yn beth cwbl naturiol i wneud mewn gwlad seciwlar fel Cymru? Onid ydy Siôn Corn yn golygu mwy i'r rhan fwyaf o bobol erbyn hyn na Christ ar y Dolig? Y rhif ffôn: 08703 500 500. 'Da chi'n gwobod be i neud erbyn hyn, dydach? S'dim rhaid i mi'ch hannog chi! 08703 500 500. Yn y man mi fyddwn ni'n clywed ymateb gweinidog yr Efengyl ac anghrediniwr ond dewch ni glywed yn gynta gan Angharad Davies, uwch reolwr materion Cymreig grŵp y Post Brenhinol. Pam bod y post yn anwybyddu Crist ar Ddolg o bob gŵyl, Angharad?

"Da ni ddim yn anadnabyddu'r Crist na'r Nadolig a doedden ni ddim am droseddu'r Eglwys Cristnogol o gwbl 'da hyn. 'Da ni 'di bod yn cynhyrchu stampiau Nadolig am rhyw deugain mlynedd a dros y cyfnod hynny 'da ni wedi adlewyrchu themâu crefyddol – eglwysi, yr Iesu a'r Forwyn Fair, ffenestri gwydr ac yn y blaen, a hefyd themâu di-grefydd fel Siôn Corn, ceirw, robin goch ac yn y blaen, a wnaethon ni ymrwymiad blwyddyn diwetha i sicrhau fyddwn ni'n eilio rhwng themâu crefyddol a themâu di-grefydd. Felly, blwyddyn dwethaf, roedd 'da ni thema crefyddol, blwyddyn hyn thema di-grefydd a blwyddyn nesaf byddwn ni nôl at thema grefyddol eto.

Ond, Angharad, holl bwynt y Dolig ydy dathlu geni Crist a'r un ydy'r neges o un flwyddyn i'r llall, nid bob yn ail?

Wel, mae'r ffaith bo ni'n cynhyrchu stampiau at yr ŵyl yn nodedig o'r Nadolig a mae'r llunie ar y

stampiau blwyddyn yma yn sicir yn nodedig ar y Nadolig. Mae 'na ddyn eira, mae 'na Siôn Corn, ceirw a coeden Nadolig, a mae hynny yn hollol i ymwneud â'r ŵyl.

Dudwch y gwir rwan, ofn pechu'r crefydd eraill ydach chi, ia? Y Post Brenhinol yn bod yn PC?

Na, dim hynny o gwbl. Dim hynny o gwbl a doedden ni am droseddu'r Eglwys Cristnogol o gwbl a fel dw i'n deud, 'da ni wedi neud ymrwymiad – blwyddyn dwetha wnaethon ni deud hyn, bod ni'n mynd i eilio rhwng thema crefyddol a thema di-grefydd.

Mi ddown ni â'r Dr lolo ap Gwyn, sy'n anghrediniwr i'r drafodaeth a'r Parchedig Bryn Jones hefyd, gweinidog Methodist, Wesleiaidd yn Yr Wyddgrug 'na. Bryn Jones yn gynta', mae ishio trio pleshio pawb does? Mae hynny'n beth Cristnogol i'w wneud?

Wel, 'da ni ishio cadw pawb yn hapus, wrth gwrs ynde, ond i mi mae hyn yn golygu ildio egwyddorion, y gred, wrth gwrs, yn y Nadolig, felly. Nid jyst cael llunia o robin goch a dipyn o eira ac yn y blaen ond hefyd yr hyn oedd yn ymddangos mae'n debyg yn ystod y rhan cynta o'r deugain mlynedd, felly, y symbola Cristnogol felly ynde.

Dw i'n meddwl bod y stampia yma yn lliwgar. Maen nhw'n ardderchog. Fydde nhw'n apelio at y plant a mae nhw'n nodedig o'r Nadolig beth bynnag.

Ia, ond wrth gwrs, mi fydda hynna yn gneud ar gyfar unrhyw grefydd yn byddan, mewn gwirionedd? Dw i'n sylweddoli bod seciwlariaeth ar gynnydd ym Mhrydain felly, ynde, ond dw i ddim yn gweld bod ishio peidio rhoi sylw i'r Nadolig.

Mae'r Dr lolo ap Gwyn yn y cefndir yn bod yn

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddysgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

dawal ac yn amyneddgar: Dw i 'di ei gyflwyno fo'n barod – well i ni glywed ei farn o. Mae o'n anffyddiwr Dr lolo ap Gwyn, gŵyl Gristnogol ydy'r Dolig, dathlu geni Crist mae Cristnogion o un flwyddyn i'r llall ac mi ddyla hynna gael ei gydnabod ar y stampia?

I rai pobol falle . . i leiafrif o bobol hefyd, falle. Dylsa chi gofio mai nid gŵyl Gristnogol ydy gŵyl canol y gaea'. Mae hon yn ŵyl ymhell nôl cyn Cristionogaeth. Hynny ydy, hijacio'r peth wna'th y Cristionogion yn y lle cynta' am fod 'na bobol yn dathlu. Hynny ydy, dyna pam 'da ni'n dod â celyn i'r tŷ. Dyna pam yn y bôn mae dod â petha gwyrdd i'r tŷ, ac uchelwydd. Mae hynna'n mynd nôl ymhellach byth na Christionogaeth a mae'n dangos, dw i'n meddwl, ffordd mae y Cristionogion bellach yn sylweddoli bod nhw'n colli'r ffrwydr a bo nhw'n trio bob sut i drïo, hynny ydy, gosod eu cred ar bawb arall. Hynny ydy, mae 'na ddigonedd o betha ar y teledu a phetha felly sydd yn trio honni mai dyma wir ystyr y Nadolig a ryw betha felly.

Wel, nonsans noeth ydy peth felna. lawn, Ok, i gael ambell i beth sy'n cynrychioli eu cred nhw ond does gynnon nhw ddim hawl i fynd o gwmpas yn deud mai dim ond eu peth nhw ddyla fod ar y stampia ac yn y blaen. Fydda i'n meddwl yn amal iawn, mae cardia Dolig yn dod i'r tŷ 'ma ac yn y blaen, fydda i'n sbio arnyn nhw bob blwyddyn ... lleiafrif bach iawn sydd ag unrhyw fath o symboliaeth grefyddol arnyn nhw bellach. Petha, hynny ydy, fel robin goch a Siôn Corn a ceirw a phetha felly sy arno fo a mae'r ŵyl yma'n gawl potch o betha o bob math 'di eu cysylltu â'r gwylie canol y gaea', megis y busnes y ceirw yma. Mae hwnna 'di dod o Ogledd Llychlyn – eu peth adag canol gaea' nhw a ryw betha felly. Hynny ydy, does 'na ddim unrhyw fath o sail i'r Cristionogion hawlio yma mai eu gŵyl nhw ydy hon a neb arall, ynde.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 3

Ei mam hi, Emmeline Pankhurst, a'i chwaer Christobell, na'th sefydlu y 'Women's Social and Political Union' yn 1903, sef sefydliad oedd yn credu mewn cael pleidlais i ferched a gneud hynny drwy weithredoedd – nid drwy eirie – a beth o'n nhw 'di bod yn gneud, y merched yma, oedd torri'r gyfreth, ac mi oedd Sylvia, sef un o ferched Emmeline Pankhurst, oedd yn suffragette – wrth gwrs, y'n i gyd wedi clywed am y suffragettes – wedi torri'r gyfraith ac mi oedd hi wedi bod yn y carchar am neud pethe fel taflu cerrig, a ymosod ar bobol a bod yn dreisgar, mewn ffordd, a dyna beth oedd hi wedi neud. Mi gafodd hi gyfnod lle fuodd hi yn y carchar sawl gwaith ac yn wir, yn y flwyddyn 1913 hyd at 1914, fe fuodd hi drwy sawl cyfnod lle oedd hi ar ympryd tra oedd hi yn y carchar hefyd. Felly oedd hi'n berson, wel, oedd hi'n dod o deulu eitha militant, eitha radical o ran gwleidyddiaeth, ac oedd hi wedi mynd gyda hyn yn gyfan gwbwl ac wedi bod yn rhan o'r ymgyrch.

Yn wahanol i'w mam a'i chwaer Christobell, yn wahanol i Emmeline a Christobell, mi oedd hi'n credu y dyle'r frwydr hon dros y bleidlais i fenywod fod yn frwydr oedd yn ymwneud â dosbarth, bod hynny'n rhan ohono fe hefyd. Felly mi oedd hi â diddordeb mawr yn achos merched dosbarth gweithiol. Yn wir, tua diwedd ei bywyd hi, mi symudodd hi draw tuag at y blaid gomiwnyddol ac er iddi gael sawl dadl, mae'n debyg, gyda Lenin ei hun, mi oedd hi'n berson oedd yn gweld hawl y person cyffredin yn beth pwysig achos, wrth gwrs, y gwahaniaeth rhyngddi hi a'i mam yw na'th ei mam hi sefyll fel Aelod Seneddol dros y Torïaid. Felly, yn wleidyddol, mi oedden nhw yn hollol ar wahân ond, o ran daliade ac egwyddor hawlia merched, mi oedden nhw, y tair ohonyn nhw – wel, oedd 'na bedair – o'dd 'na drydydd chwaer, Odela dw i'n meddwl, a'th allan i Awstralia – mi na'th hi sefydlu mudiad i ferched yn Awstralia hefyd ond stori arall yw honno. Beth bynnag, oedd

y teulu yn deulu radical iawn ac yn gweld hawliau merched fel rhan annatod o fywyd, wrth gwrs, oedd yn rwbeth oedd yn eitha dieithr ar y cyfnod.

Mi oedd hi yn flaengar iawn mewn sawl ffordd. Mi na'th hi sefydlu pedwar papur newydd, mae'n debyg. Oedd hi'n ysgrifennu yn helaeth. Oedd hi'n berson oedd yn oedd hi'n weithgar iawn, oedd hi'n awdur, oedd hi'n artist hefyd ond oedd hi'n credu mewn gwrth-hiliaeth a gwrth-ffasgedd dros bopeth, ac am dros dri deg o flynyddoedd mi fu hi yn ymgyrchu ar y math o bethe fel yr achos yn Ethiopia, sef gwlad dda'th yn gartre iddi erbyn diwedd. Yn wir, mae hi wedi cael ei chladdu yn Addis Ababa dw i'n meddwl ac mi oedd hi'n gweld annibyniaeth Ethiopia fel caer olaf hawliau dynol, y dyn du felly, a fuodd hi byw tan bod hi'n 78 mlwydd oed a fuodd hi farw yn Ethiopia yn 1960.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 4

lolo, sut mae hi 'di bod arnat ti? Ti 'di bod o gwmpas dipyn yn crwydro wythnos yma?

Do, 'di treulio pedwar dwrnod wythnos yma lawr ar Lefela Gwent. Mae'r warchodfa fan'na, gafodd ei hagog, be, yn nwy fil, wel, neud i fyny oeddau nhw neu trio neud i fyny am foddi adar yr Afon Taf a'r Afon Elai fan 'ma yng Nghaerdydd a mae'r warchodfa yn un wych, chware teg.

Lawr yn dechra ffilmio oeddau ni ac – dduda i be sy'n od eleni ydy bod, yn yr ardal yma, lawr yn y de beth bynnag, bod Socan Eira a'r Coch Dan Adain yn hwyr iawn yn dod i mewn. Ges i dipyn ohonyn nhw'n llifo mewn yn hwyr y pnaun dydd Mercher – clywed y gân, y sîp, sîp fatha'r Coch Dan Adain a'r chwc-chwc-chwc fel mae'r Socan Eira'n neud.

Dipyn o Goch Dan Adain wedi dod i mewn ers hynny ond chydig iawn o'r Socan Eira ond o'dd 'na chydig ohonyn nhw lawr ar Lefela Gwent yn bwydo ar yr aeron ac unwaith eto mae'r perthi 'ma'n doraith o aeron cochion ond yno oeddau ni gyda'r hwyr i ffilmio'r drudwennod yn mynd mewn i glwydo a githon ni ryw bum deg mil ohonyn nhw ac mae o'n atgoffa fi o – mae'n rhaid bod amball un wedi gweld Bill Oddie ryw flynnadd, dwy flynnadd yn ôl, pan oedd o lawr – dw i'm yn cofio lle roedd o, ddim yn bell o Slimbridge rwla oedd o, dw i'n meddwl, yn edrach ar ddrudwennod yn mynd mewn i glwydo gyda'r nos a oedd o union run peth i lawr ar Lefela Gwent, lle maen nhw'n neud y cymyla anhygoel yma sy'n newid byth a beunydd. Mae o'n ryw fath o dwnal un munud, mae o'n gwmwl crwn munud nesa ag oeddau nhw'n mynd yn ôl ac ymlaen, yn ôl ac ymlaen am yn siwr o fod ryw hanner awr cyn yn sydyn iawn, mae un yn penderfynu cwmpo mewn i'r rhes ac a'th y cwblw lot o fewn ryw bymtheg eiliad wedyn, felly. Ellwch chi weld hwnna fan hyn wrth

gwrs. Mae o yng Nghonwy weithia. Dw i'm yn siwr os ydyn nhw yng Nghonwy 'leni, Malltraeth, Aberystwyth, llefydd felly, ac mae – os oes 'na glwydfan drudwennod yn agos ato chi, mae'n werth mynd gyda'r nos i weld yr adar yma.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 5

Bora 'ma, wel, dw i am ddechra drwy sgwrsio â Ray Gravell. Bore da i chi, Ray.

Gaynor, bore da. Bore dydd Mawrth da i ti a shwt wyt ti?

Dw i'n dda iawn diolch. Sut 'da chi ar fore, wel, ben bore fel hyn?

Wel, ar y ffordd – ar ôl gorffen y sgwrs nawr fydda i'n mynd strêr mewn i'r gawod a wedyn 'ny, bach o frecwast, gwisgo a mynd mewn i'r stiwdio a diolch am yr alwad cynnar 'ma.

Croeso cynnes i chi!

Mae'n bleser. Mae'n bleser. Ga i ddweud yn syth dw i ddim yn actor swyddogol, fel petai. Dw i ddim wedi cael y'n hyfforddi fel actor o gwbl ond . . .

Ond na, mae'r het yn ffitio yndydy? Mae gynnoch chi sawl het. 'Da chi'n gyflwynydd Radio Cymru, Radio Wales, 'da chi'n gyn-chwaraewr rygbi ond 'da chi yn, mae'n rhaid ni gofio, hefyd wedi bod yn actio yn y fflimie. Pryd wnaethoch chi gynta ta, Ray?

Wel, ddechreuodd y peth – y tro cynta erioed i fi gael rhan, ... wel, fel actor, fel fi'n hunan 'de, mwy neu lai, oedd nôl, wel, deng mlynedd ar hucen nawr: Pobol y Cwm, 1975 – 'na'r flwyddyn ges i'n ddewis i whare dros Gymru. Cynhyrwydd Pobol y Cwm, yn wir y bachan – y person ddechreuodd Pobol y Cwm, John Hefin – fe ofynnodd John i fi os bydden i'n fodlon dod ar, dod fewn i'r gyfres fel y'n hunan a mewn i'r Deri Arms, a'r pryd 'ny roedd rhaglen boblogedd iawn ar HTV, Miri Mawr, ac o'n i'n dynwared un o'r cymeriade, sef Caleb: "Gwranda 'ma, byti boi", a'n ffrind i, ffrind mynwesol i, Dafydd Hywel, Hywel Evans, fe oedd yn portreadu'r cymeriad yma yn y siwt 'na chi'n mbod. Es i mewn i flasu'r byd 'na – wel, fi'm yn

acto, ond oedd rhai o'r actorion yn Pobol y Cwm yn acto ond o fod ar y set, oedd e'n wahanol ddisgyblaeth, Gaynor.

Ydy siwr. Oeddach chi'n mwynhau o, felly?

Wel, oedd e'n rwybeth newydd sbon i fi a dw i'n meddwl bo ni i gyd, ta pwy bynnag y'n ni, ta ble bynnag y'n ni, yn meddwl o bryd i'w gilydd, diawch chi, allen ni neud 'na. Dyw e ddim mor rhwydd, dw i'n meddwl, â mae e'n ymddangos. Ond John Hefin – ac rwy'n ddiolchgar iawn i John – gyflwynodd e fi i ryw fyd a ges i ryw brofiad rhyfedd oherwydd e, a diolch i ti John, os yw e'n digwydd bod yn gwrando'r bore 'ma lawr tua Borth 'na yn y Gorllewin pell – West is best, wrth gwrs.

Oedd raid i chi gael ddeud o doedd?

Oedd raid gweud hynna.

Ond fel chi'ch hun oedda chi yn hwnnw, fel oedda chi'n deud ynde, ond mi githo chi ran, wel actio go fawr, os dw i'n cofio'n iawn, ar S4C yndo?

Do.

Hon oedd y gynta wedyn?

Wel ie, oedd hi'n gynhyrchiad BBC Cymru i S4C, drama o'r enw 'Bonner'. Richard Bonner, a John Hefin unwaith eto, John oedd y cynhyrwydd a fe oedd yn cyfarwyddo, a Siôn Eirian – y prifardd enillodd y goron yn '78 yng Nghaerdydd – Siôn sgrifennodd y ddrama 'ma. Oedd hi'n ddrama gymhleth iawn a oedd y lleoliad yn wych – hen blasdy Syr Harry Llywelyn lan tua Abergafenni. O'n ni 'na am fis ac roedd actorion profiadol iawn yn y ddrama yna ond y fi oedd â'r brif ran a o'n i'n meddwl – diawch wel oedd hwnna wel oedd hwnna fel bod mewn paradwys i ddweud y gwir yn onest.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

Oedda chi'n nervous o gymyd y rhan, Ray?

O'n!

Oedda chi?

Wel, yn ofnadw i ddechre hefyd. Oedd 'na un, wel sawl actor yn y peth, ond Meg Wyn Owen – oedd Meg Wyn Owen yn actores, mae hi yn actores brofiadol dros ben, wedi bod mewn ffilmie mawr gyda Telly Savalas.

Wnaethon nhw gymyd dipyn o berswâd i chi neud yr un gynta 'na, y'ch chi, achos oeddach chi'n gwbod mi fasa pawb yng Nghymru yn mynd i edrych arnoch chi ac yn meddwl amdano chi fel y chwaraewr rygbi, wrth gwrs. Oeddach chi ofn 'sa chi'n disgyn fflat ar y'ch gwyneb 'lly neu nithoch chi feddwl, na mae hwn yn her newydd, mae'n rhaid i fi neud yno?

Wel, oedd e'n her newydd, oedd e yn brofiadol arall er o'n i 'di cael ryw flas – blas bach oedd 'na – ond y tro 'ma nawr o'n i'n trial portreadu cymeriad y bachan 'ma, colier oedd yn ddi-waith, Richard Bonner, ac wrth gwrs, perswâd John Hefin. Chi'n nabod John, Gaynor. Mae e'n ddyn hyfryd, hynaws iawn a pan fo John yn gofyn i chi yn y modd mae e yn, mae'n amhosib i wrthod e.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 6

Mae'n gallu bod yn sefyllfa gymhleth a sensitif ar adege. Pryd 'da chi yn galw rywun yn 'chi' neu'n 'chdi' neu 'ti'? Dw i'n galw 'nhad yn 'chdi' a mam yn 'chi', ymysg petha erill, a pheidiwch â gofyn pam. Ar y rhaglen nôl ym mis Mai mi ges i ymateb y sgriptiwr a'r cyn athro, Gwion Rees o Efail Isaf, ger Pontypridd, sy'n galw'r mwyafrif o bobol yn 'ti', a rhywun sy'n galw'r mwyafrif o bobol yn 'chi', sef y sylwebydd rygbi a'r cyn brifathro, Alun Wyn Bevan. Dw i 'di galw'n rhieni yn 'chi', dw i'n galw 'ngwraig yn 'chi' ac, a bod yn onest, cyn bod rhywun yn cysylltu â mi o'r cyfrynge o'n i rioed wedi meddwl ryw lawer am y peth. Er enghraifft, o'n i'n meddwl yn ôl i 'nyddiau ym myd addysg. O'n i'n galw bob bachgen yn 'chi'... rwy'n flin ... yn 'ti', ond wedyn pob merch yn 'chi'. Ond ...

Am ba reswm?

Mae'r peth yn rhyfedd a bod yn onest.

Oedd gynnoch chi ryw reswm i neud hynny?

Na, dw i'm yn credu ond mae'n rhaid fi ddweud, pam mae rhywun dw i ddim yn ei adnabod yn dda iawn yn 'y ngalw i yn 'ti', rwy'n dechre drwgdybio chi'n gwbod, yndife. Mae'r un peth yn Ffrangeg a'r 'tu' a'r 'vous' 'ma. Falle bod, fel dwedsoch chi, y ffaith yn Lloegr ac yn y Saesneg mai 'you' yw pawb yn neud pethe'n haws o lawer ond ie, dw i – falle bod e'n ymwneud â pharch at rywun. Dw i ddim ... dw i ddim yn hollol dw i ddim yn gwbod ond pob ffrind sy gen i – os dw i'n nabod rhywun yn dda iawn yna 'ti' yw nhw a mae nifer o ffrindie, a bod yn onest, dw i wedi galw 'chi' am gyfnod a wedyn dod i nabod nhw'n dda ac yn sydyn reit mae'r 'chi' yn troi'n 'ti'.

Ia, ond 'da chi yn dal i alw'ch gwraig yn 'chi'. Be' mae hynny'n ddangos?

la, wel, dyna ni, parch aruthrol mae'n debyg yndife a 'chi' mae hi'n 'y ngalw i. Wedyn dw i'n galw'r plant yn 'ti' ond maen nhw'n galw fi yn 'chi'. Felly mae testun doethuriaeth fan hyn w i'n credu.

Mae 'na raglen lawn o Taro'r Post, diolch i'r drefn. Rwan ta Gwion, dudwch y'ch hanes chi. 'Da chi'n fwy o berson 'ti'?

Odw, ar y cyfan. Fel o'dd Alun yn esbonio nawr, o'dd athro 'da ni yn yr ysgol hefyd na'th ddehongli'r peth i ni fel plant a dweud ddyle ni alw'n cyfoedion a'n cyfeillion yn 'ti', ac i bobol sydd 'da ni barch iddyn nhw, i alw nhw'n 'chi' ac o ganlyniad na'th cyfaill da i fi alw bob athro ac athrawes, neu bron bob un, yn 'ti' am flynyddoedd wedyn! Fyddai'n ddiddorol gweld, gyda'r cyfaill 'ma, mae nawr yn gweithio gyda lot o'r Aelodau Seneddol ac ... y ... gyda digwyddiade heddi, licsen i wybod pa rai ma' fe'n alw'n 'chi' a pa rai ma' fe'n ei alw'n 'ti', a pam.

Pwy mae o'n barchu, ond beth amdanoch chi? Ydach chi'n gwahaniaethu? Lle 'da chi'n gwahaniaethu?

Yn y dadansoddiad mwya' syml gellir defnyddio 'ti' tra'n ymdrin ag unigolyn a 'chi' tra'n cyfeirio at fwy nag un person ond, fel mae Alun yn awgrymu, fel gydag unrhyw beth yng Nghymru, mae 'na amrywiaethe a mae 'na gymlethdode. Felly fydden i yn sicir yn defnyddio 'chi' i'r lluosog ond mae hyd yn oed tystiolaeth yn dangos bod yr arferion yn amrywio o genhedlaeth i genhedlaeth, nage jyst yn ddaearyddol ond o ran oed pobol. I radde, mae'r 'ti' neu'r 'chi' ni'n galw rhywun yn sefydlu'r berthynas sy' rhyngon ni i bob bwrpas. Pan wnes i ymchwil ar y peth ddes i ar draws un cwpwl, hen gwpl, a'r wraig yn cyfeirio at y gŵr fel 'chi' a'r gŵr yn cyfeirio at y wraig fel 'ti'. Nawr dw i'm yn gwbod beth fydder ffeministied yn neud mas o'r frawddeg fel'na.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

la, o ran y dysgwyr, mae'r ddau ohonoch chi wedi bod yn athrawon. Alun, faint o gymhlethdode a thrafferthion roedd hyn yn beri i ddysgwyr?

Odi, dw i 'di cael y profiad yn ystod y blynyddoedd i ddysgu Cymraeg i oedolion a dw i yn . . . oherwydd yr arferiad 'ma yn naturiol yndife ... dw i 'di – mae'r rhan fwya o'r rhai dw i wedi ddysgu, ni 'di canolbwyntio ar y 'chi' ond mae'n amlwg iawn wedyn, dw i'n siarad 'da dysgwyr sy' wedi cael eu dysgu o bosib mewn canolfanne erill a maen nhw'n canolbwyntio ar y 'ti', felly mae e yn gymysgwch llwyr yndife, chi'n gwbod. Mae'n dibynnu ar yr athro, ond eto does 'na ddim shwd beth â norm yn bodoli.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 7

Shw mae, Ioan. Croeso nôl i Gaerdydd. Shwd mae e i fod nôl?

O, dw i wrth fy modd. Mae wastad yn braf i ddod gartre ond yn brafiach fyth i ddod gartre gyda premier ffilm fowr fel hyn a dw i ... na ... dw i wrth fy modd.

Wnes i fwynhau'r ffilm yn fawr iawn. Beth oedd y dechre? Shwd gefes di'r rhan? Ife rywbeth fel sgript drwy'r post neu oedd Jerry Bruckheimer yn ffono ti a dweud, "Dere draw i weld fi"?

Na, ges i glyweliade, nifer o glyweliade, i ddechre gyda'r cyfarwyddwr castio a wedyn ges i glyweliad gyda Antoine Fuqua ei hunan a wedyn 'ny cyfweliad wedyn gyda Jerry Bruckheimer a bues i'n lwcus iawn yn y gorffennol i weithio gyda fe ar Black Hawk Down felly oedd 'na ryw gysylltiad, fel ryw berthynas gyda ni eisoes a fi'n falch iawn bo fi 'di neud y rhan fach 'na yn ei ffilm, yn Black Hawk Down, a ges i ran fawr wedyn yn hon.

O ti'n marchogaeth eitha tipyn yn y ffilm 'ma. Cefai't ti wersi arbennig neu ife meithrinfa Llangrannog ddechreuodd ti off?

Ie, meithrinfa Llangrannog! Na, ges i – o'n i'n lwcus – ges i'n hyfforddi gan yr un bechgyn na'th y'n hyfforddi ni ar y ffilm, blynyddoedd yn ôl, pan wnes i'r rhaglen Poldark. Felly yr un bois, falle oedd 'na ryw fath o continuity pan o'n i'n cael 'y nysgu ar y ffilm a githo ni bythefnos o ysgol farchogion yn yr Iwerddon ble o'n i'n dysgu i farchogeth yn y boreau a marchogeth gyda ... mewn ryw fath o batryme gyda'n gilydd, a wedyn 'ny neud yr holl choreography, yr holl ymladd a'r brwydro oedd raid i fi neud yn y ffilm yn prynhawn a wedyn, wrth gwrs, gan bod ni'n byw yn Iwerddon oedd tipyn o whare ambeutu yn y tafarne yn yr hwyr. Ie. I geisio datblygu'r cymeriade yndife.

Oedd e'n ffilm anodd i ffilmio?

O'dd, o'dd. O'dd hi'n ffilm gorfforol iawn ond er gweud hynny dw i ddim yn eistedd tu ôl i ddesg bob dydd o naw tan bump. Dw i allan yn y awyr agored yn iste ar ben ceffyl yn edrych yn gret ac yn esgus bod yn blentyn eto, a gweud y gwir. Bydden i'n disgrifio fe fel bod yn blentyn yn yr ardd gefn yn whare 'da darn bach o bren a, yn sydyn iawn, dw i'n neud e o ddifri.

Dw i'n clywed bo ti'n dioddef o glefyd y gwair. Oedd hynna'n broblem tra bo ti'n ffilmio?

Mae wedi bod, yn y gorffennol, yn broblem oedd yn erchyll pan o'n i'n ifancach ond dw i'n tyfu mas o'r peth tipyn bach ond oedd raid i fi gael chwistrelliad yn 'y nhîn i gael gwared o'r peth am y cyfnod yr haf a mae wedi gwitho, chware teg. Felly dw i'n falch iawn bod rwbeth ar gael nawr i helpu'r sefyllfa.

Tra bod y cyfnod ffilmio, haf dwetha, fe gefes di dy urddo i'r wisg wen. Oedd hwnna'n broblem? Oedd e fel bo ti'n dweud wrth Jerry Bruckheimer, "Look Gerry, I'm off to become a druid in Wales". Oedd hynna'n broblem?

Na, dim o gwbl. Na oedd e'n ... fel oedd hi'n digwydd, withodd y cyfan mas ... o'n i ddim yn gwitho ar y dyddie hynny a, whare teg i'r Orsedd, nitho nhw newid y'n urddo i i'n siwto i, a gweud y gwir. Felly, na, dyna'r foment mwya ... wel, moment mwya prwd dw i 'di cael yn 'y mywyd dw i'n credu a dw i'n falch iawn o fod wedi cael y'n urddo.

Ar ôl ti orffen hyrwyddo hwn, ti'n gadel Caerdyd nawr, ti'n mynd i Efrog Newydd?

Na, dw i'n mynd nôl i Los Angeles a fydda i'n mynd lan wedyn 'ny wythnos nesaf i Vancouver i ddechre ar y ffilm newydd 'ma, The Fantastic Four.

Beth yw dy gymeriad di yn hwnna?

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

Wel, dw i'n chware Dr Reed Richards, aka Mr Fantastic, a mae e'n medru ymestyn ei freichie fe a'i goese fe, a'i gorff cyfan a gweud y gwir, a dyna . . . dyna ei bwere arbennig e.

"I'r gâd, cerddwn ymlaen, ry'n ni yma o hyd"

Diolch yn fawr iawn i ti, loan.

Mae 'na ffilm gyda Matthew Rhys yn dod lan hefyd, oes e?

Na, yn anffodus, oedd 'na sôn wedi bod yn y gorffennol bod ni'n mynd i neud ffilm gyda'n gilydd ond, yn anffodus, gan bod y cyfle 'ma wedi dod i whare Mr Fantastic, fe benderfynes i fynd i neud hwnnw yn lle.

A ddyle ni ddeud e – James Bond?

Wel, dw i 'di bod yn lwcus iawn yn y gorffennol, a dal i fod – si yw e, dim ond si sy' ar led mod i, mae ryw gysylltiad gyda'r cymeriad ond . . na, mae e'n flattering iawn – bydden i wrth 'y modd yn whare'r rhan ond dw i ddim wedi cael galwad oddi wrth Barbara Broccoli yn cynnig y rhan i fi 'to. Wel, os nid tro yma, y tro nesa falle?

O, gobitho'n fawr, ie. O, bydden i wrth fy modd. Fydden i'n ffŵl i droi'r cyfle 'ny lawr dw i'n credu.

Bydde unrhyw ddiddordeb gyda ti yn cyfarwyddo neu gynhyrchu ffilmie?

I fod yn onest, does dim diddordeb wedi bod 'da fi eriôd a dweud y gwir. Falle ddatblygith e yn y dyfodol ond dw i jyst wrth fy modd yn actio ar hyn o bryd a gweithio gyda cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr, ond pwy a ŵyr? Fel mae'n ... fel mae Tom Cruise wedi neud, mae e'n cynhyrchu a chyfarwyddo pethe ei hunan a gobitho un dwrnod bydda i â'i statws e a bydda i'n gallu cynhyrchu'r cyfan y'n hunan.

Pob lwc i ti a diolch i ti, loan, a llongyfarchiade gyda'r ffilm 'ma. A, fel dwedes ti cyn dechre'r ffilm neithiwr, wedes di rywbeth fel hyn:

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 8

Fe fuodd e ar un cyfnod yn dyfwr tomatos, y tomatos gore a welodd y byd erioed, yn ei farn e. Roedd y gwaith hwnnw yn ei alluogi i dreulio rhan fwy o'r amser yn gwleidydd ac yn cenhadu dros Blaid Cymru, y bu'n Llywydd arni am dri deg chwech o flynyddoedd. Roedd e'n heddychwyr cyn iddo fod yn wleidydd, rhywbeth a achosodd gryn drafferth iddo fe a'i rieni yn Y Barri adeg y rhyfel a'r rheswm iddo fynd i fyw i berfeddion y wlad yn Sir Gâr. Priodi Rhiannon; hebddi hi, medde fe, fydde fe byth wedi gallu gneud yr hyn na'th e dros Gymru. Dim ond un Gwynfor sy'. Mae'r Evans yn amherthnasol ac fe es i draw ato i'w gatre, Talar Wen, ym Mhencarreg.

Mae 'na ryw daeogrwydd yn bod yng Nghymru, ryw ddiffyg hyder affwysol yn bod yma yng Nghymru a un o'r gobeithion sydd gen i y bydd y Cynulliad hwn ... fel y bydd e'n gweithio'n dda, a fel y bydd e'n tyfu ... y bydd y Cynulliad hwn yn adfer hyder ymhlith mwyafrif mawr pobol Cymru. Dyna sydd eisie fwy arnon ni.

A beth am yr hollt yma maen nhw'n dweud nawr sydd wedi cael ei achosi, yndife, sef hollti Cymru lawr yr hanner?

Wel, does 'na ddim hollt fel'na mewn gwirionedd achos fe bleidleisiodd deugain y cant o bobl dwyrain Cymru dros y Cynulliad, dim cymint â hynny yn llai na phobl gorllewin Cymru, felly ryw stori fach, myth, yw'r hollt 'ma.

Wrth gwrs, y mewnfudwyr hefyd yndife, mae 'na gynifer ohonyn nhw wedi dod i fewn i Gymru, yn enwedig ar yr ochor ddwyreiniol ond, wrth gwrs, 'da ni'm fod sôn am rhain yn effeithio ar y bleidlais ond mae'n rhaid bod 'na effeth wedi bod ar y bleidlais?

O, mae'n siwr, o achos mae 'na gannoedd o filoedd ohonyn nhw, hyd yn oed yn Sir Fôn. Mae yn agos i gwarter poblogaeth Môn wedi'u geni yn

Lloegr. Saeson y'n nhw, ac mae hyn yn wir hyd yn oed am yr ardaloedd gwledig ffordd hyn. *Lleiafrif onid e o'r mewnfudwyr yma sy'n fodlon toddi i'r gymdeithas Gymraeg, felly?*

la, mae hynny'n wir er i ni gychwyn mudiad i geisio cael llawer iawn mwy ohonyn nhw.

'Pont?'

'Pont' oedd enw'r mudiad, ie, ac mae 'na ganghenne yn dal i fod ym Mhont ond doedd dim – o'n ni ddim yn gallu fforddio cael trefnydd llawn amser; wrth gwrs, ac mae'n anodd iawn cadw mudiad fel'na i fynd heb hynny. Ond, beth oedd y mudiad yna'n neud oedd ceisio cael mewnfudwyr i gryfhau bywyd Cymru, i ymroi i'r bywyd Cymreig, a nhw achosodd y broblem yma yn y lle cyntaf. Nhw fydda'r feddyginiaeth, ac mae llawer, wrth gwrs, wedi ymateb. Mae'n rhaid dweud bod 'na gannoedd lawer ohonyn nhw sydd wedi dod yn Gymry ardderchog. Mae'r rheini i gael trwy'r wlad ond lleiafrif bach y'n nhw o'r rhai sydd wedi dod i mewn.

Wrth gwrs, o'ch chi'n cael y'ch beirniadu ar un adeg fel arweinydd y blaid nad oedd ddim yn gallu denu y di-Gymraeg yn y cymoedd?

Ie, wrth gwrs o'n ni'n cael ein cyhuddo o fod yn blaid i'r Cymry Cymraeg ac oedd e'n wir. Oedd llu o bobol yn dweud na allen nhw ddim perthyn i'r Blaid am nad oedden nhw'n siarad Cymraeg. Fe ddywedodd llawer hynny wrtho i ac felly pan ofynnodd Saunders Lewis yn ei ddarlith enwog 'Tynged yr iaith' ym 1962 i'r Blaid ymgyrchu o blaid yr iaith mewn ffordd uniongyrchol, torri'r gyfraith ac yn y blaen, o'n i ddim yn gallu cytuno o achos fydde hynny'n neud ni'n fwy byth o fudiad iaith ac fydde'r Blaid fel plaid wleidyddol yn methu ac felly fe sefydlwyd, gan aelodau o'r Blaid, aelodau ifanc o'r Blaid fel John Davies a Teddy Millward ac

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

eraill, fe sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith a dyna oedd y ffordd ragorol o weithredu ac maen nhw wedi bod yn arwrol, wrth gwrs, eu gweithrediade. Mae ymhell dros fil ohonyn nhw wedi bod yn y carchar. Wel, mae hwnna'n siarad drosto'i hun. Does dim ysbryd fel'na wedi bod yng Nghymru ers canrifoedd lawer.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 9

Wel, mae gan Gymru'r meddiant ar yr ochor dde. Simon Davies. Davies dal i fynd. Mae'n anlwcus, mae'n dal i frwydro. Simon Davies ac mae o'n ennill cic gornel. Mae Simon Davies, 'da chi'n cofio pan ... y cyfnod pan oedd Cymru ar ei gore dan Mark Hughes ... Simon Davies a Mark Delaney mor effeithiol lawr yr ochor dde.

Wel, dyna ydy ei gryfder o, yn rhedeg efo'r bêl, yn torri i fewn i'r cwrt cosbi, unwaith eto yn dangos ei gryfder. Dydy o ddim yr hogyn mwya' ond yn dangos ei gryfder yn gwthio un neu ddau o chwaraewyr Cyprus oddi ar y bêl.

Cic gornel fewn. Mae Bellamy yno ac mae 'na gyfle fan hyn i Gyprus i geisio gwrth ymosod a Makridis sydd â'r meddiant. Mae gynno gymorth o'r tu allan iddo fo ac yn mynd trwy'r canol y mae Aloneftis. Y capten sydd ar bêl ar hyn o bryd. Okkas ... Okkas draws ochor dde y cae i Gyprus, i Theodotou. Croesiad fewn i'r canol, peniad allan gan Richard Duffy. Y bêl yn ôl fewn i ochor y cwrt cosbi a mae 'na dipyn o amser i Gareth Bale ac mae o'n clirio'r bêl fyny tuag at yr hanner ffordd, jyst dros yr hanner ffordd, a thafliad i Gyprus.

la, ella bo chi'n gweld enghraifft fanna o wahaniaeth safon hwyrach rhwng Cyprus a Slofacia. Do, mi ddaru Cyprus wrth-ymosod yn fanna ond oedd cyflymdra y gwrth-ymosodiad ddim hanner mor gyflym ag oedd Slofacia'n medru neud dydd Sadwrn. Mi ddaru hynny ganiatáu i fechgyn Cymru ddod yn ôl yn un rhes ar draws y cwrt cosbi ac amddiffyn o fanno.

Earnshaw, aros am y rhediad gan Bellamy. Mae Bellamy mewn fan hyn. Bellamy heibio'r golwr ond mae'r ongl yn anodd ond oedd o'n gyd-chwarae bendigedig o ganol y cae a thrueni i Craig Bellamy, oedd o'n haeddu gwell.

Wel mae o'n be 'da chi'n edrych amdan y ddau

flaenwr i neud ydy chwarae efo'i gilydd, chwarae un, dau, rhediad unwaith eto, rhediad gwych gan Bellamy ond ei gyffyrddiad cynta fo ychydig bach rhy galad a'r bêl yn mynd allan am gic gôl.

Ond dw i'n meddwl bod Bellamy yn weddol saff, oes oedd o'n mynd i gael y cyffyrddiad cynta, bod o'n mynd i ddenu'r golwr i mewn a mi ddaru'r golwr fod yn glyfar iawn iawn yn dal ei hun yn ôl rhag mynd i mewn am y sialens yna.

Dwn i'm pam oedd o'n poeni oedd o'n gwbod 'sa fo'n cael ei gosbi beth bynnag oedd o'n neud, nagoedd?

Bale yn codi'r bel ymlaen i'r sgoriwr Kumas, Kumas – mae'n cael dipyn o lwc ond mae o'n canfod Carl Robinson. Robinson, y bas ymlaen tuag at Bellamy. Dydy Bellamy ddim yn camsefyll. Mae 'na gyfle rwan am ddwy i ddim ... Craig Bellamy ... fewn i Earnshaw .. mae'n ddwy i ddim. O, gwych! Mae'r bartneriaeth wedi gweithio ac mae Earnshaw yn dathlu ac yn mwynhau'r eiliad, ac mae'r dorf ar eu traed. Dwy i ddim i Gymru.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddisgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 10

Pan oeddwn i'n ddeuddeg oed, fel dwedes i, yn symud i Lanuwchllyn, pentre Cymraeg eto a'r un mor ddiwylliedig, fywiog felly 'de, ac yna yn niwedd y pumdege roedd y byd pop yn Saesneg yn ymysgwyd, ynde, a Cliff Richard a ... Adam Faith a'r rhain, a'r rhaglenni cynta ar teledu – Six-Five Special, amrwd iawn iawn, wrth gwrs, o edrych yn ôl arnyn nhw, ynde. Roedden ni'n gwyllo'r rheini – ddim yn cael llawer o flas ar y Six-Five Special a'r rheina ond roedd Luxembourg mlaen weithie yn y tŷ pan oedd dad a mam allan felly, ynde. Mi ddo'th dylanwade y byd pop Saesneg i mewn, hyd yn oed i ardal Gymraeg fel Llanuwchllyn.

Dw i'n cofio 'mrawd, Arthur, yn prynu gitâr – oedd hyn flynyddoedd cyn i mi neud – ac yn cael tipyn o hwyl arni, a ... yn cofio helynt y sôn am y pick-up cynta' felly 'de, i roi ar y gitâr acoustic i gael mwy o sŵn ac felly roedd rhywun mewn cysylltiad â'r byd yna drwy Arthur 'y mrawd, felly.

Cyfan fedrwn i neud oedd deud jôcs neu canu caneuon gwerin digyfeiliant, ac yna yng Nglan-llyn, dw i'n meddwl, i ddechre, oedd rhywun neu'i gilydd wedi dod â gitâr yno a finne yn mynd ati i ddysgu ryw gord neu ddau ac yna yn mynd ati i ganu ryw ganeuon syml i gyfeiliant y gitâr 'ma a chael blas arni 'de, a dw i'n cofio casgliad o ganeuon gwerin americanaidd wnes i bigo fyny gynta ac yna chwilio, wrth gwrs, am y caneuon oedd â'r cordie o'n i'n gwbod a jyst yn mynd drwyddyn nhw, ac yn wir, yng Nglan-llyn, yn Saesneg, mae'n syndod meddwl erbyn hyn, felly, ond yn Saesneg wnes i ganu gynta oherwydd, wrth gwrs, doedd 'na ddim caneuon o'r fath yn Gymraeg, ynde. Ond cam bach iawn oedd o mewn gwirionedd – er fod o'n gam mawr mewn rhyw ffordd falle – oedd sylweddoli fod 'na eiriau Cymraeg oedd yn mynd ar y pethe fel "Froggy Went a'Courting" ynde, a rhoi Gee Ceffyl Bach ar honna a dyna'r blas cynta ges i ar ganu pop i

gynulleidfa oedd yn gwirioni oedd yng Nglan-llyn un wythnos, y plant yn gwrthod mynd i'r gwely felly 'de, heb i mi ganu unwaith eto a'r swyddogion yn mynd i banics glân oherwydd bod nhw ofn fod 'na riot ar eu dwylo nhw, felly 'de, a'r cyfan o'n i'n neud oedd canu'r Gee Ceffyl Bach 'ma, ryw bethe syml fel'na 'de ac .. y... Meddwl Amdanat Ti.

Wrth gwrs, o'n i wrth fy modd achos o'n i yn dipyn o extrovert mewn rhyw ffordd. Oedd perfformio'n dod yn naturiol i mi ond oedd hyn yn beth hollol newydd, wrth gwrs, ynde, yr apel yma oedd caneuon syml fel'na yn gael. A dyna oedd y dechre. Dw i'n cofio ryw ddeiseb wedyn yn mynd i mewn gan wersyllwyr Glan-llyn i bapur yr Urdd, deiseb i'r BBC a TWW yr adeg honno yn gofyn iddyn nhw roi cyfle i'r dalent fawr 'ma oedd 'di dod i'r amlwg yng Nglan-llyn, felly.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 11

Cyn i'r milwr gyfri pump, roedd y ddau wedi diflannu rownd cornel y stryd. 'O, be wnawn ni?', llefai Jean wrth i Emile ei thynnu ar ei ôl drwy'r tywyllwch. Rhedodd nes dod i ardd gefn ei gartref. Diolchodd i'r drefn nad oedd gwylwyr y fan honno hefyd ac aeth at ffenest y bwtri. Yr oedd yn gil-agored, ac wedi ei hagor led y pen, arhosodd Emile am eiliad i wrando, ei goes dros y silff. Roedd bron yn sicir iddo glywed sŵn rhywun yn symud yn y tŷ. "Na, dychymyg," meddai wrtho'i hun. Yna, â'i galon fel gordd, aeth drwy'r ffenestr yn ofalus. Nid oedd drafferth yn y byd iddo deimlo'i ffordd o gwmpas y tŷ mewn tywyllwch dudew.

"O'r golwg, ferch. Wyt ti'n clywed?"

Clywodd leisiau'r milwyr yn ceryddu ei chwaer oddi allan. Arhosodd yn ei unfan am eiliad i wrando ar Jean yn erfyn am gael mynd i mewn drwy'r drws i'w chartre. "Da iawn Jean", meddai'n isel, "dal di atyn nhw. Fydda i ddim yn hir nawr". Yna, i fyny'r grisiau ag ef ar flaenau ei draed. Agorodd ddrws ystafell wely ei dad a sefyll yno yn y tywyllwch yn gwrando ar ei galon yn curo fel drwm. Yna, teimlodd ei ffordd tua'r drôr. Gafaelodd yn y dwrn a'i agor ac yna fferu am eiliad. Roedd y sŵn i'w glywed eto. Sŵn fel petai rhywun yn anadlu'n drwm yn yr ystafell.

"Pwy sy' 'na?" mentrodd ofyn, ei lais yn ddieithr hollol iddo. Ond ni ddaeth ateb o unman. Chwiliodd y drôr yn frysiog, y chwys yn rhedeg yn oer i lawr ei ruddie. Yna, gwaeddodd yn uchel wrth deimlo llaw galed yn cau am ei law yntau.

"Dim un gair, y gwalch."

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 12

Chydid iawn ohonoch chi fydd wedi clywad sôn am y cymeriad dw i am ddeud gair neu ddau amdano fo heno 'ma a hyd yn oed wedi i mi ei enwi fo, dim ond chydid iawn o bobol mewn rhyw gylch o bum milltir i Borthmadog oedd yn ei nabod o, ond roedd i Rolant ei arbenigrwydd a chyn diwedd y sgwrs 'ma dw i'n hyderu y byddwch chi yng nghanolbarth a de Cymru wedi teimlo rywfaint o iâs yr arbenigrwydd hwnnw. Cwta ddeufis sy 'na er pan fu farw Rol, Croesor Bach, neu Rolant Panwyl Williams, i roi ei enw fo'n llawn, ac yng Nghroesor Bach, Croesor, yn un o dri o fechgyn, y magwyd o. Mi fuo'r ddau frawd arall, sef Dafydd a Ben, farw yn sydyn a disymwth, chydid o flynydoedd yn ôl a dull Rolant o fynegi ei ddyhead o am farwolaeth debyg oedd hwn: "Dw i'n disgwyl ca i farw â sgidia am 'y nhraed," a mi gafodd, yn union felly.

Ro'n i wedi dod i nabod Rolant Williams ers tua ugain mlynadd, nid yn rhyfeddol o dda ond yn ddigon da, er hynny, i fynd ato fo i'r tŷ am sgwrs ryw unwaith neu ddwy ac amal i dro y bŵm i'n sgwrsio efo fo ar y stryd ym Mhorthmadog. Roedd o wedi dod o Groesor ac wedi setlo ym Mhorthmadog ers tro byd a phan ofynnodd rywun iddo fo yn fuan ar ôl y mudo sut oedd o'n setlo yn y Port, medda Rolant, "Dw i'n hapusach na buo mi er pan o'n i'n hogyn deg oed yn bwyta eirin tagu", a dyna i chi atab sy'n gyforiog o awgrymiada. Hynny ydy, roedd o wedi dod o gefndir mor llwm a moel nes y cyfrifid surni eirin tagu yn foethusrwydd. A dyn efo'r ddawn a'r gallu i goinio cymariaethau cofiadwy fel yna oedd Rol, Croesor Bach. Mi ofynnodd rywun iddo fo rywdro sut ddyn oedd hwn a hwn, a dyma'r atab: "Y dyn iawn i ddeud bod hi'n braf neu bod hi'n bwrw wrtho fo".

Roedd o wedi bod yn gweithio ar un adag yn y gwaith set ym Minffordd a mae 'na stori amdano

fo yn sôn am ryw wsnos o dywydd dihafal o boeth yn y cyfnod hwnnw. "Erbyn dydd Gwenar," medda Rol, "roedd hi wedi dwad yn anioddefol a dyna hi'n dod i glecian at y tri o'r gloch yma ac yn law t'rana mwya diawledig welist ti rioed. Ro'n i 'di cychwyn yn bora efo clamp o het wellt noblia welist di am ben neb ond pan o'n i'n cyrraedd yn f'ôl chydid wedi pump roedd hi wedi mynd yn union fel clustia spaniel".

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 13

Pentre newydd ydyw'r Cefen, un a godwyd ar y comin a rhai o gaeau Bryn-brain ddiwedd y ganrif ddwetha a dechrau hon. Yn hyn a hyn o dai, rhai o berfeddwlad Sir Gâr a ddaeth dros y Mynydd Du i weithio'n y gweithfeydd glo carreg. Pentre glofaol oedd Cwm Llynfell hefyd er mae e'n hen hen bentre, o leia yr oedd yna achos Annibynnol cryf yn chwarter ola canrif Cromwell, ac i Eglwys yr Annibynwyr yng Nghwmllynell y perthynai'r Evan Williams arwrol hwnnw a fu'n efengylu mor bell â Shir Gaernarfon ym mlynnyddoedd cynnar y Diwygiad Methodistaidd. Yn awr fe ddileir y rhaniad naturiol hwnnw.

Dydw i ddim wedi byw gartre ers dros bymtheng mlynedd. Yn y cyfamser fe newidiodd y lle fel pob man, ond y mae'r gorffennol, pell ac agos, yn fwy byw i'r absennol, a thirion i bwyllgorwyr y Swyddfa Gymreig wybod y bydd eu penderfyniad nhw yn rhwym o gleisio dychymyg a chof un creadur o Gefen-bryn-brain o leia, a hynny yn o arw. Fydd y lle byth bythoedd yn rhan o Forgannwg i mi er mai Morgan ydy f'enw i.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddosbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 14

O edrych yn ôl ar y'ch cyfnod chi fel golygydd "Y Cymro", pa bethe roddodd fwy o foddhad i chi, chi'n meddwl, yn bersonol?

O, wel faswn i'n medru dewis hyn a dewis y llall, wyddoch chi, oedd 'na bethe gin Bob Owen, Croesor, a phob math o bethe oedd yn hynod lwyddiannus, ond y peth oedd yn rhoid mwya' o foddhad i mi oedd fod y cylchrediad yn codi. Gen i ddi-ddordeb angerddol yn hynny achos, i mi, 'sa gin i'm diddordeb mewn golygu papur newydd Cymraeg, na papur newydd mewn unrhyw iaith, â'i gylchrediad yn mynd i lawr. Oherwydd adlewyrchiad o'ch methiant personol chi'ch hun ydy o, oherwydd ar y golygydd mae'r bai yn y pen draw a'r peth mawr i mi oedd bod y cylchrediad wedi, wel, mi ddyblodd, mi dreblodd a mi na'th yn well na hynny, ac roedd hynny'n rhoi boddhad mawr i mi, a hefyd y ffaith bod 'na bobol mewn tai cyngor yn darllen Y Cymro – hynny oedd y boddhad.

Tua faint oedd y cylchrediad pan gychwynnoch chi ar y gwaith?

Yr oedd y cylchrediad yn dipyn llai na deg mil yn y dechre a mi gyrhaeddodd bron i wyth mil ar hugain.

O'ch chi'n cyfeirio fan'na at fobol mewn tai cyngor. Fasa chi'n deud bod y gweithgarwch yna nawr wedi cael ei drosglwyddo i'r papure bro?

Ydy, i ryw radde, yndi, ond mae'r rheini'n apelio, w'ch chi. Mae'n anodd iawn iawn gwerthu papur cenedlaethol oherwydd toes 'na mo'r apêl fro ynndo fo. Wyddoch chi, mae pobol yn prynu papura bro sydd yn ardderchog i neud i bobol ddarllan Cymraeg, yn rhannol am bod 'na gyfeiriada atyn nhw, eu teuluoedd a'u petha, agos ata chi. Rwan os 'da chi yn – y'chi mae dod â papur

ar raddfa genedlaethol yn anodd iawn, ac un o'r pethe wnaed efo'r Cymro oedd ei neud o yn argraffiada. Er enghraifft. roedd yr argraffiad ar gyfar Sir Gaernarfon oedd yn cynnwys ryw ddwy dudalen yn arbennig i'r Sir, yn gwerthu deuddeg mil a hanner o gopiau, oedd yn lot fawr o bapura newydd ar y pryd.

Ydych chi'n meddwl bod y papure bro yn fythygiad i bapur fel Y Cymro y dyddie 'ma?

Nadw. Mi ddyla bod o'n help oherwydd oeddwn i yn gwybod pan oeddwn i yn golygu Y Cymro, mai yn yr ardaloedd lle'r oedd 'na draddodiad o ddarllen Cymraeg oedd Y Cymro yn gwerthu ora – yn ardaloedd y chwareli yn Llŷn, yn Y Bala, yn Ffestiniog, yn Nolgellau, llefydd lle roedd 'na bapura Cymraeg. Lle oeddach chi'n chael hi'n anodd ofnadwy oedd yn y de lle roedd 'na ... lle roedd y traddodiad o ddarllen Cymraeg yn gyson wedi darfydd, a dw i'n meddwl dyla'r papura bro fod yn help di-ben-draw i bob papur Cymraeg.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 15

Dw i am fynd i weld Miriam James. Dewch hefo fi rwan. Mae hi'n byw yn Llangelert, jyst tu allan i Llandysul. Ydw i'n iawn yn fan'na Miriam?

Odych, ryw bum milltir o Llandysul.

Ardal braf?

Ardal braf. Ardal wledig, eitha cymreigedd a gweud y gwir.

Ydy mae hi, yndydy?

Odi, odi, odi.

Fyddda i'n meddwl am yr ardal yna – fydda i'n meddwl i lawr dudwch o ochra Gaernarfon, i lawr Pen Llŷn, i lawr; Ceredigion, Sir Benfro, y ddwy droed 'na i lawr fel'a yn gymreigaidd iawn, dydy?

Odi, odi, chi'n iawn man'na.

I gymharu â'r ochor arall ynde, efo bob parch iddyn nhw. Mae 'na bobol sy'n gweithio yn galed iawn yr ochor arall i Gymru hefyd, y'ch chi, ar lawr y ffin yn fan'na ond 'da ni'm yn glywad o gymaint, yn nacdan?

Na, chi'n iawn man'na.

Ydach chi'n dal i weithio yn y siop lyfre?

Ydw, dw i 'ma nawr yn Aberteifi ers dros chwech mlynedd.

Ydach chi?

Ydw a ni 'di ehangu lot yn y flwyddyn dwetha 'ma. Ni 'di agor oriel lunie, chi'n mbod, yndife.

Do wir?

A gwaith fel artists lleol fan hyn, sef Aneurin Jones, 'de.

Dudwch dipyn am Aneurin Jones. Dw i'm yn gwbod llawer amdano fo i ddeud y gwir wrthoch chi.

Wel, gŵr lleol, wel, dim falle o'r ardal hyn yn enedigol yndife, ond fuodd e'n athro yn Ysgol Preseli a wedyn, wrth gwrs, mae fe, wel, mae fe wedi bod yn arlunio am blyneddde maith, yndife, a mae llunie falle amaethyddol sy 'dag e fwya falle, cymeriade – cymeriade falle ni'm yn gweld gw mint heddiw, yndife.

Ac i – y'ch oriel chi 'ta ei oriel o ydy hon? Pwy ...?

Wel, oriel y siop 'de . .

Y busnas ia?

Gwitho yn y siop ydw i. Dim fi sy'n berchen yr oriel ond .. ym .. a mae ambell i artist arall 'da ni ar hyn o bryd hefyd ond gwaith e falle'n benna, yndife.

Artistiaid lleol ydy rhain i gyd, ia?

Odyn, odyn.

Yn byw yn yr ardal, felly?

Ie, ie.

Wel, mae hynny'n rwbath – mae'n rwbath iddyn nhw sy'n arbennig, yntydi, achos mewn ffordd un o'r problema – dw i'n cofio rwun fyddwn i'n nabod yn r'ysgol ers talwm ac ei gŵyn fwya o oedd nad oedd 'na nunlla iddo fo ddangos ei waith, ynde.

Na, gan bod ni'n siop Gymraeg wedyn ar y stryd fawr, yndife, chi'n mbod, mae fe'n lle addas really i gael yr oriel 'ma, chi'n mbod yndife.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

Ydy pobol yn dal i fynd i'r llefydd yma d'wch i weld llunia? Mae gin gymaint o ddiddordeb mae'n siwr on'd oes ag oedd 'na ers talwm? Mae rwun yn tueddu i feddwl nad oes 'na ddim gymaint heddiw – w'ch chi beth dw i'n feddwl?

Ie, dw i'n meddwl bo ni'n eitha ffodus yn Aberteifi a gan bod siop 'da ni yma hefyd, chi'n mbod, mae pobol yn gallu cyfyngu'r ddau, chi'n mbod, yndife, bod nhw'n gallu mynd lan i'r oriel a wedyn cael edyrch o gwmpas y siop r'un pryd yndife, chi'n mbod.

Yndyn, wrth gwrs, yndyn, a pan mae nhw'n dod acw am lyfr, dudwch, a wedyn mae nhw'n mynd i'r oriel, yndydyn, mewn ffordd, yndydyn.

Odyn, 'sno nhw'n gorfod mynd falle yn uniongyrchol i oriel, yndife, cael y ddau r'un pryd wedyn, ynde.

Mae'n anhygoel, prisia rhai o'r llunia 'ma. 'Da chi'n gweld nhw os ewch chi i ryw oriel i rwla a chi'n gweld y prisia am nad dw i'n dallt dim byd am betha fel hyn, pam mae'r llun yna'n ddrutach na'r llun yna, 'da chi'n gwbod be dw i'n meddwl. Be sy'n gneud hwnna yn ddrutach, ynde? Ydach chi'n dallt y petha yma?

Dw i'm yn dallt dim byd am arlunio. O'n i'n – wel, a deud y gwir, o'n i'n ofnadw yn yr ysgol am dynnu llunia. Dw i'n hoffi, chi'n mbod, diddordeb 'da fi i weld llunie ond sa i'n deall lot o ddim byd, yndife.

Ia, wel, na dw inna ddim chwaith ond os dw i dramor, fydda i'n licio mynd i weld lluniau, y'ch Picassos a'r rhein i gyd 'lly, er nad dw i'n dallt dim byd amdany'n nhw. Ydach chi 'di gweld print rhad o amryw o'r llunia 'ma yn amal iawn, do? Wyddoch chi be dw i'n feddwl, maen nhw gynno ni mewn rhyw gegin neu rywbeth, yndydyn?

Odyn.

A fyddwch chi'n mynd rownd a meddwl, O, mi oedd hwnna gin i yn Gaerdydd ers talwm. O, un o'i lunia fo oedd hwn yn wreiddiol, felly, achos dw i'm yn dallt y petha 'ma ond fydda i'n meddwl be sy'n gneud rhai petha'n ddrutach na'i gilydd, a mae hynny am bo fi'm yn ddallt o, wrth gwrs.

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 16

Wythnos nesa mi fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn penderfynu ar enw swyddogol i'r Ganolfan Ymwelwyr newydd ar gopa'r Wyddfa. Mae'r Parc wedi derbyn tua 60 o awgrymiadau hyd yma ond maen nhw'n dal ishio chwanag o gynigion. Felly os 'da chi'n gallu cynnig enw i'r adeilad sydd yn cael ei godi ar gost o dros wyth miliwn o bunna, cysylltwch â ni ... O 500. Mae Llinos Angharad o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ymuno â ni rwan.

P'nawn da. Dylan.

Be ydy'r safon hyd yma?

'Dan ni wedi cael, fel oedda chi wedi sôn, 'dan ni 'di cael amrywiaeth o enwe. Mae'n siwr erbyn hyn bod 'na, fel oeddech chi'n deud, ryw chwe deg ohonyn nhw. Maen nhw'n amrywio o enwe reit hir, enwe trwsgwl, i enwe tafod yn foch. Os ga i roid ryw fath o syniad i chi ... Mae gynnon ni'n enwe'n barod fatha 'Caban y Copa', 'Carnedd', 'Crib Eryri', 'Hafan y Grug', 'Caban y Lili', 'Gwelfan Eryri' – allen i fynd mlaen a mlaen a mlaen a chymryd rhaglen gyfan os liciwch chi. Ond yr hyn ydan ni yn chwilio amdano fo ydy enw byr, enw bachog, enw sydd yn hawdd i'w ynganu ym mha bynnag iaith, a wedyn mae yn gyfle hefyd dw i'n meddwl i ystyried y'n hetifeddiaeth ni. Mae 'na ambell i enw, er enghraifft, sydd wedi ei awgrymu'n barod, er enghraifft 'Caban Gwenllian' ar ôl Tywysoges Gwenllian', 'Ogof Rhuddan', neu 'Ogof Rhita'. Dw i'm yn gwbod – oeddach chi'n gwbod pwy oedd Rhita, Dylan?

Ddim tan bore ond be – cawr oedd wedi ymgartrefu ar y copa 'na rmla?

Wel, na, yr Wyddfa – y gair cywir ydy 'Gwyddfa', sef beddrod, achos mae'n debyg, yn ôl y chwedl, mai fan'no oedd Rhita Gawr neu yn fan'no mae o wedi'i gladdu, ac oedd Rhita Gawr yn hen gawr

cas a blin oedd yn gwneud ei glogyn a gwneud ei ddillad allan o farfa'i elynion.

Cas, 'de!

Wedyn, mae o'n gyfle i godi ymwybyddiaeth pobol ynglŷn â'n hetifeddiaeth ni hefyd, 'da chi'n gwbod.

Oeddach chi'n sôn bo chi eisiau iddo fod yn weddol hawdd i'w ynganu – i'r Saeson fydda'n cerdded i gopa'r Wyddfa, fasa nhw'm yn gallu deud rw bath fel 'Carnedd', mae'n debyg, felly does 'na'm gobaith i 'Garnedd', gyrraedd y brig yn y gystadleuaeth. 'Carnad' fasa fo, ia? Dw i'm yn gwbod.

Wel, mi fedrwch chi gymryd yr agwedd honno efo unrhyw iaith, mae'n debyg, 'da chi'n gwbod. Hynny ydy, beth bynnag fydd yr enw fyddwn i'n ei benderfynu, wel, dyna fydd o, a siawns na fydd 'na gyfle iddyn nhw glywed yr enw'n gywir pan fyddan nhw ar y copa neu yn Llanberis neu beth bynnag, 'da chi'n gwbod?

'Caban Gwenllian' ddim yn mynd i fod yn un hawdd i'w ynganu chwaith. Gwenllian – dwn i'm be? Sut 'sa hwanna? Dw i'm yn gwbod.

Wel, ar hyn o bryd 'da ni'n croesawu pob math o awgrymiade a, fel oeddach chi'n sôn, mi fyddwn ni wythnos nesa ... neu fydd yr aelode yn penderfynu ... ar yr enw. Wedyn, ar hyn o bryd, rydan ni'n agored i bob math o awgrymiade. 'Da ni 'di cael ambell i awgrym fatha 'Yr Oruwch Ystafell', gan fod o'n mynd i fod yn reit uchel i fyny.

Ac os 'da chi'n cael pryd gyda'r nos, 'da chi'n cael swper olaf wedyn ydach chi?

Wnes i ddim meddwl am hynna, deud y gwir: 'Copa Cabana', yn un arall poblogaidd. Dw i'n gwbod bod Jonsi, pan o'n i'n mynd drwadd bore

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

'ma, bod o'n eitha hoff o'r enw hwnnw. 'Copa Cymru' yn un arall 'da ni 'di glywed. 'Copa'r Wyddfa' ei hun. 'Copa', ar ei ben ei hun, hyd yn oed, achos mae hwnna'n rywbeth arall mae rhaid i ni feddwl amdano fo ar ran ochor farchnata a brandio'r holl beth a meddwl am y nwyddau, a ballu, i'w gwerthu. Petha bach fatha cwpane fydd ar gael yn yr adeilad newydd neu serviettes neu beth bynnag, 'da chi'n gwbod.

'Copa' yn iawn hefyd, dydy?

TRAWSGRIFIADAU

Nod y trawsgrifiadau hyn yw adlewyrchu'n gywir yr hyn a glywir ar y crynoddsgiau. Nid yw siaradwyr y Gymraeg, yn fwy na siaradwyr unrhyw iaith arall, yn llefaru'n ramadegol gywir bob amser ac oherwydd hynny ceir enghreifftiau o iaith wallus. Gall y rhain fod yn adnodd gwerthfawr i'r tiwtor ac yn brawf i'r dysgwyr nad yw gwneud camgymeriadau yn rhwystr bob amser i gyfathrebu effeithiol. Ar dro, gellir tynnu sylw at wall a manteisio arno i danlinellu ambell bwynt. Greddf y tiwtor a'i adnabyddiaeth o'i ddsbarth fydd yn penderfynu pryd y dylid gwneud hyn ai peidio.

CD 2: TRAC 17

Ac mae un o'n dynion ni bora 'ma wedi cyrraedd y stiwdio, y Parchedig Evan Morgan, a fo'n sy'n mynd i siarad am Victor Spinetti a'i hunangofiant newydd. Fydde pobol falle yn disgwyl y bydde ni wedi gofyn i rywun o'r theatr neu rywun o fyd y ffilmie, chi'n mbod, i sôn am y llyfr 'ma, ynde, felly wnewch chi esbonio pam 'da'chi'n mynd i sôn amdano fo bore 'ma?

Wel, pam – ie, weles i e mewn sioe un-dyn yn y King's Head yn Islington ryw bum mlynedd yn ôl ac oedd e'n ddwy awr o adloniant pur, dweud y gwir. Mae o'n ffasiwn *raconteur* a wnes i sgwennu ato fo i ddweud gymaint o'n i 'di mwynhau y perfformiad a wnes i ddweud, 'da chi'n gwbod, mae e'n wych a deud hefyd iddo sgwennu hunangofiant a wedyn, dim byd. O'n i'm yn disgwyl ateb, ynde, a wedyn ryw chwech mis wedyn, adeg hyn o'r flwyddyn, ryw pum mlynedd yn ôl, adeg Dolig, chwech o gloch y nos, fel o'n i'n mynd allan, ynde, dyma'r ffôn yn canu a dyma ryw lais ar y ffôn yn dweud, "Hello, is that Evan Morgan?" A dyma fi'n dweud, "Yes".

"Oh, hello Evan, this is Victor Spinetti here," chi'n mbod. Oedd o mor glên ac o'n i'n dweud wrtho fo: O, pryd oedd o'n mynd i sgrifennu hunangofiant, felly.

"Well, I know, it's time isn't it? It's difficult to find time. Do you find that Evan?" A fel hyn oedd o 'da chi'n mbod. "Well, there we are," a rwy sgwrs felly a finna'n deud gymaint o'n i 'di mwynhau, a gymaint oedd e 'di gwerthfawrogi yr ymateb, felly. A wedyn, dyna fo, y sgwrs yn darfod, glên iawn, a wedyn ryw bum mlynedd wedyn yn hwyrach mae 'na hunangofiant wedi dod sef "Up Front" gan Victor Spinetti.

Ie, a 'da chi wedi cael cyfle i ddarllen?

Do, dw i wedi darllen y peth. Mae lot o straeon oedd yn ei sioe yn y peth ond mae'n sgrifennu fel

mae o'n llefaru, yn adrodd i ddweud y gwir a mae'n sôn am ei yrfa. Ga'th ei fagu yn Cwm, ynde, ryw bentre bach tu allan i Glynebwy, a wedyn ei dad, wrth gwrs yn dod o'r Eidal, a'i fam yn ferch lleol, ynde. A wedyn mae'n mynd i'r Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd a wedyn na'th e ei enw wedyn yn y ddrama oedd yn reit gyffrous ar y pryd, ynde, "Oh, What a Lovely War" efo Joan Littlewood yn Stratford East yn Llundon yn y chwedege a fe a'th e â hwnna i Broadway a ga'th e Tony Award er, fel mae'r papur lleol yn deud pan a'th e nôl i Glynebwy at ei fam. "Local star wins Tuby Award", chi'n gwbod ynde. A dyma ryw fenyw yn dweud wrtho ar y trê, "Oh, Tuby Award", medde'r fenyw bach 'ma, "I didn't think you were that fat Victor!" chi'n gwbod, a'r math yna o beth, a mae e'n sôn – oedd e'n ffrindia mawr efo'r Beatles. N'ath e ffilmie efo'r Beatles, a ffrindie mawr efo'r Burtons a Marlene Dietrich a mae'n llyfr hyfryd, deud y gwir. Mae'n llyfr mor hael am bawb ac yn glên am bawb. Gewch chi ambell i hunangofiant sydd yn bigog iawn ac yn chwerw iawn ond mae Spinetti yn sôn, 'da chi'n gwbod, am ei yrfa a ryw jobbing actor, deud y gwir, wedi cael adege anodd iawn, mewn dyled mawr a gorffo neud rhyw swyddi jyst er mwyn cadw'r peth ynghyd.

Ac ydy'r cysylltiad yn para â Chymru, felly? Pa mor glos ydy hwnnw bellach?

Ydy, oedd ei fam byw tan yn ddiweddar. Na'th ei fam fyw tan oedd hi'n naw deg pump a oedd e'n dal i fynd nôl yn gyson i weld ei fam yn Cwm, felly, a mae'n ymfalchïo yn ei Gymreictod, deud y gwir, o'i gefndir, 'da chi'n gwbod, yna yn Glynebwy, felly.